

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Hydref 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/Seneddlechyd

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Seneddlechyd@senedd.cymru**
Twitter: **@Seneddlechyd**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Hydref 2024



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/Seneddlechyd

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Russell George AS**
Ceidwadwyr Cymreig



Mabon ap Gwynfor AS
Plaid Cymru



John Griffiths AS
Llafur Cymru



Lesley Griffiths AS
Llafur Cymru



Sam Rowlands AS *
Ceidwadwyr Cymreig



Joyce Watson AS
Llafur Cymru

* Penodwyd Sam Rowlands AS yn Gadeirydd dros dro ar gyfer rhan o'r ymchwiliad hwn.

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod gwaith craffu ar y Bil:



Gareth Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



Heledd Fychan AS
Plaid Cymru



Altaf Hussain AS
Ceidwadwyr Cymreig

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y Bil:



Mark Drakeford AS *
Llafur Cymru

* Ar ôl cael ei benodi i Lywodraeth Cymru ar 7 Awst 2024, ymesgusododd Mark Drakeford AS yn ffurfiol o holl weithgareddau'r pwyllgor.

Cynnwys

Argymhellion	7
1. Cyflwyniad	12
Cylch gorchwyl.....	12
Y dull craffu a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor.....	13
Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd.....	13
2. Cefndir polisi: cyfyngu ar wneud elw	15
Plant sy'n derbyn gofal yn ôl lleoliad.....	15
Mwy o blant mewn gofal, ac anghenion cynyddol gymhleth.....	15
Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.....	16
Adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.....	17
Tystiolaeth ryngwladol.....	18
3. Egwyddorion cyffredinol y Bil	20
Darpariaethau'r Bil.....	20
Barn Plant a Phobl Ifanc.....	22
Yr hyn a ddywedwyd wrthym.....	22
Tystiolaeth gan randdeiliaid.....	25
Cyfyngiadau ar elw (Rhan 1, Pennod 1).....	25
Rheoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol (Rhan 1, Pennod 2).....	33
Taliadau uniongyrchol am ofal iechyd parhaus (Rhan 2).....	33
Tystiolaeth gan y Gweinidog.....	36
Cyfyngiadau ar elw (Rhan 1, Pennod 1).....	36
Rheoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol (Rhan 1, Pennod 2).....	38
Taliadau uniongyrchol am ofal iechyd parhaus (Rhan 2).....	39
Ein barn ni.....	39

4. Rhan 1: Gofal Cymdeithasol, Pennod 1 – darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant: cyfyngiadau ar elw 42

Trosolwg.....	42
Tystiolaeth gan randdeiliaid	42
Rhaid i ddarparwyr fod yn endidau ‘nid-er-elw’	42
Y cyfnod trosiannol a sicrhau bod digon o leoliadau ar gael i ateb y galw	52
Eithriadau er mwyn caniatáu darpariaeth ‘nid er elw’	63
Yr effaith ar blant yr effeithir arnynt gan y Bil.....	67
Materion eraill yn ymwneud â phlant.....	70
Tystiolaeth gan y Gweinidog.....	73
Rhaid i ddarparwyr fod yn endidau ‘nid-er-elw’	73
Y cyfnod trosiannol a sicrhau bod digon o leoliadau ar gael i ateb y galw	77
Eithriadau er mwyn caniatáu darpariaeth ‘nid-er-elw’	82
Yr effaith ar blant yr effeithir arnynt gan y Bil.....	85
Materion eraill yn ymwneud â phlant.....	85
Ein barn ni.....	87
Rhaid i ddarparwyr fod yn ddarparwyr nid-er-elw.....	87
Y cyfnod trosiannol a sicrhau bod digon o leoliadau ar gael i ateb y galw	91
Eithriadau er mwyn caniatáu darpariaeth nid er elw.....	95
Yr effaith ar blant yr effeithir arnynt gan y Bil.....	97
Materion eraill yn ymwneud â phlant.....	98

5. Rhan 1: Pennod 2: Diwygiadau amrywiol mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol a swyddogaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol (adrannau 14-22) 101

Trosolwg.....	101
---------------	-----

Tystiolaeth gan randdeiliaid	101
Tystiolaeth gan y Gweinidog	102
Ein barn ni	103
6. Rhan 2: Gofal Iechyd (adrannau 23-26).....	104
Trosolwg.....	104
Cefndir	104
Tystiolaeth gan randdeiliaid	105
Gwybodaeth, cyngor a chymorth.....	105
Paratoi byrddau iechyd ar gyfer cyfrifoldebau newydd.....	107
Rheoli'r trosglwyddo rhwng gofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus y GIG.....	108
Llywodraethu a dirprwyo	110
Cymorth ariannol i fyrddau iechyd	111
Natur fregus y gweithlu	112
Digonolrwydd ac amrywiad yn y cyfraddau cyflog a bennir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd.....	113
Defnyddio taliadau uniongyrchol fel y dewis olaf yn absenoldeb gwasanaethau.....	114
Cynorthwyr personol	115
Cymhwystra ar gyfer GIP ac anghydfodau ynghylch cyllid.....	117
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau	120
Tystiolaeth gan y Gweinidog	120
Gwybodaeth, cyngor a chymorth.....	120
Paratoi byrddau iechyd ar gyfer cyfrifoldebau newydd.....	122
Rheoli'r trosglwyddo rhwng gofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus y GIG.....	122
Llywodraethu a dirprwyo	123
Costau a chymorth ariannol i fyrddau iechyd.....	123

Natur fregus y gweithlu	124
Cynorthwywyr personol	125
Cymhwystra ar gyfer GIP ac anghydfodau ynghylch cyllid.....	126
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau	127
Adolygiad ar ôl gweithredu'r Bil	128
Ein barn ni	128
Gwybodaeth, cyngor a chymorth.....	128
Paratoi byrddau iechyd ar gyfer cyfrifoldebau newydd.....	130
Rheoli'r trosglwyddo rhwng gofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus y GIG.....	130
Costau a chymorth ariannol i fyrddau iechyd.....	132
Y gweithlu a chynorthwywyr personol	132
Cymhwystra ar gyfer GIP ac anghydfodau ynghylch cyllid.....	133
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau	133
Adolygiad ar ôl gweithredu'r Bil	133

Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru).

..... Tudalen 41

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda phartneriaid i ymchwilio i fodolau busnes na ddarperir ar eu cyfer yn y Bil ar hyn o bryd, a fyddai'n hyrwyddo egwyddorion menter gymdeithasol ond yn parhau i fod yn fodolau nid-er-elw. Tudalen 88

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil i gynnwys pwerau gwneud rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i gymryd camau i gau unrhyw fylchau sy'n galluogi cwmnïau i dynnu elw preifat allan o ofal plant sy'n derbyn gofal, pe bai bylchau o'r fath yn dod i'r amlwg yn y dyfodol. Dylai rheoliadau o'r fath fod yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol. Tudalen 88

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru baratoi a chyhoeddi cynnig manwl ynghylch y canllawiau a'r cymorth a fydd ar gael i ddarparwyr preifat ac annibynnol sy'n dymuno trosglwyddo i fodel nid-er-elw. Dylid gwneud hyn ar fyrder, a dylid llunio cynllun cyfathrebu i gyd-fynd â nhw. Tudalen 89

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru wneud ymrwymiad clir i lefel y cyllid a'r cymorth a fydd ar gael i awdurdodau lleol yn y dyfodol y tu hwnt i'r cyfnod trosiannol i gefnogi'r agenda 'dileu elw'. Fel isafswm, dylai hwn amlinellu'r cyllid ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a fydd yn gyfnod hollbwysig i awdurdodau lleol o ran datblygu eu darpariaeth eu hunain. Tudalen 90

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu atom, o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, gyda manylion am y canlynol:

- y gwaith a wnaed gan Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw o ran monitro a gwerthuso gweithrediad y polisi 'dileu elw' hyd yn hyn;
- y gwerthusiad mwy ffurfiol o'r Bil a gynigir gan y Gweinidog, gan gynnwys pwy fydd yn ymwneud â'r adolygiad, ei gylch gorchwyl a pha mor aml y bydd yn adrodd. Tudalen 91

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog ystyried argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n seiliedig ar ei waith craffu helaeth ar y maes polisi hwn, sef "y dylid diwygio Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) i'w gwneud yn orfodol i

ofalwyr maeth gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn darparu lleoliadau maeth i blant sy'n derbyn gofal, a thrwy hynny gyflymu'r cynnydd tuag at sefydlu cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth", ac ymateb i'r argymhelliad hwnnw.....Tudalen 93

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog adolygu'r dystiolaeth gan randdeiliaid sy'n nodi eu pryderon sylweddol ynghylch amserlenni'r broses drosiannol a gynigir gan Lywodraeth Cymru, a'u potensial i waethygu'r problemau presennol mewn perthynas â darpariaeth ddigonol, er mwyn sicrhau ei hun bod modd cyflawni'r polisi o fewn yr amserlenni a gynigir, heb gael effaith andwyol ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.....Tudalen 94

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog baratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cynnydd o ran trosglwyddo i'r model nid-er-elw. Dylai hyn gynnwys diweddariad, fesul awdurdod lleol, ar nifer y lleoliadau sy'n gadael y farchnad a nifer y lleoliadau newydd a grëwyd, a dylai fyfyrion ar sefydlogrwydd y lleoliadau presennol. Dylai hefyd gynnwys manylion yr ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc y mae'r Bil yn effeithio'n uniongyrchol arnynt a'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig gweithredol o eiriolaeth. Dylid gwneud hyn bob chwe mis, gan ddechrau o ddyddiad dadl Cyfnod 1.....Tudalen 95

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod unrhyw ganllawiau neu God Ymarfer a gyhoeddir mewn perthynas ag adran 13 yn cadarnhau nad yw'r Bil yn atal awdurdodau lleol rhag lleoli plentyn mewn lleoliad atodol cyn cael cymeradwyaeth Weinidogol, a bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gallu gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru i gymeradwyo lleoliadau, os oes angen. Dylai canllawiau o'r fath bwysleisio na ddylai defnyddio lleoliadau atodol ddod yn sefyllfa ddiodyn, yn enwedig yn ystod cyfnodau heriol.....Tudalen 96

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar leoliadau atodol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan y Bil. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys data diennw ar faterion sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ystod oedran y plentyn; awdurdod lleol; y math o leoliad y gofynnir amdano (maethu er elw, er elw, preswyl, y tu allan i'r sir, y tu allan i Gymru, anghofrestredig); a oedd y plentyn eisoes yn y lleoliad, ystod cost). Rhaid i eithriad fod yn berthnasol i unrhyw adroddiad a gynhyrchir yn unol â'r argymhelliad hwn, i'r perwyl na ddylai'r adroddiad gynnwys unrhyw ddata a fyddai, o'u darllen ar y cyd ag unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i'r cyhoedd, yn galluogi unrhyw unigolyn i gael ei adnabod. Dylai'r Gweinidog gynnwys darpariaeth ar gyfer hyn ar wyneb y Bil.....Tudalen 96

Argymhelliad 12. Wrth gywiro paragraff 55 o'r Nodiadau Esboniadol i ddileu'r term lleoliad 'anghofrestredig', dylai'r Gweinidog ei gwneud yn glir bod lleoliadau nad ydynt wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru yn anghyfreithlon ac na ddylid eu defnyddio fel 'lleoliadau atodol' nac o dan unrhyw amgylchiadau eraill.
..... Tudalen 97

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynhyrchu adnoddau hygyrch gyda'r nod o hysbysu plant a phobl ifanc am y Bil a sut i fynegi eu barn arno..... Tudalen 97

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil i gynnwys darpariaeth ar gyfer cynnig gweithredol o eiriolaeth i blant a phobl ifanc y gallai'r Bil effeithio ar eu trefniadau gofal..... Tudalen 98

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog ddiwygio adran 10 o'r Bil i'w gwneud yn glir:

- mai ystyr lleoli plentyn "yn agos i" ardal yr awdurdod lleol yw awdurdod lleol ffiniol neu gyfagos, ac
- y dylid ond defnyddio'r ddarpariaeth hon mewn amgylchiadau eithriadol. Tudalen 99

Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o drefniadau adrodd gorfodol gan sefydliadau ar achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Dylai wneud hyn mewn da bryd i ganiatáu i'r Aelodau ystyried ei hymateb a chyflwyno gwelliannau i'r Bil os nad ydynt yn credu bod y camau hyn yn ddigonol.
..... Tudalen 100

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad ar y cynnydd o ran datblygu'r ganolfan ganolog i gefnogi'r gwaith o weithredu taliadau uniongyrchol am ofal iechyd parhaus. Dylai hyn gynnwys manylion ei statws gweithredol presennol, niferoedd y staff, costau gweithredu a nifer y bobl sy'n cael cyngor a chymorth. Dylid ei gynhyrchu o fewn chwe mis i ddadl Cyfnod 1, ac yn flynyddol wedi hynny.
..... Tudalen 129

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil i wneud darpariaeth ar gyfer 'hawl i wybodaeth, cyngor a chymorth' i unigolion sy'n awyddus i hawlio taliadau uniongyrchol am ofal iechyd parhaus. Dylai unrhyw ganllawiau a gyhoeddir o dan y ddarpariaeth hon gynnwys gwybodaeth am drosglwyddo rhwng gofal cymdeithasol a Gofal Iechyd Parhaus, a dylent hyrwyddo parhad gofal cyn belled ag y bo modd..... Tudalen 129

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth bellach i bryderon rhanddeiliaid mai taliadau uniongyrchol yw'r unig opsiwn sydd ar gael weithiau, mewn ardaloedd gwledig yn benodol, yn absenoldeb gwasanaethau eraill. Dylai weithio gyda phartneriaid i ystyried sut y gellir rheoli unrhyw gyfyngiadau ar wasanaethau yn yr ardaloedd hyn a'r ffordd orau o gefnogi'r unigolion y mae'r cyfyngiadau'n effeithio arnynt.....Tudalen 130

Argymhelliad 20. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad o bryd i'w gilydd yn amlinellu ei hasesiad o'r cynnydd sy'n cael ei wneud i baratoi byrddau iechyd ar gyfer eu cyfrifoldebau newydd yn y maes hwn. Dylid gwneud hyn bob chwe mis, a dylai ddechrau ar ôl i ddadl Cyfnod 1 gael ei chwblhau. Fel rhan o hyn, dylai'r Gweinidog sicrhau bod byrddau iechyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddysgu o'u profiadau a'u harferion gorau.....Tudalen 130

Argymhelliad 21. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu atom ymhen chwe mis gyda diweddariad ar y cynnydd o ran datblygu'r fframwaith perfformiad a'r cynllun gweithredu newydd ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys canllawiau ar ddirprwyo tasgau priodol yn ddiogel a manylion y metrigau a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer taliadau uniongyrchol er mwyn gallu mesur cynnydd a llwyddiant.....Tudalen 131

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog:

- fonitro'r gwariant gan fyrddau iechyd dros dair blynedd gychwynnol y polisi, ac adrodd yn ôl ar ddiwedd y cyfnod hwn ar sefyllfa ariannol byrddau iechyd o ran eu gallu i barhau i ariannu a darparu taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus, a
- pharhau i fonitro ac adolygu gwariant gan fyrddau iechyd ar y polisi hwn yn y dyfodol. Tudalen 132

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog weithio gyda chydweithwyr perthnasol yn y Cabinet a phartneriaid ehangach i hyrwyddo rôl y Cynorthwydd Personol, i gynyddu nifer y ceisiadau ac i wella cyfraddau cadw staff yn y tymor hwy. Bydd hyfforddiant priodol yn rhan bwysig o'r gwaith hwn..... Tudalen 132

Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad i'r Pwyllgor, ar ôl cwblhau'r adolygiad o'r fframwaith Gofal Iechyd Parhaus, gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau a chanllawiau cymhwystra ychwanegol a ddarparwyd o ganlyniad i'r adolygiad. Tudalen 133

Argymhelliad 25. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn nodwedd amlwg o'r canllawiau a gyhoeddir ar Ran 2 o'r Bil. Tudalen 133

Argymhelliad 26. Dylai'r Gweinidog:

- sicrhau bod yr adolygiad ar ôl gweithredu'r Bil yn ystyried yr ymwybyddiaeth, ymhlith defnyddwyr gofal cymdeithasol, o'r opsiwn newydd o daliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus;
- cytuno i ryddhau setiau data'r Byrddau Iechyd Lleol sydd wedi'u bwriadu i roi darlun o'r nifer sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus ledled Cymru, a
- darparu manylion yr amserlenni ar gyfer yr adolygiad ar ôl gweithredu'r Bil. Tudalen 134

1. Cyflwyniad

1. Ar 20 Mai 2024, cyflwynwyd y **Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)** ('y Bil') a'r **memorandwm esboniadol** i'r Senedd. Ar 21 Mai 2024, gwnaeth y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol **ddatganiad** ar y Bil yn y cyfarfod llawn.
2. **Cyfeiriwyd** y Bil at y Pwyllgor hwn, gan y Pwyllgor Busnes, ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1, a'r dyddiad cau ar gyfer adrodd yw 11 Hydref 2024.

Cylch gorchwyl

3. Er mwyn llywio ei waith, cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl a ganlyn:

Ystyried:

- Egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriadau polisi a nodwyd;
- Darpariaethau'r Bil (ceir crynodeb isod), gan gynnwys a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriadau polisi a nodir:
 - Rhan 1, Pennod 1: darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant: cyfyngiadau ar elw (adrannau 1-13)
 - Rhan 1, Pennod 2: diwygiadau amrywiol mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol a swyddogaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol (adrannau 14-22 ac atodlen 1)
 - Rhan 2: Gofal Iechyd (adrannau 23-26 ac atodlen 2)
 - Rhan 3: Cyffredinol (adrannau 27-30)
- Unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil, ac a yw'r Bil, y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn rhoi ystyriaeth iddynt;

¹ A ddynodwyd yn Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, o dan Reol Sefydlog 24.4. Y teitl blaenorol oedd y 'Gweinidog Gofal Cymdeithasol', ond newidiwyd teitl y Gweinidog fel rhan o gyhoeddiad y Prif Weinidog am ei Chabinet newydd ar 11 Medi 2024

- Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'u nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol);
- A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- Asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol y Bil fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol;
- Asesiadau effaith integredig Llywodraeth Cymru (a nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol), gan gynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant;
- Y dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynigion polisi a deddfwriaethol a adlewyrchir yn y Bil, gan gynnwys y dull o ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid.

Y dull craffu a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor

- 4.** Cyhoeddodd y Pwyllgor alwad agored am dystiolaeth ar y cylch gorchwyl. Digwyddodd hyn rhwng 24 Mai a 28 Mehefin 2024. Daeth 39 o [ymatebion](#) i law.
- 5.** Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ar 6 Mehefin ac 17 Gorffennaf 2024. At hynny, rydym wedi bod yn gohebu² gyda'r Gweinidog ar nifer o faterion yn ymwneud â'r Bil.
- 6.** Cynhaliwyd cyfres o sesiynau tystiolaeth lafar gyda thystion, gan gynnwys sefydliadau plant preifat, annibynnol ac nid-er-elw, sefydliadau sy'n cynrychioli pobl ifanc, pobl anabl a gofalwyr, cynrychiolwyr llywodraeth leol a byrddau iechyd lleol. Hefyd, cynhaliwyd dau ddigwyddiad preifat i randdeiliaid, un gyda phobl anabl ac un gyda phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal³.
- 7.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at ei waith.

Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd

- 8.** Clywodd y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dystiolaeth gan y Gweinidog ar y meysydd sydd o ddiddordeb

² Mae'r ohebiaeth ar gael drwy [dudalen y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#)

³ Manylion sesiynau tystiolaeth lafar, gan gynnwys trawsgrifiadau a gweddarlllediadau, sydd ar gael ar [dudalen y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#)

iddynt. Maent ill dau wedi cyhoeddi adroddiadau ar eu canfyddiadau, sydd i'w gweld ar **hafan y Bil**.

9. Ysgrifennodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, y mae ganddo ddiddordeb arbennig yn y maes polisi sy'n gysylltiedig â Rhan 1 o'r Bil, atom i roi ei farn ar y Bil yn seiliedig ar y dystiolaeth y mae wedi'i chasglu yn ystod y Chweched Senedd. Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith.

2. Cefndir polisi: cyfyngu ar wneud elw

Plant sy'n derbyn gofal yn ôl lleoliad

10. Mae data Llywodraeth Cymru sydd wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol **yn dangos** bod 7,265 o blant mewn lleoliadau maeth a phreswyl yng Nghymru yn 2021. O blith y rhain, roedd 5,075 (neu 70%) mewn gofal maeth a 535 (neu 7%) mewn lleoliadau preswyl. Roedd y 1,655 (neu'r 23%) arall mewn 'lleoliadau eraill'. Gan ddefnyddio data o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'r tabl isod yn dangos canran y plant sydd mewn gofal yn ôl y math o ddarparwr.

Math o ddarparwr	Lleoliadau preswyl (2021)	Gofal Maeth (2022)
Sector preifat	81%	35%
Sector gwirfoddol	6%	5%
Awdurdod Lleol	13%	60%
Cyfanswm	100%	100%

Ffynhonnell: Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), Tablau 7.8 a 7.9 yn y Memorandwm Esboniadol

11. Ym mis Mehefin 2023, mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod 1880 o blant yn cael eu lleoli gan awdurdodau lleol Cymru mewn lleoliadau annibynnol/preifat yng Nghymru -

- Plant wedi'u lleoli gydag asiantaethau maethu annibynnol: 1284
- Plant wedi'u lleoli gyda darparwyr preswyl annibynnol: 596

Mwy o blant mewn gofal, ac anghenion cynyddol gymhleth


12. Mae mwy nag un plentyn o bob cant o blant yng Nghymru bellach mewn gofal.

13. Mae'r niferoedd hyn wedi cynyddu'n sylweddol: roedd 7,210 o blant yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar 31 Mawrth 2023 - cynnydd o 26% ers 2014. Gwelwyd cynnydd o 83% yng **nghyfradd y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru** rhwng 2003 a 2022.

14. Yn 2023 roedd 116 fesul 10,000 o blant yng ngofal awdurdodau lleol yng Nghymru, o gymharu â 71 fesul 10,000 yng ngofal awdurdodau lleol yn Lloegr.

15. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid fel rhan o gyllideb ddrafft 2024-25 Llywodraeth Cymru, **dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)** fod yr achosion yn cynyddu o ran eu cymhlethdod.

Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth



Ffynhonnell: StatsCymru, [Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran](#)

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

16. Yn 2022, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar **newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth ar ofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus**.⁴ Roedd yr ymgynghoriad hwnnw'n canolbwyntio ar bedwar maes:

- dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal;
- cyflwyno taliadau uniongyrchol am ofal iechyd parhaus;
- ehangu'r dyletswyddau gorfodol i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg;
- diwygio'r drefn reoleiddio ar gyfer darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys estyn y

⁴ [Newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth ar ofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus](#), Llywodraeth Cymru

diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae.

17. Wedi hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **grynodeb o ymatebion** ym mis Mehefin 2023. O blith y **200 o ymatebwyr**, gwnaeth 153 sylwadau ar y cynigion i 'ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal'.

Adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

18. Cyhoeddwyd Adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, yn dwyn y teitl **Adroddiad astudiaeth marchnad ar ofal cymdeithasol plant** (Saesneg yn unig) a **Crynodeb Cymru**, yn 2022.

19. Edrychodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar y sefyllfa ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban, a thrafododd gostau lleoliadau a lefelau elw. Canfu fod gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yng Nghymru yn costio tua £350 miliwn y flwyddyn ond nid oedd yn amcangyfrif faint o hynny oedd yn elw. Dywedodd:

"O'n hasesiad ein barn ni yw nad yw gwaharddiad neu gap o'r fath yn angenrheidiol i gyflawni marchnad lleoliadau effeithiol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod fod ffactorau y tu hwnt i'n swyddogaeth yn berthnasol i'r penderfyniad hwn, ac mai gwaith llywodraethau a etholwyd mewn modd democrataidd yw pwyso a mesur hynny."

20. Canfu:

"Yn gyffredinol, ein barn ni yw bod problemau sylweddol yn bodoli ynghylch sut mae'r lleoliadau'n gweithio, yn enwedig yng Nghymru a Lloegr. Gwelsom:

- *nad oes yna ddigon o leoliadau o'r math cywir, yn y lleoedd cywir, sy'n golygu nad yw plant yn cael gofal a llety mewn ffordd gyson ac sy'n bodloni eu hanghenion;*
- *mae'r darparwyr lleoliadau preifat mwyaf yn gwneud elw llawer uwch, ac yn codi prisiau llawer uwch, na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl petai'r farchnad hon yn gweithio'n effeithiol; ac*
- *mae rhai o'r darparwyr preifat mwyaf yn ysgwyddo lefelau uchel iawn o ddyled, gan greu'r risg y gallai cwmnïau*

dylanwadol a mawr fynd i'r wal ac amharu ar y trefniant lleoliadau ar gyfer plant mewn gofal."

21. Ym mis Mai 2024, daeth adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru **i'r casgliad** "nad oes llawer o dystiolaeth gynradd wedi'i chyhoeddi sy'n ymwneud â chanlyniadau y gellir eu cymharu, yn enwedig yng nghyd-destun y DU" ynghylch gofal preswyl a maeth "er-elw" i blant.

22. Fodd bynnag, nododd fod dystiolaeth gref yn y DU bod plant yn fwy tebygol o gael eu lleoli y tu allan i'w hardal leol o dan system "er elw" a bod hynny'n dangos cysylltiad rhwng darpariaeth "er elw" a sefydlogrwydd a pharhad gwael o ran lleoliadau. Nododd hefyd fod dystiolaeth gref o'r DU sy'n dangos bod cysylltiad rhwng darpariaeth "er elw" a lleoliadau o ansawdd gwael.

23. Yng nghrynodeb Cymru (Mawrth 2022) **nododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd:**

"Tra bod enghreifftiau o ddarpariaeth dda a gwael gan bob math o ddarparwr, nid oes dystiolaeth o archwiliadau rheoleiddiol i wneud i ni gredu fod darpariaeth breifat yn cynnig safon is, ar gyfartaledd, na darpariaeth gan awdurdod lleol."

Tystiolaeth ryngwladol

24. Ymysg y pwyntiau perthnasol o ddiddordeb uniongyrchol yn adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar mae'r canlynol: **Tystiolaeth Ryngwladol: Dulliau rhyngwladol o reoli darpariaeth lleoliadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal** roedd y canlynol:

- *"Nid ydym wedi ceisio darganfod, nac wedi canfod, unrhyw dystiolaeth na phrofiad clir bod unrhyw un dull yn well nag eraill. [...] Serch hynny, efallai y dylid archwilio gwersi pwysig am y cydbwysedd a ddymunir rhwng perchenogaeth a rheolaeth y wladwriaeth, y sector preifat a'r trydydd sector drwy gymharu â gwledydd eraill."*
- *"Mae cost gofal yn parhau i godi yn y rhan fwyaf o wledydd. Mae cynnydd mewn proffesiynoldeb a phrinder darpariaeth yn cynyddu costau cyfartalog."*

- *“Mae prinder lleoliadau ar gael, ac yn aml mae sefydliadau yn y rhan fwyaf o’r gwledydd y siaradwyd â hwy’n ei chael yn anodd dod o hyd i leoliadau priodol, yn enwedig i blant a phobl ifanc sy’n ‘anodd eu lleoli’, am unrhyw gost.”*
- *“Yn aml, ceir cymysgedd o ran darparwyr gofal; bydd gwledydd yn darparu rhywfaint o ofal (maeth a phreswyl) yn uniongyrchol drwy gyfrwng sefydliadau’r wladwriaeth ei hun, yn ogystal â defnyddio darparwyr annibynnol. Nid oes unrhyw wlad yn dibynnu’n llwyr ar ofal a ddarperir gan y wladwriaeth.”*
- *“[...] mae comisiynu strategol, cynllunio a llunio’r farchnad yn her i bob gwlad. [...] Mae gan lawer o wledydd ddulliau i helpu eu hawdurdodau lleol i gydweithio mewn grwpiau (neu ar lefel genedlaethol) i gynyddu eu pŵer prynu a’u dylanwad dros y farchnad.”*

25. Gan edrych ar y cydbwysedd rhwng darpariaeth y wladwriaeth, y sector preifat a’r trydydd sector, dywed:

“Mae’n ymddangos bod gan rai gwledydd sector bach iawn o ddarparwyr preifat, sydd yn bennaf yn cadw at ddarparu gofal preswyl arbenigol lle mae angen lleoliadau untro o bryd i’w gilydd. Yn yr enghreifftiau hyn, fel rheol bydd gofal maeth wedi’i drefnu a’i ddarparu gan gorff gwladwriaethol. Yn aml yn y gwledydd hyn, mae cyflogau gofalwyr maeth yn gymharol isel, gan ganolbwyntio ar lwfansau, ac ni ystyrir fel rheol bod gofal maeth yn dasg ‘broffesiynol’.”

3. Egwyddorion cyffredinol y Bil

Darpariaethau'r Bil

26. Mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn cynnwys 30 o adrannau sydd wedi'u trefnu'n dair rhan, a dwy atodlen. Mae'n cynnwys darpariaethau i:

- gyfyngu ar yr elw a wneir gan ddarparwyr gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (Rhan 1, Pennod 1);
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno cynllun digonolrwydd blynyddol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o lety sy'n cael ei ddarparu gan endidau nid-er-elw, naill ai o fewn eu hardaloedd neu'n agos iddynt, i ddiwallu anghenion y plant hynny (Rhan 1, Pennod 1);
- galluogi cyflwyno taliadau uniongyrchol am Ofal Iechyd Parhaus (GIP) y GIG (Rhan 2); a
- gwneud diwygiadau i sicrhau bod Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') yn gallu gweithredu'n llawn ac yn effeithiol (Rhan 1, Pennod 2).

Nodyn ar y derminoleg: 'cyfyngu ar' neu 'ddileu' elw

27. Mae Pennod 1 o'r Bil ei hun yn cyfeirio at 'gyfyngu ar wneud elw' wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant, tra bod y Memorandwm Esboniadol a dogfennau eraill Llywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd â'r Bil yn defnyddio'r term 'dileu elw'.

28. Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch pam mae'r ddau derm hyn yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol, dywedodd y Gweinidog:

"Nid yw'r darpariaethau wedi'u bwriadu i atal busnes gwasanaeth maethu neu fusnes cartref plant rhag cynhyrchu gwarged yn sgil masnachu. Yn yr ystyr hwnnw, nid yw'r Bil yn atal darparwyr y gwasanaethau hyn rhag gwneud elw. Fodd bynnag, bwriad darpariaethau'r Bil yw sicrhau bod unrhyw warged neu elw masnachu yn cael ei gadw o fewn y busnes i'w

aifuddsoddi er mwyn tyfu'r busnes neu wella ansawdd y gwasanaethau y mae'r busnes yn eu darparu. Bwriad darpariaethau'r Bil yw atal darparwr rhag tynnu elw o'r busnes yn y ffordd ag y caiff cyfranddalwyr cwmni cyfyngedig eu gwobrwyo, er enghraifft. Dyma sut y dywedir bod y Bil yn dileu elw preifat o wasanaethau sy'n darparu gofal i blant sy'n derbyn gofal.”⁵

29. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at 'gyfyngu ar elw', gan mai dyma'r derminoleg a ddefnyddir yn y Bil.

Ystyriaethau'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol a hawliau dynol

30. Ar ôl cyflwyno'r Bil, **ysgrifennodd**⁶ y Llywydd at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i dynnu eu sylw at ei hystyriaeth o gydnawsedd y Bil â'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

31. Ei chasgliad cyffredinol oedd bod y darpariaethau yn y Bil yn gydnaws â'r Confensiwn. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud ei bod o'r farn “bod y sefyllfa mewn perthynas â darpariaethau penodol yn y fantol, gyda dadleuon cryf o blaid ac yn erbyn cydnawsedd.” Amgaeodd grynodedb o'r ystyriaethau hawliau dynol sy'n berthnasol i'r Bil.

32. Ar 12 Mehefin 2024, fe wnaethom ysgrifennu⁷ at y Gweinidog yn gofyn am ei hasesiad o'r ystyriaethau hawliau dynol mewn perthynas â'r Bil hwn, yn enwedig a allai darpariaethau'r Bil sy'n cyfyngu ar y gallu i wneud elw gyffwrdd â'r hawliau o dan Erthygl 8, a'r hawl i fwynhad heddychlon o eiddo o dan Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Atebodd y Gweinidog ar 28 Mehefin 2024⁸, gan nodi ei barn yn Atodiad B i'r llythyr hwnnw. Rydym yn tynnu sylw'r Senedd at y dystiolaeth hon fel rhan o'i hystyriaeth o egwyddorion cyffredinol y Bil.

⁵ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Gorffennaf 2024

⁶ Llythyr oddi wrth y Llywydd, 10 Mehefin 2024

⁷ Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 12 Mehefin 2024

⁸ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

Barn Plant a Phobl Ifanc

- 33.** Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn golygu bod gan blant yr hawl i gael eu clywed a'u cymryd o ddifrif pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- 34.** Yn ystod ein gwaith casglu tystiolaeth, fe wnaethom gynnal digwyddiad preifat i randdeiliaid gyda grŵp o bobl ifanc i drafod eu barn ar Bennod 1 o'r Bil. Hefyd, cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth gyhoeddus gyda phobl ifanc. Mae'r sesiynau hyn wedi llywio ein barn ynghylch Pennod 1 o'r Bil.⁹
- 35.** Rydym yn ddiolchgar iawn i'r bobl ifanc hynny am roi o'u hamser i siarad â ni. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Voices from Care Cymru am eu cefnogaeth wrth drefnu'r sesiynau hyn.

Yr hyn a ddywedwyd wrthym

- 36.** Yn ystod ein sesiynau, dywedodd y bobl ifanc wrthym:

Mae'n bwysig iawn bod ein lleoliadau yn agos at ein hardal gartref fel y gallwn weld ein ffrindiau ac aros yn ein hysgol ni. Rydym am fod yn agos at bobl rydym yn eu hadnabod a chael cysylltiad â'n teulu pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Rydym yn cael ein symud lot ac mae'n anodd ffio i mewn i gymunedau newydd.

"What was important when I was in care was the location of my placement, because, when I was in care, I was out in the middle of nowhere, where I didn't have anyone around my own age that I could build friendships with. All my friends were all in the town where my high school was. And that was like 10, nearly 11 miles away from my house. So, I couldn't build any lasting friendships".

Rowan Gray

Rydym eisiau lleoliadau diogel - rhywle i'w alw'n 'gartref', lle nad oes rhaid i ni boeni am gael ein symud ymlaen.

"It's really important that we have a placement that we know we can stay in permanently, and that we're not going to be moved within 24

⁹ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024: tudalen y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

hours of living in that placement, or we're not going to be moved within a week of living in that placement."

Joanne Griffith

Os bydd rhaid inni symud, dylem gael rhybudd ymlaen llaw.

"An hour and a half before I came into care, I was told that I was going into care, and I didn't even know where I was going. I got into a car with a duty social worker. I didn't know this woman, I didn't know where I was living."

Elliott James

Rydym am i ofalwyr gael eu hyfforddi'n briodol i'n cefnogi ni.

"I think, obviously, the training is really important, but, as a young person, I don't think it's taken seriously, because I lived in a foster placement and they'd been fostering for 15 years—I hadn't lived with them for 15 years. So, she had a letter come through the door saying about training, and it wasn't mandatory. And she said that, where she's got three kids of her own and she's been fostering for 15 years, she doesn't need that training. But she couldn't take care of me the way she should have with the mental health problems that I have."

Rhian Thomas

Rydym eisiau pobl ofalgar a pheidio â chael ein cam-drin. Rydym eisiau dangos cariad ac anwyldeb fel y gallwn adeiladu ymddiriedaeth a pherthnasoedd iach.

"We need a placement that we know that we can call home, we know that we can trust the foster carers, we know that we can build that relationship with them, and even being able to have hugs with foster placements is extremely important, because we need to learn to build a healthy relationship around us."

Joanne Griffith

Rydym eisiau aros gyda'n brodyr a'n chwiorydd.

"I think it's important, when young people come into care and they're a set, so they've got siblings, that they're kept together."

Rhian Thomas

Rydym eisiau lleoliadau sy'n gallu diwallu ein hanghenion ieithyddol/diwylliannol.

Yn ystod y digwyddiad preifat, dywedodd un person ifanc wrthym ei bod wedi dod o deulu Cymraeg ei iaith, ond ei bod wedi cael ei lleoli gyda gofawyr maeth nad oeddent yn siarad Cymraeg. Dywedodd iddi gael trafferth gyda'r lleoliad oherwydd nad oedd yn siarad Saesneg yn hyderus pan oedd hi'n ifanc.

Dylid ailfuddsoddi arian o leoliadau mewn gwasanaethau a hyfforddiant. Rydym eisiau gwell gwasanaethau iechyd meddwl, bwyd da a gwely. Mae lleoliadau i blant ag anawsterau dysgu yn gwneud mwy o arian.

"A lot of young people are being let down by the system currently. A lot of young people, their local authority won't pay for specialist care for these young people when they desperately need it."

Elliott James

Nid yw pobl ifanc bob amser yn gwybod a yw lleoliad yn un er elw neu nid-er-elw. Mae plant mewn gofal eisiau i bobl ofalu amdanynt a'u trin fel eu plant eu hunain. Dydyn nhw ddim eisiau cael eu hysbysebu gyda phris.

"My social worker recently disclosed, for a standardised residential placement that hasn't got any high-tariff behaviours, the company that the child is with is being paid £5,000 a week. If £3 of profit was taken for every £10, that's £1,500 a week that's been taken off this young person, for the support."

Elliott James

Rydym yn cefnogi dileu elw ond mae gennym bryderon y bydd rhai cwmnïau yn rhoi'r gorau i ddarparu gofal ac yn gadael y maes. Nid yw gofal yn sefydlog ar hyn o bryd.

"I agree with the Bill—I so heartedly agree with it—but my biggest concern, if and when it does get stopped, if it does, is that all these companies are just going to end up packing up and just going elsewhere, because they no longer are able to profit off us, and that's going to cause a lot of problems for all the kids that are being looked after by all these different companies."

Rowan Gray

Nid ydym yn ymddiried mewn awdurdodau lleol yn hyn o beth. Rydym wedi cael ein siomi ers cyhyd. Os caiff y gyfraith ei phasio, dylai fod rheolau cadarn ynghylch yr hyn ddylai ddigwydd a dylai rhywun wirio bod hyn yn cael ei wneud. Os na fydd yn cael ei wneud, dylai canlyniadau fod i hynny.

"There are two areas that I think need a massive amount of improvement: training and accountability. Because, if my local authority had actually done what they'd said that they were going to do, I wouldn't be sat here; I would be currently in Bristol, living with my mother. But, because there was no accountability within my local authority, they went back on their word, which they'd given to my mother, and I ended up in long-term foster care."

Rowan Gray

Tystiolaeth gan randdeiliaid

Cyfyngiadau ar elw (Rhan 1, Pennod 1)

37. Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid a roddodd sylwadau ar ddarpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â chyfyngu ar wneud elw wrth ddarparu gofal i blant sy'n derbyn gofal yn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol. Roedd y rhain yn cynnwys rhai darparwyr preifat. Tynnodd yr holl randdeiliaid sylw at rwystrau o ran gweithredu'r Bil.

38. Roedd pryderon mawr ynghylch y canlyniadau anfwriadol i'r farchnad, yr amserlen ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu darpariaeth fewnol newydd a'r

amser a'r cymhlethdod i 'ddarparwr er elw' drosglwyddo i fodel 'nid-er-elw'. Ymdrinnir â'r rhain yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

39. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym fod y Bil yn cael ei gyflwyno ar gyfnod tyngedfennol i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru gan ddweud bod Cymru wedi bod yn gweithio tuag at ddiwygio gofal cymdeithasol plant yn radical, er mwyn sicrhau ein bod yn gwella canlyniadau ac yn gweld llai o blant yn mynd i ofal. Aeth ymlaen i ddweud:

"Eliminating profit has been a central plank of the reform agenda, and although we hold concerns around sufficiency, stability and ensuring adequate provision for children to be cared for close to home, we support the ambition to eliminate profit from the care of looked after children."¹⁰

40. Dywedodd Home for Good & Safe Families eu bod yn credu'n gryf, drwy sicrhau mai dim ond endidau nid-er-elw neu awdurdodau lleol sy'n gallu darparu llety preswyl, llety diogel, a gofal maeth, bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob gwasanaeth gofal yn blaenoriaethu llesiant plant dros elw ariannol.¹¹

41. Yn yr un modd, dywedodd ADSS Cymru a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan wrthym:

"We recognise and share the policy intent behind the removal of profit for the care of children looked after. We believe that the care of children who are in the care system should be driven by their best interests, needs and rights, rather than by financial motives or market forces. We agree that the profit motive can create perverse incentives and distortions in the provision and commissioning of care, leading to poor outcomes, high costs and reduced accountability."¹²

42. Dywedodd Barnardo's Cymru a Voices from Care Cymru fod plant a phobl ifanc wedi dweud wrthynt nad oeddent eisiau i gwmnïau preifat wneud elw yn sgil cael plant dan eu gofal. Yn ôl Helen Mary Jones o Voices o Care Cymru, roedd dau beth yr oedd pobl ifanc eisiau eu codi:

¹⁰ HSCWB4

¹¹ HSCWB16

¹² HSCWB30

“One is the principle, the idea of being sold off to the lowest bidder on a website, which is what happens to children (...) For us, there are issues here around the United Nations Convention on the Rights of the Child, and particularly the right of a child not to be economically exploited, and it certainly feels to young people that they are

also there’s the issue of the amount of money that comes out of the system. (...) companies are taking 25 per cent, 30 per cent profit. And as one of the young people worked out for us, that means that, for every £10 that the Welsh taxpayer is paying to look after a looked-after child, up to £3 of that is going straight into the pockets of shareholders. And we don’t believe, and our young people don’t believe, that that’s a very sound economic prospect for the Welsh Government.”¹³

43. Wrth gefnogi’r Bil, disgrifiodd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys ADSS Cymru a Voices from Care Cymru, ddileu elw o ofalu am blant sy’n derbyn gofal fel un darn o jig-so¹⁴. Dywedodd Sarah Crawley o Barnardo’s Cymru wrthym:

“I believe that the principles and the ambition of eliminating profit are absolutely the right thing to do, but it is only one small aspect of the care of a child.”¹⁵

44. Yn yr un modd, dywedodd Rachel Thomas o swyddfa Comisiynydd Plant Cymru:

“it’s important to see this Bill as a necessary step as part of that wider transformation of children’s social care, and so the ability to bring children and young people back closer to home so that they can maintain their links in the community, their links with their family and their Support networks.”¹⁶

45. Fodd bynnag, er gwaethaf y gefnogaeth hon, mewn egwyddor, mynegodd y rhan fwyaf o randdeiliaid bryderon mawr ynghylch ystod eang o faterion yn ymwneud â gweithredu’r Bil a’i effaith bosibl ar fywydau plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud yn benodol â digonolrwydd

¹³ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, paragraffau 69-70

¹⁴ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 103

¹⁵ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 9

¹⁶ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, paragraff 66

Ileoliadau nid-er-elw, trefniadau trosiannol ac amserlenni arfaethedig, a'r cyllid a fyddai'n cyd-fynd â'r polisi.

46. Yn ôl Llamau, er bod egwyddorion cyffredinol y Bil yn addawol ac yn hanfodol i sicrhau gwell gofal a chymorth i grwpiau agored i niwed, roeddent yn cydnabod effaith bosibl y Bil ar bobl ifanc sydd mewn darpariaeth er elw ar hyn o bryd, yn enwedig y rhai sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol ac yn dangos eu bod yn ailfuddsoddi eu helw.¹⁷

47. Er ei fod yn cefnogi egwyddorion a nodau allweddol y Bil a'r newid yn y cydbwysedd tuag at ddarpariaeth nid-er-elw, dywedodd y Rhwydwaith Maethu fod ganddo bryderon ynghylch manylion y prosesau trosiannol a'r amserlen, yn enwedig o ystyried bod nifer y plant mewn gofal yng Nghymru gyda'r uchaf erioed bron. Roedd yn pryderu y gallai'r Bil arwain at ostyngiad pellach yn nifer y gofalwyr maeth, a ddisgrifiwyd fel pryder o ystyried ei amcangyfrifon bod ar Gymru eisoes angen 400 yn fwy o ofalwyr maeth o fewn y flwyddyn nesaf.¹⁸

48. Wrth fynegi eu cefnogaeth i weledigaeth a nodau'r ddeddfwriaeth, tynnodd Plant yng Nghymru sylw at yr hyn a ddisgrifiwyd ganddynt fel:

"significant challenges, risks and considerations ahead if ministerial aspirations are to be fully realised. This includes, but is not limited to, the timescales currently being proposed in the Bill for transitional arrangements which many of our members believe need reconsidering, as well as the impact on sufficiency of provision, the current workforce and children directly. (...)"

49. Dylid ystyried bod dileu elw yn arwyddocaol, ond dim ond fel un rhan o raglen lawer ehangach o waith sydd ei angen i ad-drefnu gwasanaethau i blant, meddent. Mae yna heriau tra hysbys yn ymwneud â'r gweithlu, cyfyngiadau cyllidebol, galw cynyddol ac anghenion cymhleth yn y gymuned, y mae eu heffaith yn rhoi straen ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau'r trydydd sector, sy'n anghynladwy meddent.¹⁹

50. Yn eu barn nhw:

"if Ministers are seriously committed to radically reforming children's social care in Wales, other pieces of the jigsaw require

¹⁷ HSCWB15

¹⁸ HSCWB6

¹⁹ HSCWB18

urgent attention too, yet have not formed part of this Bill or any other legislation expected during this Senedd term.”²⁰

51. Roedd Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru (NYAS Cymru) hefyd yn gefnogol i'r egwyddor o ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal, gan ddweud ei fod yn parhau i arddel y farn na ddylai unrhyw blentyn neu berson ifanc fyth deimlo fel bod eu profiadau o ofal, neu eu bod nhw eu hunain, yn gyfle i sefydliadau wneud elw.²¹

52. Fodd bynnag, fel rhanddeiliaid eraill, roedd hefyd yn pryderu ynghylch sut y bydd y Bil yn cael ei gyflawni'n ymarferol, gan ddweud nad oedd yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn llawn bob canlyniad negyddol anfwriadol posibl y gallai Rhan 1 o'r Bil ei gael ar fywydau plant, ac nad oedd ychwaith yn credu bod mesurau priodol wedi'u rhoi ar waith i liniaru hynny. Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn pryderu bod cyflwyno'r Bil yn debygol o amharu ar sefydlogrwydd a bywydau beunyddiol nifer sylweddol o blant yng Nghymru.²²

53. Er na wnaeth y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) sylwadau ar y cwestiynau moesegol eang yn gysylltiedig â'r Bil, dywedodd:

“there is the risk that eliminating the profits of providers will lead to a series of significant, unintended consequences. These consequences include the handing back of contracts, the closure of services, market failure, workforce leaving the market during a time when there is a workforce crisis, loss of skills, disruption to placements, negative impacts on looked after children's outcomes, the investment required being more than estimated, and more.(...)”

the Welsh Government must ask if they are willing to take these risks in the short- and medium-term.”

54. Yn groes i'r gefnogaeth gan y mwyafrif i Bennod 1, dywedodd nifer fach o randdeiliaid nad oeddent yn cefnogi'r darpariaethau hyn yn y Bil, gan ddadlau bod y polisi'n cael ei ysgogi'n fwy gan ideoleg wleidyddol na thystiolaeth empirig²³,

²⁰ HSCWB18

²¹ HSCWB14

²² HSCWB14

²³ HSCWB7, HSCWB9

ac y byddai comisiynu gwasanaethau mewn ffordd fwy effeithiol yn ddewis gwell na'r dull sy'n cael ei fabwysiadu yn y Bil²⁴.

55. Dadleuodd darparwyr gwasanaethau plant preifat ac annibynnol yn gryf nad oedd 'elw' yn golygu gwasanaethau neu ganlyniadau o ansawdd gwael i blant a phobl ifanc. Dywedodd Harvey Gallagher o Gymdeithas Darparwyr Maethu Ledled y Wlad wrthym fod darparwyr annibynnol, fel ei rai ef, yn cynnig,

*"really high-quality (...) services for children with complex needs—more complex needs than the local authorities are able to provide for themselves—and they do it at a good value for money."*²⁵

56. Dywedodd Family Fostering Partners wrthym eu bod yn credu y gallai Llywodraeth Cymru benderfynu cynyddu'r ddarpariaeth nid-er-elw a chyfyngu ar ofal er elw mewn lluo o ffyrdd eraill, ac nad ydynt wedi gweld unrhyw gyfiawnhad dros fwrw ymlaen â'r Bil fel ar ei ffurf bresennol yn hytrach na dilyn llwybr arall tuag i gyflawni'r amcanion gwleidyddol o ddileu elw²⁶

57. Ceisiodd nifer o randdeiliaid²⁷ wahaniaethu rhwng 'elw' a 'gorelwa', gan ddweud nad oedd y cynigion yn y Bil i gyfyngu ar wneud elw yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng sefydliadau rhyngwladol mawr sy'n gwneud elw gormodol a busnesau bach sy'n cael eu rhedeg gan berchnogion sy'n ailfuddsoddi'r rhan fwyaf o'r elw. Awgrymodd rhai hefyd, gan gynnwys TACT a'r Rhwydwaith Maethu, fod cyfle wedi'i golli i ddiogelu busnesau bach a chanolig llai yng Nghymru.

58. Teimlai'r Children's Homes Association, er bod angen deddfwriaeth i fynd i'r afael ag arferion anfoesegol rhai o'r darparwyr gofal cymdeithasol plant mwyaf, roedd yn credu y gall Llywodraeth Cymru gyflawni ei hamcanion polisi heb y dull cyffredinol peryglus ac aflonyddgar o ddileu'r holl elw o ofal preswyl plant, gan gynnwys drwy edrych ar gomisiynu strategol effeithiol.²⁸

59. Aeth ymlaen i ddweud:

"It is our evidence-based view that the financial, social, and human costs of eliminating profit have been dangerously underestimated, and that the policy will not only worsen the

²⁴ HSCWB9, HSCWB13

²⁵ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 119

²⁶ HSCWB7

²⁷ Gan gynnwys The Children's Homes Association (HSCWB13) a Mark Carwardine (HSCWB9)

²⁸ HSCWB13

*sufficiency crisis in Wales, but directly impact the wellbeing and life chances of children and young people for whom the Welsh government has a duty of care. Further, it will create a barrier for local authorities to deliver their Statutory Duties.*²⁹

60. Dadleuodd y Children's Homes Association hefyd fod y polisi yn anghyson ac yn groes i'r argymhellion yn adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd sydd, meddai, yn argymhell dull gwell o gomisiynu gwasanaethau allanol i blant sy'n derbyn gofal.³⁰

61. Cwestiynodd First Affinity Fostering Care³¹, Amberleigh Care Limited³² a Chymdeithas Darparwyr Maethu Ledled y Wlad (NAFP) honiad Llywodraeth Cymru fod yr egwyddor y tu ôl i'r polisi yn seiliedig ar farn plant. Dywedodd NAFP wrthym:

*"the principle [of eliminating profit] is often stated as being based on the views of children. We believe that the evidence published to support this claim is very weak. Young people feel strongly about the quality of care they receive, not about the organisation providing that care."*³³

62. Dadleuodd NAFP nad yw gofal maeth a chartrefi plant yr un peth ac na fydd polisiâu cyffredinol yn mynd i'r afael â'r gwahanol faterion sy'n effeithio ar ofal maeth a chartrefi plant. Dywedodd na fydd yr egwyddor o ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yn mynd i'r afael â'r rhwystrau allweddol i wella gofal maeth i blant. Roedd hefyd yn dadlau y dylid canolbwyntio yn lle hynny ar drefniadau comisiynu gwell gan awdurdodau lleol yn ogystal â gwaith rhanbarthol agosach ac ysbryd newydd o gydweithio rhwng awdurdodau lleol ac asiantaethau maethu annibynnol.

63. Yn ogystal â hynny, beirniadodd y darparwyr preifat ac annibynnol yr hyn a ddisgrifiwyd ganddynt fel 'camwybodaeth' ynghylch lefel yr elw a wneir gan ddarparwyr. Dywedodd Dr Deborah Judge o Birribi wrthym:

"this figure of £910 per week per child was being thrown out there as the norm. We've worked out that our rate is £165 per

²⁹ HSCWB13

³⁰ HSCWB13

³¹ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 134

³² HSCWB3

³³ HSCWB28

week per child. (...) we worked through the pandemic (...) and that year, our profits were 11 per cent. Subsequent to that, our profits have been 3 per cent, then 3 per cent, and then, in this last financial year, probably 8 per cent or 9 per cent, and we employ 90 staff.”³⁴

64. Gwnaed pwyntiau tebyg gan Woodlands Ltd a'r Children's Homes Association, a ddywedodd:

“the majority of providers in Wales—if not, it's a small proportion—are not making anywhere near the levels of profit that are quoted in the big headline articles”³⁵

65. Yn ogystal, tynnodd y Children's Homes Association sylw at y costau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, gan ddweud:

“they've demonstrated that the cost per child per week in the independent sector is £3,811, whereas, in local authority provision, it is £5,265 per child per week on average. That's not including education and therapeutic costs as well, so that's a 38 per cent difference in cost base.”³⁶

66. Dywedodd rhai darparwyr preifat ac annibynnol³⁷ wrthym eu bod wedi dioddef agweddau gelyniaethus iawn yn ystod y cyfnod yn arwain at y Bil oherwydd iddynt gael eu rhoi yn yr un categori â darparwyr eraill, ni waeth beth oedd lefel y buddsoddiad neu faint yr elw.³⁸

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

67. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd gyfreithiol o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 i roi 'sylw dyledus' i hawliau plant ym mhob penderfyniad a wna. Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau'r Plentyn yw'r cyfrwng y mae wedi'i ddewis i gyflawni hyn.

68. Roedd Plant yng Nghymru a NYAS Cymru yn cwestiynu a oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth lawn i hawliau plant wrth baratoi'r Bil.

³⁴ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 141

³⁵ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 148

³⁶ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 146

³⁷ Gan gynnwys First Affinity Fostering Care, Woodlands Ltd, Birribi

³⁸ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 122

69. Dywedodd Plant yng Nghymru fod yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn darparu digon o fanylion a sicrwydd bod hawliau plant wedi'u hystyried yn llawn wrth ddrafftio'r Bil hwn a bod yr holl risgiau wedi'u lliniaru.³⁹

70. Gwnaeth NYAS Cymru bwyntiau tebyg, gan ddadlau bod risg y bydd hawliau plant yng Nghymru yn cael eu cyfaddawdu yn sgil cyflwyno Rhan 1 o'r Bil. Dywedodd ei fod yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant llawn a chynhwysfawr sy'n ystyried hyn o ddifrif. Gofynnodd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi asesiad cynhwysfawr fel blaenoriaeth i sicrhau bod ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i sut y gallai Rhan 1 o'r Bil gynnwys hawliau plant, a beth y gellir ei wneud i liniaru hyn.⁴⁰

Monitro a gwerthuso

71. O ran y gwerthusiad ffurfiol a'r adolygiad o Ran 1 o'r Bil (fel y cyfeirir ato ym mharagraffau 10.3-4 o'r Memorandwm Esboniadol), galwodd Plant yng Nghymru ar Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw i gyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar gynnydd a'u rhannu ag Aelodau'r Senedd. Roedd angen amserlenni ar gyfer y gwerthusiad ffurfiol arfaethedig hefyd, meddent.⁴¹

72. Ymdrinnir yn fanylach â'r materion y cyfeirir atynt uchod sy'n ymwneud â Rhan 1, Pennod 1 o'r Bil ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.

Rheoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol (Rhan 1, Pennod 2)

73. Cawsom ychydig bach o dystiolaeth ar y Bennod hon o'r Bil. Roedd y rhai a ymatebodd yn gefnogol i'r egwyddorion ar y cyfan, eto gyda rhai sylwadau neu gwestiynau am eu gweithrediad. Ymdrinnir â'r materion hyn yn fanylach ym Mhennod 5 o'r adroddiad hwn.

Taliadau uniongyrchol am ofal iechyd parhaus (Rhan 2)

74. Roedd cefnogaeth eang i egwyddorion cyffredinol Rhan 2 o'r Bil gan y rhai a roddodd sylwadau ar y cynigion ar gyfer taliadau uniongyrchol am ofal iechyd parhaus, gyda rhanddeiliaid yn dweud bod taliadau uniongyrchol yn cynnig dewis a rheolaeth i bobl dros eu gofal. Dywedodd Anabledd Cymru fod hwn yn fater y mae pobl anabl wedi bod yn ymgyrchu drosto ers blynyddoedd lawer, gan fod

³⁹ HSCWB18

⁴⁰ HSCWB14

⁴¹ HSCWB18

taliadau uniongyrchol yn caniatáu lefel o hyblygrwydd nad yw ar gael o dan systemau eraill.⁴²

75. Nododd Anabledd Cymru, Anabledd Dysgu Cymru, a Gofalwyr Cymru oll eu bod yn cefnogi'r cynnig, a dywedodd Anabledd Dysgu Cymru:

"People with a learning disability often feel that they don't have enough choice and control in their lives, so the option to have a direct payment we see as a positive."⁴³

76. Dywedodd Gofalwyr Cymru, er nad yw'r gofalwr di-dâl ei hun yn cael taliadau uniongyrchol drwy'r system gofal iechyd parhaus, eu bod yn dal i gredu bod y Bil yn hynod bwysig i ofalwyr di-dâl oherwydd bod y math o ofal iechyd cymunedol a lefel y cymorth a ddarperir i'w hanwyliaid yn cael effaith fawr ar lefel y gofal y mae'n rhaid i aelodau'r teulu a gofalwyr di-dâl ei ddarparu. Nodwyd hefyd y bydd llawer yn ymwneud â'r broses o wneud cais am daliadau uniongyrchol a'u gweinyddu a'u rheoli gyda, neu ar ran, yr anwyliaid y maent yn gofalu amdanynt.⁴⁴

77. Yn yr un modd â Rhan 1 o'r Bil, fodd bynnag, roedd nifer o bryderon ynghylch gweithredu'r cynigion, yn enwedig mewn perthynas ag effaith y Bil ar y gweithlu gofal cymdeithasol, trefniadau llywodraethu a dirprwyo, ac argaeledd Cynorthwywyr Personol a'u cyfraddau cyflog. Roedd pryderon hefyd ynghylch y baich posibl y gallai taliadau uniongyrchol ei roi ar unigolion, a galwadau am wybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da i unigolion sy'n dymuno manteisio arnynt.

78. Roedd Fforwm Cymru Gyfan Rheini a Gofalwyr Pobl ag Anableddau yn croesawu cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP, ond aeth ymlaen i ddweud:

"it is important to acknowledge and address some of the issues we know exist within the delivery of them [direct payments] within social care in order for this to work seamlessly. If we're to achieve equality of status for social care alongside health, we need to enable and enforce a culture where they can truly be equal partners in care delivery."⁴⁵

⁴² HSCWB37

⁴³ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 106

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 107

⁴⁵ HSCWB12

79. Yn yr un modd, er bod CLILC⁴⁶ ac ADSS Cymru ill dau yn cefnogi cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP, fe wnaethant gyfeirio hefyd at eu gweithredu, gan ddweud

"It is vital that this change comes with a significant improvement in how CHC works in practice. CHC is not currently applied consistently across Wales, with variation of interpretation between health boards."⁴⁷

80. Roedd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Anabledd Dysgu Cymru a chynrychiolwyr llywodraeth leol, yn glir nad taliadau uniongyrchol o reidrwydd fyddai'r opsiwn cywir i bawb, yn bennaf oherwydd y baich gweinyddol ychwanegol a ddaw yn sgil taliadau uniongyrchol. Roeddent yn teimlo'n gryf na ddylai pobl gael eu 'gwthio' i dderbyn taliadau uniongyrchol oni bai mai dyma'r opsiwn cywir iddyn nhw, ac ni ddylent gael eu hystyried fel yr unig opsiwn i gael unrhyw fath o lais a rheolaeth.⁴⁸

81. Tynnodd Jake Smith o Gofalwyr Cymru sylw at yr hyn a ddisgrifiodd fel yr amharodrwydd ac, mewn rhai achosion, yr ofn a allai fod gan bobl yn sgil newid eu pecyn gofal ac o bosibl manteisio ar ofal iechyd parhaus, hyd yn oed gyda thaliadau uniongyrchol. Dywedodd fod y gwerthusiad annibynnol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi canfod teimlad cyffredinol o rwystredigaeth ymhlith defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ynghylch y ffaith eu bod yn gorfod brwydro yn erbyn y system ar gyfer yr ychydig gymorth y maent yn ei gael. Roedd hyn, meddai, yn creu amharodrwydd i newid i becyn gofal gwahanol, a allai olygu bod pobl yn llai tebygol o dderbyn y cynnig o symud i GIP, hyd yn oed gyda thaliadau uniongyrchol.⁴⁹

82. Dywedodd pobl anabl a rhanddeiliaid wrthym am yr anawsterau a wynebwr gan rai sy'n cael taliadau uniongyrchol o dan y system bresennol. Yn benodol, clywsom am ddiffyg hyblygrwydd ac ansicrwydd ynghylch yr hyn y gellir gwario'r arian arno. Dywedwyd fod hyn i'w briodoli'n rhannol i amrywiadau yn ansawdd y cynlluniau gofal a chymorth, a allai, os nad ydynt yn ddigon clir a chynhwysfawr, arwain at unigolyn yn cael gwybod na all ddefnyddio'r arian yn y ffyrdd y mae'n ei ddymuno. Yn ogystal â hynny, clywsom fod rhai pobl yn teimlo bod diffyg

⁴⁶ HSCWB31

⁴⁷ HSCWB30

⁴⁸ Andrew Morgan, CLILC (Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 390) a Samantha Williams, Anabledd Dysgu Cymru (Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 118)

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 140

cydgynhyrchu wrth ddatblygu cynlluniau gofal sydd hefyd yn cyfrannu at y materion hyn. O ran y pwynt hwn, dywedodd Nathan Lee Davies wrthym:

“I’ve had a very negative experience with direct payments. The local authority have recently clawed back £33,000 of my direct payments that I was saving for a proposed short break. And I find it very difficult to spend my money in the way I want.”⁵⁰

83. Aeth ymlaen i ddweud bod y ddeddfwriaeth yn ymddangos fel cam i’r cyfeiriad cywir ond nad yw’n credu bod y Bil yn mynd i’r afael â’r broblem gyfan, sef y methiant i gymhwyso 5 egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 ar lawr gwlad.⁵¹

84. Roedd y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor yn croesawu’r cam i gyflwyno’r taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP, ond er mwyn i’r newid hwn fod yn effeithiol, meddai, rhaid iddo ddod law yn llaw â gwasanaethau cymorth a chyfeirio digonol, cynllun clir i fynd i’r afael â’r problemau o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol ac adolygiad o lefel y taliadau uniongyrchol.⁵²

85. Ymdrinnir yn fanylach â’r materion y cyfeirir atynt uchod ym Mhennod 6 o’r adroddiad hwn.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

Cyfyngiadau ar elw (Rhan 1, Pennod 1)

86. Noda Memorandwm Esboniadol y Bil fod Llywodraeth Cymru, drwy’r Rhaglen Lywodraethu wedi’i Diweddarau, yn ceisio gwella gofal cymdeithasol, a’r rhyngwyneb iechyd a gofal cymdeithasol, yng Nghymru ymhellach.

87. Mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc, dywed y Memorandwm Esboniadol:

“Mae’r ymrwymiad i ‘roi fframwaith ar waith i ddileu elw o ofal plant sy’n derbyn gofal’ yn rhan glir o’n gweledigaeth ehangach ar gyfer newid ar draws y system gyfan

Y nod yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus sy’n cael ei fuddsoddi mewn gofal i blant sy’n derbyn gofal – gan ddechrau

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 5

⁵¹ HSCWB33

⁵² HSCWB21

â gwasanaethau cartrefi gofal i blant a gwasanaethau maethu – yn creu elw i unigolion neu endidau corfforaethol, ond yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant, er mwyn darparu gwell profiadau a chanlyniadau i bobl ifanc...”

88. Disgrifiodd y Gweinidog y Bil fel elfen hollbwysig i weledigaeth ehangach Llywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau plant. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mynd ar drywydd y Bil oherwydd ei bod yn bryderus nad yw'r farchnad yn gweithredu'n effeithiol ac nad yw'n diwallu anghenion plant. Aeth ymlaen i ddweud:

“We don't believe that profits should continue to be made from caring for children whose circumstances require them to be in the care of the local authority, and instead what we're going to be doing is transitioning to a not-for-profit model for care for looked-after children to ensure that public money invested in accommodation and fostering care for care-experienced children is not extracted out as profit, but is reinvested back into the system to support better outcomes, sustainable services and the professional development of staff.”⁵³

89. Pwysleisiodd na ddylid ystyried y Bil ar ei ben ei hun, ond yn hytrach fel rhan o raglen drawsnewid ehangach Llywodraeth Cymru yn y maes polisi hwn.⁵⁴ Dywedodd wrthym:

“part of what we are trying to do with this legislation is to ensure that we have accommodation, where that is needed and where that is necessary, that helps to keep a child closer to their family connections, their friends, their education systems, their social groupings, their community links, all of that.

Ni allwn barhau â sefyllfa sy'n rhwygo'r plant mwyaf agored i niwed allan o'r cymunedau hynny dim ond i'w rhoi mewn gofal preswyl sy'n rhatach i'w redeg yn rhywle arall yn y wlad.”⁵⁵

90. Yn ei barn hi, nid yw gwneud dim yn y maes hwn yn opsiwn i'r llywodraeth, nid yn unig oherwydd y farn a fynegwyd gan blant a phobl ifanc a ddywedodd

⁵³ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 15

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 15

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 58

nad ydynt yn dymuno cael eu trin fel nwyddau, ond oherwydd y costau anghynaliadwy ar gyfer awdurdodau lleol o ganlyniad i'r system bresennol:

"In 2016-17, I think the cost to local authorities of looked-after children was around £65 million. We've seen that increase in less than 10 years to nearly £200 million; that's a 300 per cent increase.

*Somewhere in the region of 20 per cent to 25 per cent of that is being extracted as private profit (...) if we continue on this trajectory, we are going to see within another 10 years potential costs for looked-after children approaching £1 billion."*⁵⁶

91. Dywedodd y Gweinidog fod y Bil yn ymwneud ag anfon neges glir iawn bod hyn yn rhywbeth yr ydym yn ei gymryd o ddifrif ac nad yw'n mynd i fod yn broses wirfoddol.⁵⁷

92. Gan ychwanegu at hyn, dywedodd Anthony Jordan, Pennaeth Rhaglen a Gweithredu Deddfwriaethol yng Nghyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru, na fyddai modd defnyddio pwerau cyfarwyddo presennol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â swyddogaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol i'w cyfarwyddo i arfer eu swyddogaethau comisiynu, a dyna pam yr ystyriwyd bod deddfwriaeth sylfaenol yn angenrheidiol.⁵⁸

Rheoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol (Rhan 1, Pennod 2)

93. Mewn perthynas â rheoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol, bydd y Bil yn gwneud nifer o welliannau i helpu i gefnogi'r gweithlu i weithredu'n fwy effeithiol.

94. Dywed y Memorandwm Esboniadol mai nod y diwygiadau arfaethedig yw mynd i'r afael â materion ac anghysondebau penodol yn Neddfau 2014 a 2016 i gryfhau ymarferoldeb y fframwaith rheoleiddio a chynorthwyo Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflawni eu cyfrifoldebau rheoleiddio.

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 53

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 70

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, paragraff 13

Taliadau uniongyrchol am ofal iechyd parhaus (Rhan 2)

95. Noda'r Memorandwm Esboniadol fod y galw am newid polisi yn y maes hwn wedi bod yn cynyddu "i fynd i'r afael â phryderon am annhegwch a diffyg llais a rheolaeth a wynebir gan bobl anabl a phobl ddifrifol wael".

96. Dywed y dylai'r newidiadau sydd i'w gweithredu o ganlyniad i'r Bil o bosibl arwain at fwy o unigolion yn cytuno i gael asesiadau Gofal Iechyd Parhaus (GIP) y GIG, heb ofni colli'r hawl i daliadau uniongyrchol, ac felly bod eu hanghenion iechyd cymhleth yn cael eu rheoli'n well o ganlyniad i'r ffaith bod eu pecyn llawn o ofal iechyd a gofal yn cael ei ariannu gan y GIG.

97. Wrth gyflwyno Rhan 2 o'r Bil, dywedodd y Gweinidog wrthym mai'r bwriad oedd rhoi llawer mwy o reolaeth a llais i bobl anabl a'r rhai ag anghenion iechyd hirdymor o ran sut a chan bwy y mae eu gofal yn cael ei ddarparu.⁵⁹

Ein barn ni

98. Wrth inni ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, rydym wedi edrych yn fanwl ar y dystiolaeth a gawsom gan randdeiliaid a'r Gweinidog, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Yn bwysig ddigon, rydym wedi clywed gan bobl ifanc mewn gofal. Rydym yn cydnabod y bydd y newid hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar y grŵp hwn o randdeiliaid.

99. Yn yr adran hon, rydym yn nodi ein meddyliau lefel uchel ar egwyddorion cyffredinol y Bil, ac yn nodi ein safbwynt mewn egwyddor ynghylch pob un o'r rhain. Mae gweddill y penodau yn yr adroddiad hwn yn ymdrin â phryderon penodol rhanddeiliaid am bob un o brif Rannau'r Bil a'n barn fanwl ni arnynt.

100. Yn gyntaf, mewn perthynas â Rhan 1, Pennod 1 o'r Bil; cyfyngiadau ar elw. Fel Pwyllgor, rydym oll yn gytûn y dylai'r holl ofal a ddarperir i blant sy'n derbyn gofal fod yn seiliedig ar sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r plant hynny, mewn amgylchedd cefnogol ac anogol sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Mae'r mwyafrif ohonom yn credu mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw cyfyngu ar elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal.

101. Clywsom dystiolaeth bwerus iawn gan bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a ddywedodd wrthym nad oeddent am gael eu trin fel nwyddau. Roeddent yn dadlau'n gryf o blaid yr egwyddor y dylai arian sy'n cael ei wario ar ofal plant

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 16

sy'n derbyn gofal fod o fudd uniongyrchol i'r plant hynny, ac na ddylid ei dynnu allan ar ffurf elw preifat.

102. Rydym yn cydnabod barn y rhai nad ydynt yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil hwn a'r amser y maent wedi'i dreulio yn ein helpu gyda'n hystyriaethau. Rydym hefyd wedi clywed pryderon gwirioneddol am weithrediad y Bil, ac wedi myfyrio ar y safbwyntiau hyn yn fanwl yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

103. Fel Pwyllgor, llesiant plant sydd yng ngofal awdurdodau lleol Cymru a chael y canlyniadau gorau posibl iddynt o'r swm sylweddol o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario ar leoliadau ddylai fod yn flaenoriaeth bennaf inni. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a glywsom, mae'r sefyllfa bresennol yn cyflwyno heriau o ran cynaliadwyedd. Yn ddiethriad, mae elusennau rheng flaen sy'n cefnogi plant mewn gofal yn cefnogi'r Bil hwn. Mae hefyd yn amlwg i ni bod plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal eu hunain yn cefnogi dileu elw o'u gofal. Am y rhesymau hyn, mae'r mwyafrif ohonom yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Rhan hon o'r Bil.

104. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod na ddylai'r Bil gael ei ystyried ar ei ben ei hun, ond yn hytrach fel un rhan o 'agenda drawsnewid' Llywodraeth Cymru yn y maes polisi hwn.

105. Rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â rhoi'r polisi hwn ar waith, ac rydym yn gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru yn yr adroddiad hwn sy'n ceisio mynd i'r afael â'r rhain.

106. Yn ail, mewn perthynas â Rhan 1, Pennod 2; rheoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Nid oedd hwn yn faes y cawsom lawer o dystiolaeth arno, ac roedd y rhai a gyflwynodd sylwadau yn fodlon ar y cyfan ag egwyddor y cynigion. Yn hynny o beth, rydym yn fodlon, mewn egwyddor, â'r cynigion yn y Bennod hon.

107. Yn olaf, mewn perthynas â Rhan 2; taliadau uniongyrchol am ofal iechyd parhaus Rydym yn cefnogi'r egwyddor o sicrhau bod taliadau uniongyrchol ar gael i'r unigolion hynny sy'n derbyn gofal iechyd parhaus. Rydym yn cydnabod efallai nad taliadau uniongyrchol o reidrwydd yw'r opsiwn gorau i bob unigolyn, ac na fydd unrhyw rwymedigaeth i'w defnyddio. Fodd bynnag, fel y clywsom yn y dystiolaeth, i'r rhai sy'n ystyried eu bod yn addas, gallant ddarparu elfen ychwanegol bwysig o ddewis a rheolaeth i'r unigolyn hwnnw o ran ei ofal ei hun.

108. Unwaith eto, mae nifer o heriau gweithredu sylweddol yn gysylltiedig â'r polisi hwn. Rydym wedi ceisio adlewyrchu'r dystiolaeth a glywsom ar yr heriau hyn yn yr adroddiad hwn, ac rydym wedi gwneud nifer o argymhellion i'r Gweinidog.

Argymhelliad 1. Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru).

4. Rhan 1: Gofal Cymdeithasol, Pennod 1 – darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant: cyfyngiadau ar elw

Trosolwg

109. Mae dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal⁶⁰ yn un o'r ymrwymïadau yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru⁶¹. Mae Rhan 1 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau o sylwedd mewn perthynas â'r canlynol:

- **Cyfyngu ar wneud elw** wrth ddarparu gwasanaethau cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu (y cyfeirir atynt fel "gwasanaethau plant o dan gyfyngiad"). (adrannau 2-9)
- **Swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â llety i blant sy'n derbyn gofal:** dyletswyddau i sicrhau llety digonol; dyletswydd i baratoi a chyhoeddi cynllun digonolrwydd blynyddol; ceisiadau i Weinidogion Cymru i gymeradwyo 'lleoliad atodol' pan nad oes lleoliad arall ar gael neu pan fo'r awdurdod lleol o'r farn na fyddai unrhyw un o'r lleoliadau "nid-er-elw" sydd ar gael yn gyson â llesiant y plentyn (adrannau 10-13)

Tystiolaeth gan randdeiliaid

Rhaid i ddarparwyr fod yn endidau 'nid-er-elw'

Modelau busnes a ganiateir

110. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaethau plant cyfyngedig sydd wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru fod yn endid "nid-er-elw", a ddiffinnir fel naill ai:

- cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau;

⁶⁰ **Terminoleg:** Er bod y term 'plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal' bellach yn cael ei ddefnyddio'n eang, defnyddir 'plant sy'n derbyn gofal' mewn deddfwriaeth. Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at 'blant sy'n derbyn gofal'. Mae gan y termau hyn ystyr gyfreithiol ac maent yn cyfeirio at blant o dan 18 oed sy'n 'derbyn gofal' gan awdurdodau lleol.

⁶¹ **Rhaglen Lywodraethu**, Llywodraeth Cymru

- sefydliad elusennol corfforedig;
- cymdeithas gofrestredig elusennol; neu
- cwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau.

111. Noda'r Memorandwm Esboniadol fod y farchnad yng Nghymru ar hyn o bryd yn cynnwys “ystod eang o fusnesau sy'n wahanol o ran maint, cwmpas ac amcanion, gyda modelau masnachol gwahanol iawn”, gan gynnwys:

- **Busnesau Bach a Chanolig eu Maint** - “yn nodweddiadol, unigolion sydd â phrofiad o ofal cymdeithasol plant sy'n berchen ar y rhain ac yn eu gweithredu” ac mae'r rhai sy'n berchen arnynt “bron bob amser wedi'u lleoli yng Nghymru”.
- **Cwmnïau mwy**, gan gynnwys endidau sy'n rhedeg nifer o wasanaethau o dan berchnogaeth cwmnïau cyfyngedig cyhoeddus a'r rhai a berchnogir drwy ecwiti preifat. Yn aml, mae gan y cwmnïau mwy “wasanaethau ar y ddwy ochr i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.” Mae'r rhain yn “darparu cyfran sylweddol o farchnad maes gofal cymdeithasol plant yng Nghymru ond maent yn gweithredu ar draws ystod ddaearyddol a sectorau diwydiannol eang”.

112. Roedd nifer o randdeiliaid yn cwestiynu'r modelau nid-er-elw y darperir ar eu cyfer yn y Bil, gan awgrymu y gellid ymchwilio i fodelau amgen a allai ddatrys y broblem gorelwa heb fabwysiadu dull cyffredinol o geisio dileu elw.⁶²

113. Dywedodd Cymdeithas Darparwyr Maethu Ledled y Wlad wrthym nad oedd y modelau a gynigiwyd yn ddigonol i alluogi asiantaethau maethu annibynnol i drosglwyddo'n hawdd i fod yn sefydliadau nid-er-elw. Yn eu barn nhw:

“Additional simpler and less costly structures, such as a not-for-profit company limited by guarantee (as with NAFF), would better support an efficient transition. There are also for-profit structures, such as employee owned trusts, widely accepted as ‘ethical’, that have not been included where the blunt definition

⁶² HSCWB7, HSCWB13, HSCWB28

of 'profit' is the only criteria. It is also unclear why it was even necessary to list acceptable models."⁶³

114. Galwodd nifer o sefydliadau eraill, gan gynnwys Cwmpas, Family Fostering Partners a'r Children's Homes Association, hefyd am gynnwys model sy'n eiddo i gyflogeion fel un o'r modelau yn y Bil. O ran y pwynt hwn, dywedodd Cwmpas:

"Whilst employee-owned businesses can be profitable, and are therefore currently outside of the scope of the legislation, it is a democratic ownership model that can be established on the basis of profit for purpose."

115. Dywedodd y Children's Homes Association wrthym ei bod yn cynrychioli 22 o aelodau ac ychydig dros 400 o welyau yng Nghymru, ac nad oes yr un o'i haelodau'n fodlon trosglwyddo i fodel nid-er-elw ar hyn o bryd. Aeth ymlaen i ddweud:

*"(...) that is not to say they would not consider it if the models that were proposed—if there were alternatives, such as, for example, employee-owned trusts, (...) and, for example, if CIC's got maybe a degree of share capital as an alternative. So, if the models were workable, that would likely change, but, at the moment, from our membership in residential, there is nobody at the moment willing to transition, with the lack of information that is out there."*⁶⁴

116. Yn ôl Family Fostering Partners, nid oedd rheswm dilys pam na ellir cyflawni amcanion y manifesto drwy ymgorffori modelau nid-er-elw newydd megis Mentrau Cymdeithasol, ymddiriedolaethau sy'n eiddo i weithwyr neu gwmnïau cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau.⁶⁵

117. Dywedodd Sally Jenkins, ADSS Cymru a Chadeirydd Bwrdd Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant, wrthym y byddai ADSS Cymru yn awyddus iawn i weld rhagor o ymchwil yn cael ei wneud i'r pedwar model a gynigir yn y Bil, gan ddweud:

"Local authorities have a duty to promote social enterprise co-operatives and what we would like to see is some join-up"

⁶³ HSCWB28

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 186

⁶⁵ HSCWB6

between the models that are agreed within the Bill and what we're able to do."

118. Rhan o'r rheswm am hyn, meddai, oedd:

*"that we fear an unintended consequence (...) of small, local businesses that provide good-quality, local care, employing local people are at risk of going out of business, whereas the very big hedge-fund, private equity companies, who leave us most with distaste and alarm in this arena, will be able to continue to deliver, but what they will do is they will place a management charge and a recharge to us."*⁶⁶

119. Dywedodd fod hyn yn rhywbeth a oedd yn dechrau cael ei weld yn barod, lle ceir trefniadau cyfreithiol cymhleth o ddarpariaeth hyd braich o Loegr i Gymru, lle ceir darpariaeth nid-er-elw yng Nghymru ond cwmni hyd braich yn Lloegr.⁶⁷

120. Yn yr un modd, cyfeiriodd CLILC at ei "bryderon sylweddol" ynghylch nifer y darparwyr nad ydynt efallai am newid model eu darpariaeth, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar argaeledd lleoliadau yn y dyfodol. Dywedodd:

*"bydd angen ystyried ymhellach a yw'r diffiniadau hyn [o endid nid-er-elw] yn darparu digon o gwmpas i ddarparwyr allu gweithredu fel endid nid-er-elw."*⁶⁸

121. Yn gysylltiedig â hyn, cyfeiriodd nifer o randdeiliaid eraill, gan gynnwys TACT Cymru a Llamau, hefyd at y potensial ar gyfer bylchau yn y modelau a gynigir yn y Bil, a'r angen i Lywodraeth Cymru sicrhau nad oes modd osgoi'r rheolau.

122. Dywedodd Mike Anthony o TACT Cymru fod gan ei sefydliad bryderon ynghylch y model cwmni buddiant cymunedol a gynigir yn y Bil. Gan gyfeirio at brofiadau TACT yn yr Alban, dywedodd:

"That is something that concerns us, just in terms of being able to still have shareholders make a profit, but, on the surface, appearing to be not-for-profit and we are concerned that that

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 279

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 279

⁶⁸ HSCWB31

*still means that money is coming out of Wales, if you've got companies turning to that structure.*⁶⁹

123. Yn yr un modd, tynnodd Home for Good & Safe Families sylw at y potensial i ddarparwyr nid-er-elw geisio osgoi'r cyfyngiadau o dan y Bil drwy gydweithio â phartneriaid ac awdurdodau lleol yn Lloegr. Roeddent yn dadlau y byddai angen i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag adrannau perthnasol o Lywodraeth y DU a chyhoeddi canllawiau clir i awdurdodau lleol Cymru a Lloegr.⁷⁰

Cymorth i ddarparwyr i drosglwyddo i'r model nid-er-elw

124. Clywsom gan nifer o randdeiliaid fod angen mwy o ganllawiau a chymorth er mwyn i sefydliadau allu trosglwyddo i fodel nid-er-elw. Dywedodd Mike Anthony o TACT Cymru wrthym:

“we should encourage [SMEs] to move over to be charitable organisations, but it's felt like there hasn't been the level of support there. I know one organisation that told us in one of the meetings that it had taken them two years to get ready to become a charity, and that had put off a lot of people along the way.”⁷¹

125. Gwnaeth Barnardo's Cymru, Cymdeithas y Plant a Gweithredu dros Blant i gyd bwyntiau tebyg, a nododd Gweithredu dros Blant fod gwahanol awdurdodau lleol wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o ymgysylltu â darparwyr a oedd wedi bod braidd yn drwsgl. Dywedodd fod angen trosolwg o'r ffordd ymlaen er mwyn osgoi hyn yn y dyfodol.⁷²

126. Dywedodd Cymdeithas y Plant wrthym fod diffyg manylion ynglŷn â sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi darparwyr sy'n dymuno trosglwyddo i'r model nid-er-elw. Aeth ymlaen i ddweud:

“Changing from a ‘for-profit’ to a ‘not-for-profit’ provider will require providers to undergo structural change, which is a process that can be time-consuming. Not all providers who wish to transition will have the expertise to make these structural changes, and not all providers who wish to transition

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 28

⁷⁰ HSCWB16

⁷¹ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 27

⁷² Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 73

will be able to transition at the same pace and within the proposed timeframe.”

127. Amlygodd The Children’s Homes Association hefyd y broses y bydd yn rhaid i ddarparwyr fynd drwyddi er mwyn trosglwyddo i fodel nid-er-elw, gan ddweud bod y gair ‘trosglwyddo’ hefyd yn dipyn o sgwarnog. Dywedodd na all darparwyr drosglwyddo mewn gwirionedd; byddai’n rhaid iddynt gau eu busnes presennol ac agor busnes arall fel endid cyfreithiol ar wahân.⁷³

128. Dywedodd Colin Tucker o First Affinity Fostering Service fod y gwaith a’r costau sy’n gysylltiedig â throsglwyddo i fodel busnes newydd yn sylweddol ond nad oedd unrhyw gymorth yn cael ei gynnis ar gyfer hynny.⁷⁴

129. Gan gyfeirio at y cyfnod trosiannol ar ôl mis Ebrill 2027, tynnodd The Children’s Homes Association sylw at ddarpariaethau yn y Bil sy’n caniatáu i ddarparwyr preifat presennol barhau i fod yn gofrestrdig yn ddarostyngedig i amodau a osodir gan reoliadau, gan ddweud heb wybod y manylion am yr amodau hyn, na all darparwyr wneud penderfyniadau busnes cadarn neu ddeall sut y gall yr amodau hyn effeithio ar eu busnes.⁷⁵

Costau ac arbedion posibl

130. Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif mai’r gost i awdurdodau lleol am weithredu’r polisi i ddileu elw o ofal plant sy’n derbyn gofal yw £185.7 miliwn - £245.5 miliwn.

131. O’r swm hwnnw, mae rhwng £107.1 miliwn a £142.8 miliwn yn gost gyfalaf i brynu ac adnewyddu eiddo i ddisodli’r capasiti y disgwylir ei golli pan fydd darparwyr er elw yn gadael y farchnad yng Nghymru. Dywed y “disgwylir i’r gost hon i awdurdodau lleol gael ei gwrthbwyso, o leiaf yn rhannol, gan ostyngiad mewn costau alldro”.

132. Mae’r Memorandwm Esboniadol hefyd yn amlinellu manteision y polisi, sy’n cynnwys:

- Costau alldro is i awdurdodau lleol ar gyfer gofal plant yn sgil ‘dileu elw’ (o £184.0 miliwn i £253.9 miliwn).

⁷³ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 164

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 177

⁷⁵ HSCWB13

- Gwerth gweddilliol cartrefi gofal preswyl i blant ar ddiwedd y cyfnod arfarnu (o £64.3 miliwn i £85.7 miliwn).

133. Dywed y Memorandwm Esboniadol fod y cynnydd mewn gwariant cenedlaethol ar leoliadau yn uwch o ran cyfran na'r cynnydd yn y niferoedd. Er bod nifer y plant mewn lleoliadau preswyl wedi cynyddu o 355 i 590 (neu 66%) ers 2016-17, mae'r gwariant wedi treblu (o £65.4 miliwn yn 2016-17 i £198.3 miliwn yn 2022-23). Dangosodd data cyfatebol ar gyfer gofal maeth fod nifer y plant mewn gofal maeth wedi cynyddu 11% tra bod gwariant wedi cynyddu 23% (o £116.8 miliwn yn 2016-17 i £143.8 miliwn yn 2022-23).⁷⁶

134. Cefnogir yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan amcangyfrifon o gostau a luniwyd gan ADSS Cymru, ar gais Llywodraeth Cymru.⁷⁷

135. Mae CLILC ac ADSS Cymru ill dau wedi bod yn glir ynghylch y pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol o ganlyniad i gostau cynyddol gofalu am blant sy'n derbyn gofal:

“yn ystod 2023-24 yn unig, wynebodd cynghorau bwysau ychwanegol yn ystod y flwyddyn o £219 miliwn. Gellir priodoli 50 y cant o hyn i bwysau ar y gwasanaethau cymdeithasol, ac mae'n ychwanegu at £93 miliwn o orwariant gan y gwasanaethau cymdeithasol yn 2022-23. Yn 2024-25 mae cyllidebau gofal cymdeithasol yn wynebu pwysau amcangyfrifedig o £261 miliwn. Yn 2025-26 bydd hyn yn £187 miliwn, a £197 miliwn yn 2026-27.

Cyda'i gilydd, ledled yr holl wasanaethau, mae'r pwysau sy'n cronni yn y system ar draws llywodraeth leol, a'r bwlch yn y gyllideb sy'n deillio o hynny, yn golygu bod y rhagolygon yn hynod o lwm a bydd y dewisiadau ar gyfer llawer o wasanaethau lleol yn annymunol.”⁷⁸

136. Dywedodd CLILC, “er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y disgwylir i'r gost hon i Gynghorau gael ei gwrthbwysu'n rhannol o leiaf gan ostyngiad yn y

⁷⁶ Memorandwm Esboniadol, tudalen 59

⁷⁷ [Cael gwared ar Elw wrth Ofalu am Blant sy'n Derbyn Gofal - Cyfraniad i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#), ADSS Cymru, Mawrth 2024

⁷⁸ HSCWB31

costau terfynol, cyfrifir hyn dros gyfnod o 10 mlynedd. Dengys profiad mai osgoi costau fydd hyn yn hytrach nag arbedion ariannol”.⁷⁹

137. Aeth ymlaen i ddweud:

“Mae hefyd yn bwysig nodi bod adroddiad Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, sy’n gysylltiedig â’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac sy’n ystyried rhai o’r goblygiadau cost, yn dangos yr anghytunir ynglŷn â rhai o’r arbedion gweithredol a nodwyd gyda symud i fodel awdurdod lleol o fodel er-elw.

Yn ogystal, canfu adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, y cyfeirir ato drwy’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd, nad yw’r gost i awdurdodau lleol o ddarparu eu lleoliadau cartrefi plant eu hunain yn is na chost caffael lleoliadau gan ddarparwyr preifat, er gwaethaf lefelau amlwg o elw.”⁸⁰

138. Roedd CLILC yn glir y byddai’r polisi ‘dileu elw’ yn gofyn am “[f]uddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar amser pan fydd adnoddau’n cael eu hymestyn fwy nag erioed”. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i fod “yn glir, cyn gynted â phosibl ynglŷn â pha gyllid a ddarperir a phryd y bydd ar gael er mwyn gallu cynllunio.”⁸¹

139. Yn yr un modd, cyfeiriodd ADSS Cymru at y buddsoddiad a’r gefnogaeth sylweddol y byddai eu hangen gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i’r ffaith bod y cyfrifoldeb a’r atebolrwydd am ddatblygu a darparu gofal i blant sy’n derbyn gofal yn symud yn bennaf i ddwylo awdurdodau lleol, a fydd yn wynebu cynnydd o ran y pwysau a’r disgwyliadau i sicrhau darpariaeth ddigonol a chynaliadwy.⁸²

140. Gwnaeth nifer o randdeiliaid eraill sylwadau hefyd ar oblygiadau ariannol y Bil, a’r dadansoddiad o’r costau a’r manteision a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

141. Dywedodd y Children’s Homes Association fod Llywodraeth Cymru wedi camddyfynnu’n sylweddol adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ei thystiolaeth, gan ddadlau nad oedd yr Awdurdod wedi

⁷⁹ HSCWB31

⁸⁰ HSCWB31

⁸¹ HSCWB31

⁸² HSCWB30

canfod unrhyw broblemau o ran ansawdd a oedd yn benodol gysylltiedig â darpariaeth er elw, gan nodi nad oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol mewn ansawdd rhwng gwasanaethau awdurdodau lleol a gwasanaethau er elw.⁸³ Tynnodd y gymdeithas sylw hefyd at gostau allweddol eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn asesiad Llywodraeth Cymru neu sydd wedi'u tanamcangyfrif, gan gynnwys costau'r gweithlu a hyfforddiant, costau trosiannol i ddarparwyr ac iawndal sy'n daladwy i ddarparwyr sy'n gadael y farchnad.⁸⁴

142. Dywedodd y Children's Homes Association hefyd y byddai trosglwyddo i fodel busnes newydd yn dargyfeirio adnoddau ac yn rhoi pwysau newydd ar fusnesau, gan ddweud y byddai angen ariannu unrhyw broses o newid i endid cyfreithiol newydd ac y gallai arwain at ddyled i'r cwmni hwnnw.

143. Gwnaeth y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) sylwadau ar y cynnydd mewn gwariant ar ofal preswyl a dywed:

*"Gross expenditure by Welsh local authorities on children's residential care has increased dramatically in recent years, rising from £85 million in 2017/18 to £210 million in 2022/23. This represents an increase of 146%. This is clearly an unsustainable position and demands action."*⁸⁵

144. Aeth ymlaen i ddweud:

*"CIPFA believes that the short-term impact of the policy is likely to be greater than the estimate in the Regulatory Impact Assessment (RIA) but agrees that there are likely to be long-term benefits to the policy"*⁸⁶

145. Dywedodd Family Fostering Partners fod ganddynt bryderon mawr ynglŷn â'r rhagamcanion ariannol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a dywedodd ei bod yn hanfodol cynnal astudiaeth drylwyr yn cymharu costau darpariaeth union debyg ac asesu canran y rhieni maeth sy'n fodlon newid darpariaeth. Heb ddadansoddiad o'r fath, meddent, roedd risg y bydd awdurdodau lleol yn wynebu costau annisgwyl sylweddol.⁸⁷

⁸³ HSCWB13

⁸⁴ HSCWB13

⁸⁵ HSCWB27

⁸⁶ HSCWB27

⁸⁷ HSCWB7

146. Cyfeiriodd NYAS Cymru a'r Comisiynydd Plant ill dau at yr angen i ddarparu cymorth ariannol i'r trydydd sector:

*"I am aware of funding that has been made available to local authorities to expand their provision of in-house and within area provision. However, I understand that there may be barriers to third sector organisations accessing any funding of this nature at present. If this is correct, I think this is a missed opportunity, as the third sector will have a valuable role in supporting this policy."*⁸⁸

147. Yn yr un modd, dywedodd NYAS fod nifer o sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau maeth a phreswyl a allai gynorthwyo gyda gostyngiad posibl yn y ddarpariaeth, a byddai cyllid ychwanegol o gymorth yn hynny o beth.⁸⁹

Cyllid ar gyfer y cyfnod trosiannol

148. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £68 miliwn dros dair blynedd i gefnogi'r amcan hwn: 2022-23: £13 miliwn; 2023-24: £26 miliwn; a 2024-25: £2 filiwn Yn 2023, cyfeiriodd CLILC at y cynigion polisi'n ymwneud â dileu elw a'r cyllid o £68 miliwn gan ddweud:

*"Amlygwyd bod yr ymrwymiad i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn cael effaith andwyol ar argaeledd lleoliadau. Mae risgiau'n gysylltiedig â digonolrwydd y cyllid grant i dalu costau pontio yn llawn a nodwyd y risg bod posibilrwydd na fydd y cyfnod pontio yn ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod ariannu presennol yn 2024-25."*⁹⁰

149. Roedd NYAS Cymru a Home for Good & Safe Families yn croesawu'r buddsoddiad o £68 miliwn gan Lywodraeth Cymru ond nid oeddent yn teimlo y byddai'n ddigonol. Dadleuodd Home for Good & Safe Families fod angen cymorth ychwanegol y tu hwnt i 2025 er mwyn sicrhau llwyddiant a sefydlogrwydd parhaus y Bil.

150. Roeddent yn annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi pecyn newydd o gymorth ariannol sy'n cwmpasu'r cyfnod trosiannol a thu hwnt, hyd 2027, gan

⁸⁸ HSCWB8

⁸⁹ HSCWB24

⁹⁰ Tystiolaeth CLILC i'r Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

ddisgrifio hyn fel rhywbeth hanfodol er mwyn galluogi awdurdodau lleol i addasu'n llawn i'r system newydd⁹¹.

151. Cyfeiriodd CLILC ac ADSS Cymru ill dau at gyllid ar gyfer y dyfodol, a dywedodd Sally Jenkins o ADSS fod angen i Lywodraeth Cymru roi eglurder i awdurdodau lleol ynghylch unrhyw gyllid a fyddai ar gael yn y dyfodol i gefnogi awdurdodau lleol.⁹²

Y cyfnod trosiannol a sicrhau bod digon o leoliadau ar gael i ateb y galw

152. Mynegodd mwyafrif y rhanddeiliaid bryderon mawr a dybryd am y trefniadau ar gyfer trosglwyddo i'r modelau nid-er-elw newydd a sicrhau bod digon o leoliadau yn y dyfodol. Eglurwyd bod eu pryderon yn seiliedig ar heriau hirdymor a oedd yn bodoli eisoes o ran sicrhau digon o leoliadau i blant sy'n derbyn gofal mewn gofal maeth a gofal preswyl.

153. Trafodir y mater hwn yn y Memorandwm Esboniadol, sy'n cyfeirio at y ffaith bod "y galw yn fwy na'r cyflenwad" gan ddweud "nid oes cyflenwad digonol o leoliadau preswyl a lleoliadau gofal maeth i ddiwallu anghenion eang ein poblogaeth plant sy'n derbyn gofal". Yn ogystal â hynny, mae ADSS a CLILC wedi dweud yn y gorffennol bod achosion yn mynd yn fwy cymhleth⁹³, a thynnwyd sylw at hyn gan rhanddeiliaid eraill hefyd⁹⁴.

154. Disgrifiodd y rhanddeiliaid faint y newid y byddai ei angen er mwyn trosglwyddo i fodel nid-er-elw, a dywedodd Barnardo's wrthym:

"At the moment, there are 49 residential provisions within local authorities, and there are 245 private profit-making provisions. That's a vast change to move from, for all of us across any sector within Wales (...)"⁹⁵

155. Mewn perthynas â darpariaeth faethu, dywedodd TACT:

"I think I saw some figures at the end of last year saying there were just under 1,300 children in independent fostering placements. Now, between Barnardo's, Action for Children,

⁹¹ HSCWB14 a HSCWB16

⁹² Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraffau 331-332

⁹³ ADSS a CLILC, ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

⁹⁴ HSCWB7, HSCWB18

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 79

*TACT and another charitable organisation I know of (...) I think there are fewer than 200 children in our placements. So, we're only a sixth of the number of independent placements, so it's a massive challenge to be able to meet that.*⁹⁶

156. Dywedodd ADSS Cymru fod y Bil yn cynrychioli'r newid mwyaf i wasanaethau plant—yn wir, gofal cymdeithasol—ers cyflwyno'r Ddeddf Plant ym 1991. Dywedodd fod ei faint a'i effaith yn enfawr i wasanaethau plant, ac na ofynnwyd iddynt erioed ymdopi â rhywbeth ar yr un raddfa o'r blaen.⁹⁷

157. Clywsom bryderon y gallai cael dileu elw o fewn yr amserlen arfaethedig waethygu'r problemau digonolrwydd presennol, yn enwedig yn y tymor byr i'r tymor canolig. Gallai hyn, yn ei dro, darfu'n sylweddol ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal wrth i rai darparwyr preifat dynnu lleoliadau yn ôl, a'r trydydd sector ac awdurdodau lleol weithio i gynyddu eu darpariaeth.⁹⁸

158. Roedd pryderon hefyd ynghylch diffyg digonolrwydd yn arwain at gynnydd mewn lleoliadau y tu allan i'r ardal neu mewn llety anghofrestredig, yn enwedig ar gyfer y rhai ag anghenion mwy cymhleth neu'r rhai y mae angen cartrefi arbenigol arnynt.

159. Dywedodd NYAS Cymru nad oedd yn credu bod Rhan 1 o'r Bil mewn sefyllfa ble y gellir ei chyflwyno i ddeddfwriaeth ar hyn o bryd heb amharu'n ddiangen ar fywydau plant sy'n byw mewn darpariaeth breifat ledled Cymru.⁹⁹

160. Yn ôl Family Fostering Partners, roedd diffyg tystiolaeth i awgrymu y bydd darparwyr er elw yn addasu i fodel nid-er-elw neu'n parhau i fod yn weithredol, ac roedd hynny'n destun pryder. Roeddent yn credu ei bod yn hanfodol i'r rhai sy'n cefnogi'r Bil baratoi am y posibilrwydd y gallai'r newidiadau hyn arwain at leihad sylweddol yn y lleoliadau addas sydd ar gael i blant maeth yng Nghymru.¹⁰⁰

161. Yn hytrach na hynny, awgrymodd Cymdeithas y Plant y gallai canolbwyntio ar gefnogi mwy o ddarparwyr nid-er-elw i ehangu neu ymsefydlu gynyddu'r cyflenwad mewn ffordd fwy rheoledig a fyddai'n haws i awdurdodau lleol ac yn tarfu llai ar blant.¹⁰¹

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 89

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 282

⁹⁸ Gan gynnwys: HSCWB5, HSCWB10

⁹⁹ HSCWB14

¹⁰⁰ HSCWB7

¹⁰¹ HSCWB10

162. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, dywedodd Home for Good & Safe Families, er eu bod yn cydnabod y baich sylweddol y mae'r Bil yn ei roi ar awdurdodau lleol, roeddent yn credu'n gryf bod hwn yn gam pwysig ac angenrheidiol tuag at greu system ofal iachach a mwy cynaliadwy. Yn eu barn nhw, er y bydd heriau yn ddiau yn ystod y cyfnod trosiannol, ni ellir gorbwysleisio manteision hirdymor system sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar les plant.¹⁰²

163. Ymhlith pryderon rhanddeiliaid ynghylch digonolrwydd yn y dyfodol roedd lefel yr ansicrwydd presennol. Dywedodd ADSS Cymru wrthym mai un o'r problemau yw nad yw eto'n hysbys beth fydd y model nid-er-elw, faint o ddarparwyr a fydd yn trosglwyddo i'r model a beth fydd y bwlch yn ei olygu yn hynny o beth. Dywedodd, er bod hynny'n annhebygol,

*"if none of them transition to a not-for-profit model, we'd be looking at a requirement for an additional 204 residential homes in Wales, with 653 beds, based on current figures. (...) those figures fluctuate, and, as it currently stands, whilst they might be stabilising, there's a possibility that those numbers will further increase."*¹⁰³

164. Gwnaeth y Rhwydwaith Maethu, Barnardo's Cymru a Plant yng Nghymru sylwadau tebyg, gan ddweud:

*"It is somewhat concerning that at this point in time it is not clear how many for profit providers will leave the market, meaning that the potential for disruption and negative impact and demands placed upon children is quite significant, not only in respect of their accommodation but also their connections with family, friends, school, health services, communities and their relationships with current carers who will also be impacted."*¹⁰⁴

165. Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas y Plant, at yr heriau ymarferol sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth sefydlu cartrefi preswyl newydd i blant, gan gynnwys yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen. O ran y pwynt hwn, dywedodd Sally Jenkins, ADSS Cymru, wrthym:

¹⁰² HSCWB16

¹⁰³ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 304

¹⁰⁴ HSCWB18

“It’s a two-year run-in to establish a children’s home; accessing the capital and revenue in parallel is really challenging.”¹⁰⁵

166. Yn ogystal â hynny, clywsom am bwysigrwydd datblygu darpariaeth yng nghymunedau’r plant, yn hytrach nag mewn ardaloedd lle mae eiddo yn rhatach neu’n haws ei gaffael.¹⁰⁶

167. Yn dilyn sesiwn dystiolaeth gychwynnol y Pwyllgor ar 6 Mehefin, darparodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ddadansoddiad yn ôl awdurdod lleol. Dengys fod holl ddarpariaeth 7 o’r 22 awdurdod yn y sector ‘er elw’.

168. Mewn perthynas â gofal maeth, tynnodd y rhanddeiliaid sylw at yr heriau o ran datblygu a chynyddu nifer y gofalwyr maeth, yn enwedig yng ngoleuni’r gostyngiadau yr oeddent wedi’u gweld yn nifer y bobl a oedd yn barod i fod yn rhiant maeth. Yn ôl Sarah Thomas o’r Rhwydwaith Maethu:

“We are facing a crisis in relation to fostering. We know that there are children going into residential provision who should be going into foster care, but we do not have enough foster carers.”¹⁰⁷

169. Dywedodd Sally Jenkins o ADSS wrthym fod symud gofalwyr maeth o weithio i asiantaeth faethu annibynnol i awdurdod lleol yn broses. Dywedodd fod gwaith gyda Llywodraeth Cymru eisoes ar y gweill i sicrhau bod y prosesau hynny mor gadarn â phosibl, ond bod hynny’n her.¹⁰⁸

170. Roedd Family Fostering Partners yn feirniadol o’r ffaith nad yw’r Bil yn cynnig unrhyw fesurau newydd i ehangu’r gronfa o deuluoedd maeth, gan waethygu’r problem bresennol.¹⁰⁹

171. Mewn perthynas â’r sefyllfa bresennol ar draws awdurdodau lleol, dywedodd ADSS Cymru fod hyn yn amrywiol, er enghraifft byddai angen ychydig iawn o waith mewn un awdurdod lleol, byddai angen cannoedd o leoliadau mewn un neu ddau o’r awdurdodau lleol mawr, a degau yn yr awdurdodau sy’n weddill.¹¹⁰

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraffau 301-302

¹⁰⁶ HSCWB4

¹⁰⁷ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 18

¹⁰⁸ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraffau 301-302

¹⁰⁹ HSCWB7

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 299

172. Dywedodd Sally Jenkins o ADSS Cymru wrthym, o ran ei hawdurdod ei hun, er gwaethaf gwaith i ddatblygu cartrefi plant dros y 10 mlynedd diwethaf, fod angen datblygu dau gartref arall o hyd i ddiwallu'r angen presennol. Dywedodd fod darpariaeth arbenigol ar gyfer plant anabl yn rhywbeth a fyddai'n anodd ei reoli ar sail awdurdod lleol ac y byddai angen edrych ar y sefyllfa'n rhanbarthol.¹¹¹

173. Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid eraill hefyd at bwysigrwydd gweithio'n rhanbarthol i sicrhau darpariaeth ddigonol, gan gynnwys y Rhwydwaith Maethu, TACT, a Barnardo's Cymru.

174. Mewn perthynas â lleoliadau diogel, dywedodd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru ei bod yn hollbwysig nad eir ati i ddileu elw ar draul anghenion penodol a natur fregus plant y mae angen llety diogel arnynt. I'r perwyl hwnnw, roedd yn croesawu adran 12 o'r Bil, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru ar sut y maent wedi, neu'n disgwyl, cynyddu'r llety diogel sydd ar gael. Fodd bynnag, dadleuwyd ei bod yn aneglur ar hyn o bryd pa ganlyniadau y byddai awdurdodau lleol yn eu hwynebu pe baent yn methu â chynyddu darpariaeth o'r fath.¹¹²

Darparwyr preifat yn gadael y maes yn ddi-drefn

175. Cododd llawer o randdeiliaid bryderon ynghylch y posibilrwydd y byddai darparwyr preifat yn gadael y maes yn ddi-drefn o ganlyniad i'r Bil, a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar ddarparu lleoliadau yn y dyfodol.

176. Yn ôl Barnardo's Cymru, mae Cymru'n wynebu argyfwng gofal cymdeithasol ac roedd yn pryderu nad yw gofal cymdeithasol yng Nghymru mewn cyflwr sefydlog i wneud newid sylweddol ar hyn o bryd. Aeth ymlaen i ddweud:

"It is a concern that with the sector already being so unstable, further changes could exacerbate this, particularly if providers were to abruptly leave Wales and create further churn and staff shortages. The Explanatory Memorandum notes that it is still unclear what level of churn should be expected from the changes to the sector, although we have already seen some private providers choose to leave Wales."¹¹³

¹¹¹ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 300

¹¹² HSCWB23

¹¹³ HSCWB4

177. Yn ôl CLILC, “os yw darparwyr er-elw presennol yn penderfynu gadael y farchnad neu leihau eu gwasanaethau, mae risg o brinder sydyn a difrifol o leoliadau, yn arbennig i blant sydd ag anghenion cymhleth.”¹¹⁴

178. Gwnaeth CIPFA bwynt tebyg, gan ddweud bod y cyfeiriad ym mharagraff 7.84 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu y bydd niferoedd bach o ddarparwyr er elw yn trosglwyddo i fodolau nid-er-elw. Yn y senario mwyaf optimistaidd, meddai, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth ar gyfer 50% o'r 87% o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, sy'n cyfateb i 233 o blant. Os bydd darparwyr er elw yn gadael y farchnad yn gyflym, meddai, byddai hynny'n tarfu'n sylweddol ar ofal cyfran fawr o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.¹¹⁵

179. Mae'r Children's Homes Association wedi dweud mai dim ond un o'i haelodau sy'n gweithredu yng Nghymru sydd wedi mynegi unrhyw ddiddordeb mewn trosglwyddo i fodel 'nid-er-elw' ac mae'n rhagweld y bydd 21 o gartrefi a 331 o leoliadau yn cau, sy'n debygol o fod yn lleoliadau ar gyfer plant ag anghenion cymorth mawr.¹¹⁶

Yr effaith ar y gweithlu

180. Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at effaith bosibl y Bil ar y gweithlu gofal cymdeithasol a oedd, meddent, eisoes yn wynebu argyfwng.

181. Roeddent yn ofni y gallai'r polisi arwain at gynnydd yn nifer y staff sy'n gadael y sector yn sgil pryderon am sicrwydd swyddi (pe bai darparwyr yn dewis gadael y farchnad), neu i chwilio am waith yn rhywle arall gyda chyflog gwell, llai o risg a llai o oriau anghymdeithasol, sydd oll, yn anffodus, yn nodweddion gweithio ym maes gofal cymdeithasol plant, meddent.¹¹⁷

182. Galwodd NYAS Cymru ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun i gefnogi'r gweithlu a chadw staff yn ystod y cyfnod trosiannol hwn.¹¹⁸

Sut i gefnogi'r sector nid-er-elw

183. Trafododd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Barnardo's Cymru a'r Rhwydwaith Maethu, sut orau i gefnogi'r sector nid-er-elw, a galwodd y

¹¹⁴ HSCWB31

¹¹⁵ HSCWB27

¹¹⁶ HSCWB13

¹¹⁷ HSCWB4, HSCWB13

¹¹⁸ HSCWB14

Rhwydwaith Maethu am greu cofrestr gofal cymdeithasol ar gyfer gofalwyr maeth er mwyn sicrhau bod ganddynt yr un statws â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal preswyl.¹¹⁹

184. Roedd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg hefyd yn cefnogi datblygu cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth, ac roedd wedi argymhell hyn i Lywodraeth Cymru yn y gorffennol fel rhan o'i waith ar ei ymchwiliad ei hun. Roedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwnnw'n rhannol, ond "yn siomedig, mae'n amlwg o dystiolaeth ddiweddar y Rhwydwaith Maethu (...) nad yw'r gwaith yn mynd rhagddo".

185. O'r herwydd, gofynnodd y Pwyllgor inni ystyried argymhell i Lywodraeth Cymru "y dylid diwygio Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) i'w gwneud yn orfodol i ofalwyr maeth gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn darparu lleoliadau maeth i blant sy'n derbyn gofal, a thrwy hynny gyflymu'r cynnydd tuag at sefydlu cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth".¹²⁰

186. Fodd bynnag, dywedodd Sally Jenkins, ADSS Cymru a Chadeirydd Bwrdd Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant wrthym fod cyfoeth o ddata ar gael ar gyfer darparwyr nid-er-elw ac, o'r herwydd, nid oedd yn siŵr pa ddiben fyddai i gofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth.¹²¹

187. Tynnodd y Rhwydwaith Maethu sylw at bwysigrwydd cael proses lle y gall gofalwyr maeth barhau i gael eu cymeradwyo fel gofalwyr maeth yn ystod y cyfnod trosiannol, fel y gallant gadw'r cofrestriad hwnnw, yn yr un ffordd ag y gall gweithiwr cymdeithasol ei wneud, a symud o un cyflogwr i'r llall.¹²² Tynnodd sylw hefyd at yr angen am:

*"a clear communication to our fostering families right now, as soon as possible, to tell them what this transition will look like, to give them the reassurance that they need, (...) and relay these concerns before people do leave the sector, because foster carers will be, and are, very concerned, and they will leave, and we need this provision to remain in Wales."*¹²³

¹¹⁹ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 18

¹²⁰ Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Gorffennaf 2024

¹²¹ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 351

¹²² Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 56

¹²³ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 86

Amserlenni ar gyfer y trefniadau trosiannol

188. Nid yw'r amseriadau penodol ar gyfer cyflwyno'r pwerau 'nid-er-elw' wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil. Mae adran 4 o'r Bil yn amlinellu trefniadau trosiannol ar gyfer darparwyr presennol gwasanaeth plant o dan gyfyngiad (a oedd wedi'u cofrestru cyn y gofynion 'nid-er-elw' newydd).

189. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r bwriad i ddod â darpariaethau'r Bil i rym fel y:

- Bydd rhaid i ddarparwyr newydd sy'n cofrestru ag AGC fod â statws "nid-er-elw" o 1 Ebrill 2026 ymlaen.
- O 1 Ebrill 2027, bydd darparwyr "er elw" presennol yn destun darpariaethau trosiannol, yn amodol ar rai eithriadau. Mae hyn yn cynnwys pŵer i atal darparwyr rhag darparu lle i unrhyw blentyn newydd ar ôl dyddiad penodol.

190. Er bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi na all darparwyr er elw newydd gofrestru o 2026 ymlaen, nid oes dyddiad penodol yn y Memorandwm Esboniadol, na dyddiad wedi'i nodi yn y Bil, pan na fydd darparwyr er elw presennol yn gallu darparu lleoliadau.

191. Mae'r Bil yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru bennu diwedd y cyfnod trosiannol ar gyfer gwasanaethau plant cyfyngedig. Mae'r Datganiad o'r Bwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth yn dweud:

"Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru benderfynu ar ddiwedd y cyfnod trosiannol ar gyfer gwasanaethau i blant dan gyfyngiad, gan gynnwys y gallu i ymateb i'r angen posibl i bennu gwahanol ddiwrnodau mewn perthynas â gwahanol fathau o wasanaeth a disgrifiadau gwahanol o ddarparwyr gwasanaeth; er enghraifft, os yw cyflawni darpariaeth ddigonol o leoliadau nid-er-elw yn anghyson ar draws mathau o wasanaethau."

192. Roedd gan y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'r mater hwn bryderon mawr am yr amserlenni ar gyfer trosglwyddo, gyda rhai rhanddeiliaid yn awgrymu y gallai fod angen amserlen o 10 i 15 mlynedd¹²⁴.

193. Dywedodd CLILC y bydd "trawsnewid o farchnad gymysg i fodel nid-er-elw yn gofyn am lawer iawn o amser, adnoddau, a chynllunio". Nododd nad oes amserlen ar gyfer hyd y cyfnod trosiannol ar hyn o bryd, ond mae'r costau yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu y gallai hyn fod dros gyfnod o 3 blynedd. Ym marn CLILC, o ystyried faint o waith sydd ei angen i fwrw ymlaen â'r ymrwymiad hwn a'r angen i osgoi cymaint o aflonyddwch â phosibl, byddai hwn yn "nod rhy uchelgeisiol" a "bydd angen cyfnod hwy o amser".

194. Aeth ymlaen i ddweud:

*"Mae'n hanfodol bod y cyfnod pontio ynghyd â'r goblygiadau a'r costau ariannol yn cael eu monitro'n ofalus, a bod yr amserlenni'n ddigonol. Bydd angen ystyried ystod o ffactorau ar gyfer hyn, gan gynnwys lefel y galw am leoliadau mewn gwasanaethau cyfyngedig, a chyflymder y newid o ddarpariaeth er-elw i ddarpariaeth nid-er-elw. Bydd angen i unrhyw benderfyniad i ddod â'r cyfnod pontio hwn i ben gael ei lywio gan ymgysylltiad agos â Chynghorau ac ystyriaeth ofalus o hawliau plant dan Erthygl 8 CCUHP."*¹²⁵

195. Dywedodd Darren Mutter o ADSS Cymru pe na bai awdurdodau lleol a'r sector yn cael digon o amser i drosglwyddo, mae perygl y bydd gostyngiad aruthrol yn nifer y lleoliadau a'r gwelyau sydd ar gael i bobl ifanc.¹²⁶

196. Aeth ymlaen i ddweud:

"as we have seen in the past years, as our sufficiency problems have increased, we've had to make unregulated arrangements for the children that are not as safe, do not provide as good outcomes, as do regulated provision, and they place enormous pressure on local authority staffing and budgets. But most of all, they place those children at greater risk,

¹²⁴ [Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. \(senedd.cymru\)](#), paragraff 185, [Canfyddiadau digwyddiadau rhanddeiliaid - Mawrth 2023.pdf \(senedd.cymru\)](#), tudalen 14

¹²⁵ HSCWB31

¹²⁶ Cofnod y Trafodion 27 Mehefin, paragraff 340

—and the fear is that we will plough into a situation where the numbers of situations that are operating without regulation (...) will increase exponentially, with a number of vulnerable children in those unregulated settings being placed at greater risk when compared to situations where they would be placed in regulated and managed settings.”¹²⁷

197. Yn yr un modd, roedd Cymdeithas y Plant yn bryderus am effaith yr amserlenni ar ddiogelwch plant, gan ddweud nad oeddent yn rhoi digon o amser i ddarparwyr a rhanddeiliaid eraill gyrraedd y nodau hyn yn ddiogel.¹²⁸

198. Aeth ymlaen i ddweud bod y diffyg gwybodaeth ynghylch pa ddarparwyr nid-er-elw fydd yn elwa o’r trefniadau trosiannol yn creu ansicrwydd ac ansefydlogrwydd i ddarparwyr ac i blant mewn gofal. Dywedodd fod angen eglurder ynghylch yr amserlenni, ac y dylid darparu hyn cyn i’r rheoliadau gael eu cyhoeddi.¹²⁹

199. Dywedodd Plant yng Nghymru fod angen neilltuo digon o amser ar gyfer y cyfnod trosiannol a bod angen ei reoli’n briodol er mwyn lleihau unrhyw darfu ar barhad gofal plant a chaniatáu amser i’r farchnad ailaddasu ac i’r sector nid-er-elw dyfu. Galwodd Plant yng Nghymru am ailystyried yr amserlen bresennol ar gyfer y cyfnod trosiannol ac am gyhoeddi asesiad risg.¹³⁰

200. Roedd Gweithredu dros Blant yn pryderu efallai na fyddai’r trefniadau trosiannol yn ddigon hir ac y byddent yn creu argyfwng yn y ddarpariaeth sydd eisoes dan bwysau¹³¹

201. Dywedodd CIPFA ei fod yn pryderu bod yr amserlenni yn tanamcangyfrif maint yr her o ran gweithredu’r polisi ac yn cynnwys tuedd optimistiaeth.¹³²

202. Nid yw NYAS Cymru yn cytuno â nod Llywodraeth Cymru i bob darparwr er elw drosglwyddo i fodel nid-er-elw erbyn 2027, gan ddweud nad oedd yn meddwl bod yr amserlen hon yn briodol nac yn realistig o ystyried mai darparwyr gofal cymdeithasol preifat i blant yw’r rhan fwyaf o’r lleoliadau yng Nghymru ar

¹²⁷ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 340

¹²⁸ HSCWB10

¹²⁹ HSCWB10

¹³⁰ HSCWB18

¹³¹ HSCWB5

¹³² HSCWB27

hyn o bryd. Roedd hefyd yn teimlo nad oedd cynllun trosiannol Llywodraeth Cymru yn ddigon cadarn i gefnogi'r amserlen.¹³³

203. Dywedodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wrthym y byddai dyddiad cau o 1 Ebrill 2027 ar gyfer darparwyr er elw presennol i drosglwyddo i fod yn ddarparwyr nid-er-elw yn "gwbl annigonol i liniaru'n llawn yn erbyn yr holl risgiau o leoli pob plentyn mewn lleoliadau gofal nid-er-elw llawn".

204. Mewn perthynas â'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau am y trefniadau trosiannol, dywedodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei fod yn "pryderu nad oes dyddiad gorffen penodol ar gyfer y trefniadau trosiannol hynny". Ym marn y pwyllgor, mae'n bwysig "i gael eglurder ynghylch y dyddiad erbyn pryd y bydd elw yn cael ei ddileu o ofal plant". Roedd yn annog Llywodraeth Cymru i "nodi'n glir ddyddiad gorffen ar gyfer y trefniadau trosiannol, ar ôl ymgynghori'n llawn ac mewn modd adeiladol yn gyntaf gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn sicrhau nad yw diffyg lleoliadau nid-er-elw yn gwthio plant i lety anghofrestredig nad yw'n ddiogel".¹³⁴

205. Roedd Barnardo's Cymru yn pryderu am y potensial ar gyfer rhagor o drosiant o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol pe bai'r broses drosiannol yn digwydd yn rhy gyflym¹³⁵. Fodd bynnag, dywedodd wrthym:

*"I don't think we should take the foot off the gas in terms of progressing this over the next two years."*¹³⁶

206. Fodd bynnag, roedd yn teimlo y byddai'n anodd iawn cael gwared ar yr holl elw o ofal ledled Cymru erbyn 2027. Awgrymodd gyfnod trosiannol graddol y tu hwnt i 2027 am 12 mis arall neu fwy, a byddai hynny wedyn yn galluogi defnyddio darparwyr er elw ond dim ond am y cyfnod hwnnw o amser.¹³⁷

207. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, dywedodd y Comisiynydd Plant a TGP Cymru nad oeddent mewn gwirionedd o blaid oedi neu ymestyn yr amserlen:

"We want it to be managed carefully and sensibly, but not delayed."

¹³³ HSCWB14

¹³⁴ Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Gorffennaf 2024

¹³⁵ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 53

¹³⁶ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 93

¹³⁷ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 93

(...) it's not about a cliff-edge point in any of this work. We're not saying, 'From this point, everyone will move on 1 January, or whatever date, and that will be that'; this is about the managed transition and plan for this. I think that if you push the date back for it to even start, then the investment and the work won't follow, so you need to have the firm date in place to make the actions happen that need to happen."¹³⁸

208. Yn yr un modd, dywedodd TGP Cymru mai mantais dyddiad cau oedd cael rhywbeth i weithio tuag ato. Y pryder, meddai, oedd bod angen i'r ffocws fod ar ansawdd y lleoliadau i bobl ifanc, yn hytrach na'r dyddiad cau ar gyfer y lleoliadau presennol.¹³⁹

209. Dywedodd Arolygiaeth Gofal Cymru wrthym mai un o'r pethau y mae'n ei werthfawrogi'n benodol am y darpariaethau hyn yw nad oes dyddiad cau penodol:

*"So, as from 1 April 2026, no for-profit provider can register with Care Inspectorate Wales to provide services. But the transition of the April 2027, which means that, with a supplementary placement agreed by Welsh Ministers, a child can be placed in a for-profit service, means that we're not facing a cliff."*¹⁴⁰

Eithriadau er mwyn caniatáu darpariaeth 'nid er elw'

Lleoliadau atodol

210. Mae Adran 13 yn amlinellu'r ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya yn y "lleoliad mwyaf priodol". Dywed y Nodiadau Esboniadol i'r Bil y gall lleoliad fod mewn "llety anghofrestredig (dros dro neu mewn achosion brys)".

211. Rhaid i awdurdodau lleol wneud cais i Weinidogion Cymru am gymeradwyaeth i leoli plentyn sy'n derbyn gofal yn rhywle heblaw endid 'nid-er-elw', y cyfeirir ato fel "lleoliad atodol". Mae'r Bil yn nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu cymryd os bydd cais am lleoliad atodol yn cael ei wrthod gan Weinidogion Cymru.

¹³⁸ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraffau 102-103

¹³⁹ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 98

¹⁴⁰ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 199

212. Mynegodd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys NYAS Cymru, Voices from Care Cymru, The Children’s Homes Association, TGP Cymru a’r Comisiynydd Plant, bryderon ynghylch cymeradwyo lleoliadau atodol a sut y byddai’r broses yn gweithio’n ymarferol, gan alw am eglurder ynghylch y meini prawf ar gyfer penderfyniadau Gweinidogol.

213. Dywedodd Sarah Crawley o Barnardo’s Cymru:

“I’m concerned about ministerial sign-off not being particularly practical when, at 5 or 6 o’clock of an evening on a Friday, you’ve got a young person that needs an urgent placement and you just don’t have the provision. And it could have knock-on consequences to further unregulated placements being used.”¹⁴¹

214. Dywedodd NYAS Cymru wrthym nad yw’n credu y dylid gosod y ddyletswydd hon ar Weinidogion Cymru ond yn hytrach argymhellodd y dylai awdurdodau lleol sefydlu ‘panel ar alwad’ i wneud y penderfyniad, a allai fynd law yn llaw â dyletswydd ar awdurdodau lleol i adrodd ar bob cais i Weinidogion dynodedig yn fisol er mwyn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru a’i galluogi i ymyrryd pan fo angen.¹⁴²

215. Galwodd y Children’s Homes Association hefyd am ddirprwyo’r broses gymeradwyo i awdurdodau lleol, gan ddweud eu bod mewn sefyllfa dda i wneud y penderfyniadau hyn yn brydlon ac yn effeithiol.¹⁴³

216. Dywedodd Darren Mutter o ADSS Cymru fod y broses o gymeradwyaeth Gweinidogol ar gyfer lleoliadau atodol yn golygu gwahanu’r cyfrifoldeb o wneud penderfyniadau a’r broses ddilynol o reoli risgiau. Dywedodd, o’i ran ef, nad oes modd gwahanu’r ddau fater hynny. Aeth ymlaen i ddweud:

“Heads of service, directors, make very important risk-balanced decisions, and they then go on and own that risk, which is quite right. We can’t have a situation, in my view, where a Minister who is removed from the operational realities of individual children’s situations is making decisions about those individual children and then leaving the heads of service or the directors to manage the consequent risk. (...) The person that makes those risk-based decisions has to be also owning that risk, and

¹⁴¹ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 93

¹⁴² HSCWB14

¹⁴³ HSCWB13

that for me can only sit in local authority head of service or director hands.”¹⁴⁴

217. Cynigiodd Home for Good and Safe Families y dylai Swyddfa'r Comisiynydd Plant fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau am leoliadau atodol, oherwydd mae ei hawliau statudol a'i gwybodaeth helaeth o'r sector yn golygu ei bod mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau sy'n blaenoriaethu lles plant.¹⁴⁵

218. Yn fwy cyffredinol, galwodd ADSS Cymru am ragor o fanylion mewn perthynas ag esemptiadau i blant sydd o fewn y system ar hyn o bryd, ond hefyd ar gyfer y rhai y gallai fod angen lleoliadau arbenigol iawn arnynt na ellir ond eu cael mewn darpariaeth er elw, er enghraifft yn Lloegr.¹⁴⁶

219. Teimlai CLILC a Voices from Care Cymru ill dau fod angen rhagor o wybodaeth am sut y byddai'r broses gymeradwyo yn gweithio'n ymarferol. Dywedodd Voices from Care Cymru wrthym fod angen meini prawf clir, fel bod pobl yn gallu deall ar ba sail y mae'r penderfyniad yn cael ei wneud, ac yn benodol bod y plentyn ei hun yn gallu deall ar ba sail y mae'r penderfyniad hwnnw'n cael ei wneud.¹⁴⁷

220. Cyfeiriodd Rachel Thomas, o Swyddfa'r Comisiynydd Plant, at gymeradwyaethau ôl-weithredol hefyd, gan gwestiynu a ydynt mewn gwirionedd yn gweithredu fel amddiffyniad o fewn y system.¹⁴⁸

Llety anghofrestredig a Gorchmynion Amddifadu o Ryddid

221. Mae rhoi plant mewn gofal mewn llety anghofrestredig yn anghyfreithlon yng Nghymru a Lloegr. 'Llety anghofrestredig' yw'r term a ddefnyddir yn eang i ddisgrifio llety lle mae'r darparwr yn darparu 'gofal' i blentyn o dan 18 oed, ond nad yw wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

222. Gall plant gael eu hamddifadu o'u rhyddid am resymau'n ymwneud â lles neu risgiau i'w diogelwch. Mae gostyngiad yn nifer y lleoliadau sydd ar gael wedi golygu pan na ellir dod o hyd i leoliad diogel addas yn unrhyw un o'r lleoliadau hyn, gall yr Uchel Lys ddefnyddio ei bwerau i amddifadu'r plentyn o'i ryddid mewn lleoliad heb ei reoleiddio.

¹⁴⁴ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 13

¹⁴⁵ HSCWB16

¹⁴⁶ Cofnod y Trafodion 27 Mehefin, paragraff 311

¹⁴⁷ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, paragraff 153

¹⁴⁸ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, paragraff 155

223. Dywedodd Plant yng Nghymru wrthym nad oeddent yn cefnogi'r cynigion yn adran 13 i lety anghofrestredig gael ei ystyried yn opsiwn priodol am unrhyw gyfnod o amser i unrhyw blentyn, a'u bod yn gwrthod y cynnig i'w gynnwys mewn deddfwriaeth. Aethant ymlaen i ddweud:

"Placing a child in unregistered accommodation is currently illegal in Wales and should remain so. We raised concerns with the UN Committee on the Rights of the Child regarding children being placed in unregistered accommodation which have since been reflected in their recommendations."¹⁴⁹

224. Dywedodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wrthym ei fod yn credu y byddai'r darpariaethau yn adran 13 "yn arwain at risg annerbyniol o uchel o ddefnydd cynyddol o lety anghofrestredig na fyddai'n darparu'r lefelau o ofal a chymorth y mae plant a phobl ifanc mewn gofal yn eu haeddu."

225. Aeth ymlaen i ddweud:

"Rydym yn pryderu'n fawr am y darpariaethau newydd hyn, sy'n darparu llwybr i awdurdodau lleol leoli plant mewn cartrefi plant nad ydynt wedi'u cofrestru gydag awdurdodau lleol (...)

Rydym yn nodi'r mesurau diogelu a nodir yn adrannau newydd 81B(3) i (8) o Ddeddf 2014, a'r trefniadau adrodd gorfodol yn adran 75D. Ond nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y darpariaethau hyn yn lliniaru'r risgiau o normaleiddio lleoliadau anghofrestredig. Mae ein pryderon yn cael eu gwaethygu oherwydd y prinder tymor byr tebygol o leoliadau nid-er-elw i blant (...) a allai arwain awdurdodau lleol i leoli hyd yn oed mwy o blant mewn llety anghofrestredig, gan gynnwys nifer cynyddol o blant sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid."¹⁵⁰

226. Dywedodd AGC ei bod yn cydnabod y pwysau ar awdurdodau lleol i ddod o hyd i leoedd i blant, gan ddweud nad oedd yn gwybod am unrhyw bennaeth gwasanaethau plant a oedd eisiau rhoi plentyn mewn lleoliad anghofrestredig. Dywedodd ei bod wedi gwneud llawer o waith i dynnu sylw at faint y broblem ac i weithio gyda phartneriaid mewn awdurdodau lleol i sicrhau, pan gaiff plant eu

¹⁴⁹ HSCWB18

¹⁵⁰ Llythyr, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Gorffennaf 2024

Ileoli mewn gwasanaethau anghofrestredig, fod hynny am gyfnod mor fyr â phosibl.¹⁵¹

227. Dywedodd wrthym:

“We will be watching as an inspectorate (...) very closely to make sure that those figures [for placements in unregistered settings] don’t climb, because (...) we would worry about with any increase in services operating without registration, and we’ll be monitoring it particularly carefully as we go through this transition period.”¹⁵²

228. Fe wnaethom ofyn i AGC a fydd y darpariaethau yn y Bil a’r memorandwm esboniadol sy’n ymwneud â lleoliadau atodol yn arwain at ‘gyfreithloni’ a normaleiddio lleoliadau anghofrestredig yng Nghymru, oherwydd nid yw’r Bil, fel y’i drafftwyd, yn gwahardd defnyddio unrhyw leoliad anghofrestredig ar gyfer unrhyw blentyn o unrhyw oedran. At hynny, mae paragraff 55 o’r Nodiadau Esboniadol i’r Bil yn cyfeirio at leoliad sy’n golygu lletya plentyn mewn llety anghofrestredig dros dro neu mewn achosion brys. Mewn ymateb i hynny, dywedodd yr Arolygiaeth wrthym:

“we made a query to Welsh Government about that. And my understanding is that that is an incorrect use of the word. So, sometimes, the words ‘unregulated’ and ‘unregistered’ are mixed up.

So, what we’ve been told is that the intention was that that reference should be ‘unregulated’. (...) we were content with the response that we got that that was an unintentional reference within the explanatory memorandum, and sure that will be— I’m hoping that will be—altered.”

Yr effaith ar blant yr effeithir arnynt gan y Bil

Cynnwys plant a phobl ifanc yn y cynigion

229. Holodd nifer o randdeiliaid sut yr oedd barn y plant a’r bobl ifanc y bydd y Bil yn effeithio arnynt wedi cael ei hadlewyrchu ynddo.

¹⁵¹ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraffau 205-206

¹⁵² Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraffau 205-206

230. Gwnaeth NYAS Cymru y pwynt hwn, gan alw am fersiwn ‘pobl ifanc’ hygyrch o’r ddeddfwriaeth a’r ymgynghoriad. Gwnaed pwyntiau tebyg gan TGP Cymru a Plant yng Nghymru, a ddywedodd nad oeddent yn ymwybodol bod adnoddau wedi’u llunio i helpu i hysbysu plant am y newidiadau arfaethedig ac i gefnogi sefydliadau i gynnwys lleisiau plant yn effeithiol yn eu hymatebion.¹⁵³

231. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru fod yr angen i hysbysu pobol ifanc sy’n cael eu heffeithio gan y Bil yn bwynt yr oedd hi “wedi ei godi droeon” gyda Llywodraeth Cymru. Dywedodd yr hoffai weld “cyfathrebu mwy uniongyrchol gyda phobl ifanc ac ar eu cyfer” a’i bod “wedi gofyn i’r Gweinidog gynhyrchu llythyr a/neu fideo i bobl ifanc, i roi sicrwydd iddyn nhw ynghylch cyfarwyddyd y Bil, ond nid wyf yn sicr a wnaed hynny neu beidio”.¹⁵⁴

232. Dywedodd NYAS Cymru wrthym mai un o’i bryderon yw:

*“that children and young people currently who are going to be affected by this legislation don’t know this is going to happen (...) I would say the majority don’t know. So, I think there needs to be a real regard for engaging more with children and young people.”*¹⁵⁵

Eiriolaeth

233. Mae NYAS Cymru a TGP Cymru ill dau yn dweud bod angen cynnig gweithredol o eiriolaeth ar gyfer unrhyw blentyn y bydd neu y gallai’r Bil effeithio arno, gan ddweud mai dim ond canran fach iawn o bobl ifanc a leolir mewn llety preifat sy’n cael mynediad at wasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol, er gwaetha’r ffaith eu bod yn bodloni’r meini prawf cymhwystra¹⁵⁶. Dywedodd NYAS Cymru wrthym:

“Advocacy is at the heart of safeguarding. We know it’s to make sure that children and young people have independence, that they have a right to see somebody in confidence about anything that they’re concerned about, to get it stopped, started or changed. So, I think that advocacy should be at the

¹⁵³ HSCWB1

¹⁵⁴ HSCWB36

¹⁵⁵ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, pragraff 135

¹⁵⁶ HSCWB25

*heart of offering that provision to children and young people through this Bill.*¹⁵⁷

234. Yn yr un modd, dadleuodd Cymdeithas y Plant y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil i gynnig gwasanaeth eiriolaeth arbenigol i blant yr effeithir arnynt gan newidiadau i'w trefniadau gofal o ganlyniad i'r Bil. Dylai'r cynnig hwn, meddai, alluogi plant i gael dweud eu dweud am unrhyw newidiadau sy'n digwydd iddyn nhw ac i hynny gyfrannu at benderfyniadau sy'n ymwneud â chael darparwyr eraill yn eu lle.¹⁵⁸

235. Clywsom hefyd fod y Bil wedi colli cyfle i ddeddfu ar gyfer darparu gwasanaeth eiriolaeth ymweliadau preswyl ar gyfer cartrefi gofal plant. Dywedodd TGP Cymru wrthym eu bod wedi bod yn galw ers tro am sicrhau bod darpariaeth o'r fath yn ofyniad rheoleiddio ac arolygu cartrefi preswyl preifat.¹⁵⁹

236. Ategwyd yr alwad hon gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a bu'n destun argymhelliad gan y Pwyllgor hwnnw i Lywodraeth Cymru mewn ymchwiliad blaenorol i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Gwrthodwyd yr argymhelliad hwnnw gan Lywodraeth Cymru, a ddadleuodd fod y 'cynnig gweithredol' o eiriolaeth yn cael ei wneud i blant mewn lleoliadau preswyl.

237. Dadleuodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, fodd bynnag, mai cymharol ychydig o gartrefi gofal annibynnol sydd ag eiriolwyr, ac nad yw staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal annibynnol bob amser mor ymwybodol o hawliau eiriolaeth plant ag y dylent fod. Roedd yn gweld y Bil fel "[c]yfrwng deddfwriaethol delfrydol" ar gyfer bwrw ymlaen â hyn a gofynnodd inni ystyried argymell diwygio'r Bil fel bod:

*"darparu eiriolaeth ymweliad preswyl ar gyfer pob cartref gofal plant yn ofyniad ar gyfer cofrestru fel darparwr cartrefi gofal plant yng Nghymru."*¹⁶⁰

¹⁵⁷ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, pragraff 166

¹⁵⁸ HSCWB10

¹⁵⁹ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, pragraff 122

¹⁶⁰ Llythyr, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Gorffennaf 2024

Materion eraill yn ymwneud â phlant

Llety 'o fewn ardal yr awdurdod neu'n agos iddi'

238. Mae adran 10 o'r Bil yn diwygio adran 75 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 i bennu bod yn rhaid i'r awdurdod lleol gymryd "pob cam rhesymol i sicrhau" llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn lle "camau sy'n sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol" fel sy'n wir ar hyn o bryd o dan Ddeddf 2014.

239. Mae is-adran 1 yn ei gwneud yn ofynnol bod y llety hwn "o fewn ardal yr awdurdod neu'n agos iddi" yn hytrach na'r gofyniad presennol ei fod "o fewn ardal yr awdurdod".

240. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi bod hyn yn "galluogi awdurdodau lleol i wneud trefniadau gydag awdurdodau lleol eraill i ddatblygu cartrefi plant newydd a lleoliadau gofal maeth newydd". Aiff y Nodiadau Esboniadol ymlaen i ddweud bod y gwelliant hwn yn "cydnabod y gall amgylchiadau godi pan all plentyn sydd wedi ei leoli y tu allan i ardal yr awdurdod lleol fod yn agosach at ei gymuned gartref na phe bai'n cael ei leoli mewn rhan wahanol o ardal yr awdurdod lleol".

241. Dywedodd NYAS Cymru wrthym nad oedd yn cytuno ag adran 10 o'r Bil. Yn ei farn ef, nid yw'r geiriad hwn yn ddigon cryf i sicrhau nad yw lleoli plant a phobl ifanc y tu allan i'r ardal yn dod yn opsiwn 'diofyn' i awdurdodau lleol.

242. Roedd hefyd yn teimlo bod y defnydd o'r term 'agos i' yn aneglur ac y gallai awdurdodau lleol ei dehongli'n wahanol a allai, gan arwain at arferion anghyson ledled Cymru. Roedd yn annog Llywodraeth Cymru i ddiffinio'r term 'agos at' yn adran 10 er mwyn ei gwneud yn glir beth yw'r pellter mwyaf sy'n briodol i symud plentyn neu berson ifanc i ffwrdd o'u hardal leol.¹⁶¹

243. Yn yr un modd, dywedodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wrthym y byddai ganddo "bryderon difrifol pe bai'r darpariaethau yn adran 10 yn arwain at fwy o blant yn cael eu lleoli y tu allan i'w hardal gartref." Dywedodd mai'r farn hollbresennol yn yr holl dystiolaeth yr oeddent wedi'i chymryd mewn dau ymchwiliad o bwys oedd, "bod lleoliadau y tu allan i'r ardal, i'r rhan fwyaf o blant, yn cynyddu'r risg y bydd plant yn mynd ar goll, yn cael eu troseddoli neu'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol, heb sôn am y ffaith bod lleoliadau y tu allan i'r ardal yn ei

¹⁶¹ HSCBW14

gwneud hi'n anoddach iddynt gynnal perthynas â'u teulu biolegol neu ffrindiau neu osgoi'r angen i symud ysgolion". Aeth ymlaen i ddweud:

*"Hyd yn oed pan fo'n benderfyniad cywir i leoli plentyn mewn awdurdod lleol gwahanol, rhaid i awdurdodau lleol ddilyn y rheoliadau a'r canllawiau sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth yn gyson er mwyn sicrhau nad yw bod mewn lleoliad y tu allan i'r ardal yn peryglu ansawdd y gwasanaeth diogelu a ddarperir i unrhyw blentyn."*¹⁶²

Cynlluniau digonolrwydd

244. Mae adran 11 o'r Bil yn diwygio Deddf 2014 i fewnosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi cynllun digonolrwydd blynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Rhaid iddo fanylu ar y camau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd yn y flwyddyn honno i gyflawni ei ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau llety i blant sy'n derbyn gofal. Cyn cyhoeddi'r cynllun, rhaid i awdurdod lleol baratoi drafft a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Mae adran 11 hefyd yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn os na chymeradwyr y cynllun.

245. Dywedodd Sally Jenkins, ADSS Cymru a Chadeirydd Byrddau Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant, wrthym fod angen:

*"significantly more detail in relation to the proposed sufficiency plan but also how it aligns with existing work. So, for example, under each of the regional partnership boards, we already have duties in terms of market position statements, and those refer exactly to how we work with our providers. So, specifically, in relation to the sufficiency plan, that is what we would like to see."*¹⁶³

246. Yn ôl Mike Anthony o TACT Cymru, roedd diffyg datganiadau ar sefyllfa'r farchnad gan awdurdodau lleol wedi'i gwneud yn anodd cynllunio a chymryd risgiau wedi'u rheoli mewn perthynas â datblygiadau. Dywedodd fod cynigion ynghylch y cynllun digonolrwydd yn y Bil yn swnio'n gadarnhaol, ond dadleuodd hefyd fod angen rhagor o wybodaeth amdanynt.¹⁶⁴

¹⁶² Llythyr, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Gorffennaf 2024

¹⁶³ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 288

¹⁶⁴ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraffau 44-45

247. Dywedodd y Children’s Homes Association nad oedd yn glir ynghylch beth fyddai’n digwydd pe na bai cynllun digonolrwydd yn cael ei gymeradwyo, gan ddweud y gallai awgrymu bod Llywodraeth Cymru, drwy ddirprwy, yn pennu beth ddylai’r cynllun digonolrwydd ei gynnwys, gan anwybyddu a yw’n rhesymol neu’n ymarferol i’r awdurdod lleol ei gyflawni.¹⁶⁵

248. Dywedodd hefyd ei bod yn bryderus ynghylch y beichiau ychwanegol y bydd hyn yn eu rhoi ar awdurdodau lleol drwy orfod cynhyrchu cynllun digonolrwydd blynyddol, ac a fydd hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth sylweddol i gyflawni’r amcanion polisi.¹⁶⁶

Trefniadau adrodd gorfodol ar gyfer unigolion penodol

249. Yn ei thystiolaeth, mae’r Comisiynydd Plant yn cyfeirio at y ffaith bod gofyniad i unigolion penodol adrodd ar achosion o gam-drin plant yn rhywiol, fel y cynhwyswyd yn ymgynghoriad cynharach Llywodraeth Cymru ar y cynigion ar gyfer y Bil, wedi’i hepgor o’r Bil. Cyfeiria at “achos y prifathro o Ogledd Cymru a gafwyd yn euog yn ddiweddar o droseddau rhywiol cysylltiedig â disgyblion, yn enghraifft lle roedd cydymffurfiaeth â’r fframweithiau presennol i’w weld yn ddiffygiol iawn o bosib, gan arwain yn uniongyrchol at niwed i’r menywod ifanc hyn”.

250. Fe wnaethom ofyn i’r Gweinidog pam mae Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â chynnwys darpariaeth ar gyfer trefniadau adrodd gorfodol ar unigolion penodol yn y Bil, a dywedodd fod y llywodraeth yn credu mai’r dull presennol, sy’n gorfodi sefydliadau i adrodd yn hytrach nag unigolion, yw’r dull cywir i Gymru.¹⁶⁷

251. Wrth ymateb i hyn, dywedodd y Comisiynydd Plant “rhaid i godi ymwybyddiaeth fod yn ffactor allweddol er mwyn i ddyletswydd ar lefel sefydliad fod yn llwyddiannus”; y dylai polisiâu adlewyrchu cyfrifoldebau’r sefydliad a bod hyfforddiant diweddarau rheolaidd yn cael ei ddarparu i’r holl staff. Aeth ymlaen i ddweud:

“Mae’r wybodaeth a rannwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi pam nad ydynt am newid y ddeddfwriaeth bresennol, ond nid yw’n cyflwyno’r camau sy’n cael eu cymryd yn awr i gynyddu ymwybyddiaeth, er enghraifft. Er mwyn derbyn eu rhesymeg, byddwn yn awgrymu, â phob parch, bod angen mwy o fanylion

¹⁶⁵ HSCWB13

¹⁶⁶ HSCWB13

¹⁶⁷ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 21

am hyn, i'n sicrhau ni bod y cynlluniau cyfredol yn ddigonol i gadw plant yn ddiogel.”¹⁶⁸

Tystiolaeth gan y Gweinidog

Rhaid i ddarparwyr fod yn endidau ‘nid-er-elw’

Modelau busnes a ganiateir

252. Fe wnaethom holi’r Gweinidog am y modelau a gynigir yn y Bil a gofyn a fyddai’n ystyried newid y dull a fabwysiedir yn y Bil i adlewyrchu galwadau rhai rhanddeiliaid i drin busnesau bach a chanolig yn wahanol i’r darparwyr mawr sy’n eiddo i gwmnïau cyfyngedig cyhoeddus neu gwmnïau ecwiti preifat.

253. Dywedodd y Gweinidog fod darparwyr wedi dweud wrthi, yn hytrach na diffinio ‘nid-er-elw’, y byddai’n fwy defnyddiol i’r Bil nodi pa fodolau sy’n dderbyniol. Dywedodd fod sgysiau’n parhau gyda’r sector ynghylch modelau eraill, er enghraifft, sefydliadau sy’n eiddo i weithwyr. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw fodel yn ymwneud â thynnu elw allan yn dderbyniol i Lywodraeth Cymru.¹⁶⁹

254. Yn ogystal â hyn, cadarnhaodd Anthony Jordan, Pennaeth Rhaglen a Gweithredu Deddfwriaethol yng Nghyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru, fod Llywodraeth Cymru, ymhlith eraill, wedi bod yn siarad yn uniongyrchol â Chonsortiw Comisiynu Cymru ar gyfer Plant a Cwmpas:

“we have been discussing with them quite specifically what exactly it is, in terms of the qualities that come with, for example, an employee-owned trust vehicle that they think might make it aligned with our policy imperative, and how does that differ, how do those qualities differ from the qualities that are inherent in our four models.

And those conversations, I think, have been useful—not breakthrough conversations yet, but they are informative and we will, of course, be reflecting on them once they’ve come to a conclusion, which I’m hopeful they will do fairly shortly.”¹⁷⁰

¹⁶⁸ Llythyr, Comisiynydd Plant Cymru, 12 Medi 2024

¹⁶⁹ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, pragraff 32

¹⁷⁰ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, pragraff 32

255. O ran y potensial ar gyfer bylchau yn y ddeddfwriaeth arfaethedig, gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd y darpariaethau yn y Bil wedi'u geirio'n ddigon penodol i atal darparu gwasanaethau er elw yn y dyfodol. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi dysgu o brofiadau'r Alban ac wedi ei gwneud yn glir yn y Bil mai dim ond y pedwar model nid-er-elw a gynigiwyd a oedd yn dderbyniol:

“And anything that we see as seeking to get around that, like the introduction of management fees or similar sorts of arrangements, would be seen to be for-profit and therefore not fitting within the terms of the legislation, and would not then be eligible for registration.”¹⁷¹

256. Ychwanegodd Anthony Jordan, yn ogystal â hynny, fod Llywodraeth Cymru wedi cymryd pwerau i edrych ar y cwestiwn o daliadau afresymol. Dywedodd:

“that is designed to be a way in which we can maintain an oversight and satisfy ourselves that money is not being taken out of provision in a way that disguises the extraction of profit.”¹⁷²

257. Dywedodd Penny Hall wrthym fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda darparwyr i ddeall y rhwystrau sy'n gysylltiedig â newid modelau busnes a'r ffordd orau o gefnogi darparwyr presennol i wneud hyn.¹⁷³ Ar y pwynt hwn, cadarnhaodd y Gweinidog ei bod o fudd i'r Llywodraeth weithio gyda darparwyr ar y broses drosiannol. Aeth ymlaen i ddweud:

“despite the fact that we've been very clear about our position on this, we actually have seen, in the system, over the last year or so applications for another 24 or 25 for-profit providers wanting to come in and set up in Wales in the full knowledge that they may well be expected to transition to a not-for-profit model at some point in the future. So, it's really not putting anybody off at the moment and we certainly haven't seen any for-profit providers exiting the sector yet.”¹⁷⁴

Costau ac arbedion posibl

258. Mewn perthynas â chostau'r system bresennol, dywedodd y Gweinidog:

¹⁷¹ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 16

¹⁷² Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 17

¹⁷³ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 27

¹⁷⁴ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 29

“In 2016-17, I think the cost to local authorities of looked-after children was around £65 million. We’ve seen that increase in less than 10 years to nearly £200 million; that’s a 300 per cent increase. Somewhere in the region of 20 per cent to 25 per cent of that is being extracted as private profit.

If we continue on this trajectory, we are going to see within another 10 years potential costs for looked-after children approaching £1 billion. The option of just sitting here and saying that that’s okay and we’ll continue to do that is not an option that I think is a reasonable or viable one.”¹⁷⁵

259. Mewn cyfnodau o galedi ariannol i awdurdodau lleol, dywedodd eu bod yn edrych ar yr holl ffyrdd y gallent wneud y gorau o’r arian sydd ar gael iddynt, a’u bod yn gweld hyn fel yr ateb hirdymor a’r ymateb i’r ddarpariaeth ar gyfer plant sy’n derbyn gofal.¹⁷⁶

260. Fe wnaethom gyflwyno tystiolaeth CLILC i’r Gweinidog, a oedd yn dweud bod yr arbedion sy’n deillio o’r Bil yn debygol o ddeillio o osgoi costau yn hytrach nag arbedion arian parod, felly ni fyddai’r arian hwnnw’n mynd yn ôl i ofal plant.

261. Wrth ymateb i hyn, dywedodd:

“I don’t accept that. I think we need to be very clear about this. This is not going to produce savings overnight. (...) we’re working very closely with local authorities. We know that this will require some initial investment. We know that, for local authorities and the third sector, this may require quite a significant upfront capital investment, and we’re working very closely with them on how we can support that and how local authorities themselves can use their borrowing powers to support that.

I don’t accept the premise that this will end up costing local authorities more, when we have private providers at the moment that basically dictate the market because they are so big. (...) So, this is about really giving the control back to local authorities in terms of the ongoing costs. We would anticipate

¹⁷⁵ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 53

¹⁷⁶ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 42

*that we would start to see those savings being seen by local authorities within a 10-year period.*¹⁷⁷

262. O ran cyllid ar gyfer y cyfnod trosiannol, dywedodd y Gweinidog y dylai'r buddsoddiad o £68 miliwn dros dair blynedd gael ei weld fel rhywbeth sy'n galluogi dull gweithredu'r Llywodraeth, nid rhywbeth sy'n cymryd lle deddfwriaeth. Dywedodd ei fod yn cael ei ddefnyddio i gynyddu gallu'r awdurdod lleol a'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau gofal preswyl a maeth, drwy ddatblygu capasiti'r gweithlu, recriwtio a sgiliau.¹⁷⁸

263. Dywedodd, yn ogystal â chyllid refeniw, fod Llywodraeth Cymru am adeiladu ar ei buddsoddiadau cyfalaf ehangach ar draws gofal a chymorth i wasanaethau plant drwy ddarparu mwy o welyau a chartrefi ac, i'r perwyl hwnnw, dyrannwyd £25.4 miliwn i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Tai â Gofal i ddarparu 40 o gynlluniau llety preswyl i blant ledled Cymru. Dywedodd fod hanner y rhain yn gynlluniau preswyl ar gyfer plant ag anghenion cymhleth a fydd yn darparu cyfanswm o 96 o welyau; o'r rhain, mae 5 eisoes yn gweithredu gyda 15 gwely.¹⁷⁹

264. Aeth ymlaen i ddweud:

"We are still three years away from our intended implementation date of April 2027, with many providers having waited to see the provisions in the Bill before determining their futures. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â gyda phob rhan o'r sector wrth inni nesáu at fis Ebrill 2027 er mwyn sicrhau bod gennym ddarlun mor gywir â phosibl o ragamcanu a modelu gan yr awdurdodau lleol ochr yn ochr â bwriadau darparwyr."

265. Gan edrych i'r dyfodol, ac yn dilyn ceisiadau gan lywodraeth leol am eglurder ynghylch cyllid yn y dyfodol, gofynnwyd i'r Gweinidog beth fyddai'r ymrwymiad ariannol blynyddol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r ddarpariaeth nid-er-elw.

266. Dywedodd wrthym nad oedd cyllideb y cytunwyd arni ar gael y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn cydnabod y pwysau ar

¹⁷⁷ Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2024, paragraff 37

¹⁷⁸ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

¹⁷⁹ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin

gyllid llywodraeth leol, a bod y cynigion hyn yn flaenoriaeth uchel i'r Llywodraeth ac y byddant yn cael eu hystyried fel rhan o'r cylch cyllidebol arfaethedig.¹⁸⁰

Y cyfnod trosiannol a sicrhau bod digon o leoliadau ar gael i ateb y galw

267. Fe wnaethom gyflwyno'r dystiolaeth a glywsom am bryderon yn ymwneud â'r trefniadau a'r amserlenni ar gyfer y cyfnod trosiannol i'r Gweinidog. Dywedodd wrthym fod y Bil yn cynnwys nifer o fesurau a fyddai, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn hwyluso'r broses drosiannol honno cyn belled ag y bo modd:

“transitional arrangements, which will enable existing not-for-profit providers to continue to operate; the ability of local authorities to continue to place children in for-profit provision, where that is consistent with their well-being; and, subject to Welsh Ministers’ approval, new duties on local authorities in respect of sufficiency and sufficiency plans”¹⁸¹

268. Mewn perthynas ag amserlenni, gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd angen cyfnod hwy o amser i newid o'r system bresennol i'r model ar gyfer y dyfodol. Dywedodd, er bod cyfnod rhesymol yn angenrheidiol er mwyn i'r broses drosiannol weithio'n effeithiol, er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol yn y system, nid oedd y polisi hwn yn rhywbeth annisgwyl:

“We’ve had an eliminate programme in place now for the best part of three years (...) where local authorities have been able to prepare and to build capacity within their own areas for moving towards a not-for-profit provision.”

269. Dywedodd ei bod yn gweld y broses drosiannol yn symud yn ei blaen yn gymharol gyflym o fis Ebrill 2026 ymlaen.

270. Byddai'n allweddol, meddai, parhau â thrafodaethau gyda'r sector ynghylch cael cymaint ohonynt â phosibl i drosglwyddo i un o'r modelau nid-er-elw a gynigir yn y Bil hwn:

“We know that there are many good providers there who we think we could really work well with by transitioning them to not-for-profit deliverers of children’s care.”¹⁸²

¹⁸⁰ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin

¹⁸¹ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 114

¹⁸² Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 62

271. Mewn perthynas â lleoliadau diogel, dywedodd y Gweinidog mai'r bwriad oedd lleihau nifer y plant mewn llety diogel neu lety haen 4 oherwydd y gall hynny arwain at eu lleoli ymhellach o'u cartref. Cadarnhaodd fod darpariaeth ddiogel yn sicr yn rhan o'r rhaglen dileu elw a bod y llywodraeth yn edrych yn arbennig ar lety llai sydd wedi'i leoli'n rhanbarthol i gefnogi plant yn eu hardaloedd eu hunain¹⁸³

272. Mewn perthynas â gwaith ar ddigonolrwydd, dywedodd Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, fod Llywodraeth Cymru, yn ddoeth ac yn briodol, wedi bod yn defnyddio cyllid o nifer o ffynonellau yn ychwanegol at y £68 miliwn ar gyfer y rhaglen ddileu, gan gynnwys y gronfa integreiddio ranbarthol, gan weithio gyda byrddau partneriaeth rhanbarthol i ddechrau datblygu lleoliadau'n lleol. Er bod y broses honno'n cymryd amser, meddai, mae'r hedyn hwnnw o gyllid yn dechrau dwyn ffrwyth yn awr, ac mae lleoliadau ychwanegol yn cael eu cynllunio.¹⁸⁴

Darparwyr preifat yn gadael y maes yn ddi-drefn

273. Fe wnaethom godi gyda'r Gweinidog bryderon y rhanddeiliaid ynghylch y posibilrwydd y gallai darparwyr preifat adael yn ddi-drefn a goblygiadau hyn i'r plant a'r bobl ifanc sydd dan eu gofal ar hyn o bryd. Wrth ymateb i hyn, dywedodd nad oedd hyn yn rhywbeth yr oedd y llywodraeth yn ei gyflwyno'n annisgwyl i awdurdodau lleol, a'i fod, yn hytrach, yn rhywbeth y maent wedi bod yn paratoi ar ei gyfer dros gyfnod o amser.¹⁸⁵

274. Aeth ymlaen i ddweud:

*"we actually have seen, in the system, over the last year or so applications for another 24 or 25 for-profit providers wanting to come in and set up in Wales in the full knowledge that they may well be expected to transition to a not-for-profit model at some point in the future. So, it's really not putting anybody off at the moment"*¹⁸⁶.

(...) And we have seen no for-profit providers exit the system knowing that this legislation is around the corner. So, again, I

¹⁸³ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 90

¹⁸⁴ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 81

¹⁸⁵ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 114

¹⁸⁶ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 29

*am not convinced by the argument that we're going to see a mass exodus, disorderly or otherwise.*¹⁸⁷

275. Ymhellach, dywedodd Anthony Jordan wrthym:

*"We've seen one adoption service, one adult and children's home without nursing and a total of four children's homes voluntarily exit the sector, which is a very low number. Our proposals have been known throughout that time. (...) All of the statutory framework we've put around transition has been designed in order to avoid any need for providers to exit, certainly in a disorderly way, and actually in any way at all, if they can get behind our agenda."*¹⁸⁸

276. Cydnabu Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfarwyddiaeth Galluogi Pobl, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru, fod angen i Lywodraeth Cymru weithio'n agosach gyda rhai awdurdodau lleol, yn dibynnu ar lefel y gofal a ddarperir yn breifat yn eu hardal:

*"We've got over 1,000 children in care in Cardiff and about 80 per cent in private provision. So, that's one of the local authorities we really will need to work closely with. You'll find others with very little provision from the private sector. So, part of this is we know that we have variation across Wales in terms of rates of children in care, but also their reliance on private because, generally, they're the bigger geographical areas."*¹⁸⁹

277. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n gobeithio y bydd y broses drosiannol yn drefnus, oherwydd i lawer o'r darparwyr hynny, byddant yn dal i fod wedi'u contractio i barhau i ofalu am blant yng Nghymru. A bydd rôl o hyd ar gyfer rhai lleoliadau arbenigol.¹⁹⁰

278. Cadarnhaodd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod â darparwyr presennol:

"We don't want these providers to leave the sector. Some of them are providing excellent care for children and we would

¹⁸⁷ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 53

¹⁸⁸ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 54

¹⁸⁹ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 118

¹⁹⁰ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 53

*want to retain that expertise and that excellence in the system. So, it is in our interest to work with them and to work with them in the process of transition.*¹⁹¹

Amserlenni ar gyfer y trefniadau trosiannol

279. O ran yr amserlenni i endidau er elw presennol newid i fodel nid-er-elw, dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn uchelgeisiol iawn o ran y rhaglen hon a'i bod, o fis Ebrill 2027, yn disgwyl gweld darparwyr nid-er-elw presennol yn trosglwyddo i un o'r pedwar model a gynigir yn y Bil.¹⁹²

280. Fe wnaethom herio'r Gweinidog ynghylch yr amseriadau arfaethedig, o ystyried y dystiolaeth a glywsom am y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â newid modelau i gwmni cyfyngedig drwy warant neu unrhyw fath o endid elusennol. Cydnabu, yn dibynnu ar faint a natur y sefydliad, y bydd yn symlach i rai wneud hynny nag eraill. Dywedodd wrthym hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu bwrdd dileu, a bod y darparwyr er elw ac nid-er-elw yn rhan o'r rhaglen drosiannol honno, felly maent yn rhan fawr o'r trafodaethau ynglŷn â sut y gallant drosglwyddo i un o'r modelau newydd.¹⁹³

281. Ymhellach i'r pwynt hwnnw, dywedodd Anthony Jordan:

*"we are working on the minimum really, realistically, that there will be a two-year period between the Bill (...) receiving Royal Assent and the first restrictions coming in on existing providers and their ability to take placements. That, we think, is a reasonably generous amount of lead-in time, and, of course, it's not a cliff edge. Providers will still be able to operate in their legacy for-profit mode for a period of time, but that will be controlled by provisions we have put in the Bill around approval of placements."*¹⁹⁴

282. O ran hyd y cyfnod trosiannol, dywedodd y Gweinidog wrthym y "bydd hyn yn cael ei bennu gan amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys lefel y galw am leoliadau mewn gwasanaethau cyfyngedig, a chyflymder y broses o ddisodli lleoliadau er-elw gyda darpariaeth nid-er-elw. Bydd angen gwneud unrhyw

¹⁹¹ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 29

¹⁹² Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 19

¹⁹³ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 21

¹⁹⁴ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 25

benderfyniad i ddod â'r trefniadau trosiannol i ben mewn modd ac ar adeg sy'n gydnaws â hawliau'r Confensiwn."¹⁹⁵

283. Aeth ymlaen i ddweud, "o gofio'r lluoedd newidynnau a'r effaith bosibl ar blant sy'n agored i niwed pe bai eu lleoliadau parhaol yn dod i ben yn rhy fuan, ni fyddai'n ddoeth ar hyn o bryd rhagamcanu a gosod ar wyneb y Bil pryd y daw'r pwynt gorau hwn".¹⁹⁶

284. Yn ddiweddar, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, o ran y pwerau gwneud rheoliadau i bennu dyddiadau ar gyfer diwedd y cyfnod trosiannol, y "byddai'n agored i Weinidogion Cymru ddod â'r cyfnod pontio i ben fesul cam, gan ganiatáu i awdurdodau lleol sydd â'r dasg o ddileu dibyniaeth ar ddarparwyr er elw gael mwy o amser, ond cyflwyno gweithredu llawn ar gyfer ardaloedd eraill yn gynt."

285. Fe wnaethom ofyn iddi am y risgiau sy'n gysylltiedig â dull gweithredu fesul cam o'r fath, ac a allai trin awdurdodau lleol yn wahanol fod yn 'gymhellant gwrthnysig' i awdurdodau lleol gadw'r sefyllfa fel y mae. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

*"Local authorities are at different stages of the process, and so you can't force everybody to get to the same place at the same time; that's part of what we're trying to do. It's part of what the elimination programme is about with local authorities that we're investing in to give them the resources to be able to build that capacity."*¹⁹⁷

286. Gan ychwanegu at hynny, dywedodd Anthony Jordan fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth yn hyn o beth er mwyn ystyried awdurdodau lleol sy'n ei chael hi'n wirioneddol anodd dileu elw o fewn yr amserlenni gofynnol. Dywedodd hefyd fod y llywodraeth yn meddwl am y gwahaniaeth rhwng gwahanol fathau o wasanaeth:

"So, it might be that, actually, we could bring the transition period for fostering services to a close rather more quickly than we could for residential care services, because I think the signs

¹⁹⁵ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

¹⁹⁶ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

¹⁹⁷ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 64

are more positive there that fostering services will wish to transition.

(...) and the same with secure accommodation services where there are, currently, no for-profit providers of secure accommodation. So, we might want to bring that in more quickly again still. That's essentially the way we're thinking of using that particular power."¹⁹⁸

Eithriadau er mwyn caniatáu darpariaeth 'nid-er-elw'

Lleoliadau atodol

287. Mewn perthynas â lleoliadau atodol, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn gallu gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru i gymeradwyo lleoliadau. Cadarnhaodd hefyd na fyddai'r Bil yn atal awdurdodau lleol rhag lleoli plentyn mewn lleoliad atodol cyn cael cymeradwyaeth Weinidogol¹⁹⁹, ac y caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi Cod Ymarfer o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i egluro'r disgwyliadau o ran ymarfer yn y maes hwn²⁰⁰.

288. Cadarnhaodd y Gweinidog, ar ôl diwedd y cyfnod trosiannol, y byddai angen i unrhyw leoliad ar gyfer plentyn mewn darpariaeth er elw fod y tu allan i Gymru gan na fyddai'n bosibl cofrestru fel darparwr er elw yng Nghymru. Aeth ymlaen i ddweud:

"Er hynny, o gofio y bydd digonolrwydd darpariaeth nid-er-elw yn ffactor amlwg wrth benderfynu a ddylid dod â'r trefniadau pontio i ben, rydym yn rhag-weld na fydd y rheidrwydd i awdurdod lleol yng Nghymru leoli plentyn mewn darpariaeth er elw yn Lloegr ar ôl y pwynt hwnnw yn codi ond mewn amgylchiadau eithriadol."²⁰¹

¹⁹⁸ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 66

¹⁹⁹ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 123; Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

²⁰⁰ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

²⁰¹ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024 a Chofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 128

289. At hynny, cadarnhaodd Albert Heaney fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn cwrdd â chydweithwyr yn llywodraeth y DU i drafod materion trawsffiniol, gan fod y ddwy lywodraeth eisiau gweld eu plant eu hunain yn cael gofal yn nes at adref.²⁰²

290. Mewn perthynas â'r meini prawf sydd i'w defnyddio gan Weinidogion Cymru wrth asesu cais am leoliad atodol, dywedodd y Gweinidog wrthym:

“Bydd Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio ag adran 81B(4) sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt roi cymeradwyaeth os ydynt wedi'u bodloni bod amodau'r is-adran honno wedi'u bodloni.

Bydd angen iddynt fod yn fodlon bod y cais wedi'i wneud yn unol â'r gofynion a bod yr awdurdod lleol wedi gwneud digon i ddangos nad oes lleoliad amgen gyda darparwr nid-er-elw sy'n diwallu anghenion y plentyn a bod y lleoliad arfaethedig yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau.”²⁰³

291. Fe wnaethom gyflwyno i'r Gweinidog dystiolaeth a glywsom gan Arolygiaeth Gofal Cymru ynghylch y potensial i'r Bil 'gyfreithloni' a normaleiddio lleoliadau anghofrestredig yng Nghymru oherwydd, fel y'i drafftwyd, nid yw'n gwahardd defnyddio unrhyw leoliad anghofrestredig ar gyfer plentyn o unrhyw oedran, a hefyd oherwydd bod paragraff 55 o'r Nodiadau Esboniadol yn cyfeirio at leoliad sy'n golygu rhoi llety i blentyn mewn llety anghofrestredig dros dro neu mewn achosion brys.

292. Mewn ymateb i hynny, cadarnhaodd y Gweinidog:

“Mae'r Llywodraeth yn glir na fydd y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â chymeradwyo lleoliadau atodol yn gweithredu i bob pwrpas i 'gyfreithloni' na normaleiddio lleoliadau anghofrestredig. Mae'r darpariaethau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymeradwyo lleoliad gyda darparwr er elw cofrestredig sy'n darparu gofal preswyl neu ofal maeth i blant ac sy'n ddarostyngedig i'r trefniadau trosiannol ehangach a nodir yn y Bil. Ni fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi lleoliad anghofrestredig.”

293. Dywedodd ei bod “ymwybodol bod rhywfaint o ddryswch wedi bod ynghylch y cyfeiriad at 'lety anghofrestredig' yn Nodiadau Esboniadol y Bil” ac mai'r bwriad

²⁰² Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 126

²⁰³ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

oedd cyfeirio at “lety lle nad oes unrhyw ofyniad i gofrestru gan nad yw’r lleoliad gyda gofalwr maeth a chan fod y trefniadau y tu hwnt i’r diffiniad o “wasanaeth cartref gofal”.

294. Aeth ymlaen i ddweud:

“Mae defnydd mwy diweddar o’r termau “llety anghofrestredig” a “llety heb ei reoleiddio” wedi tueddu i wahaniaethu rhwng y ddau beth. Mae’r term llety anghofrestredig yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at drefniadau sy’n dod o fewn cwmpas gweithgarwch lle mae gofyniad i gofrestru ond lle nad yw’r darparwr wedi’i gofrestru mewn gwirionedd ac mae llety heb ei reoleiddio yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at drefniadau sy’n disgyn y tu allan i gwmpas gweithgarwch a reoleiddir ac felly lle nad oes angen cofrestru.

Nid y cyntaf yw ystyr “anghofrestredig” yn y Nodiadau Esboniadol.”

295. Cadarnhaodd y byddai’r Nodiadau Esboniadol yn cael eu hadolygu i egluro’r pwynt hwn.²⁰⁴

296. Mewn perthynas â’r potensial ar gyfer y defnydd cynyddol o lety anghofrestredig a Gorchmynion Amddifadu o Ryddid, fe wnaethom ofyn i’r Gweinidog a oedd yn pryderu y gallai’r materion hyn waethygu yn y tymor byr i’r tymor canolig wrth i elw gael ei dynnu allan o’r sector. Dywedodd wrthym:

“Work on that has already been taking place, and we are seeing the numbers of services operating without registration falling, in terms of the placements (...) we’re looking towards the minimal use of unregistered placements as well. It’s about increasing and building the resilience into the arrangements of suitable places. That’s what this whole programme is focused on.”²⁰⁵

²⁰⁴ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 6 Medi 2024

²⁰⁵ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 92

Yr effaith ar blant yr effeithir arnynt gan y Bil

Cynnig gweithredol o eiriolaeth

297. Mewn perthynas â'r alwad gan rai rhanddeiliaid am gynnig gweithredol o eiriolaeth i blant a phobl ifanc mewn gofal, dywedodd y Gweinidog na fyddai'n rhan o'r ddeddfwriaeth hon.

298. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn awyddus iawn i sicrhau bod lleisiau plant yn parhau i gael lle canolog ac os oes angen mynediad ar blant at y lefel honno o gefnogaeth yna dylid ceisio hwyluso hynny.²⁰⁶

299. Dywedodd Penny Hall fod hwn yn fater yr oedd Llywodraeth Cymru yn siarad â darparwyr gwasanaethau eiriolaeth yn ei gylch.²⁰⁷

Materion eraill yn ymwneud â phlant

Llety 'o fewn ardal yr awdurdod neu'n agos iddi'

300. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog a allai'r Bil alluogi awdurdodau lleol i leoli plant ymhellach o'u cartrefi nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd, fel yr awgrymwyd inni gan rai rhanddeiliaid.

301. Cadarnhaodd y Gweinidog mai bwriad polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn oedd caniatáu i awdurdodau lleol leoli plentyn ychydig dros y ffin mewn awdurdod lleol arall, yn hytrach nag ymhellach i ffwrdd o fewn eu ffin eu hunain. Aeth ymlaen i ddweud:

"we're very clear that what that means is it's near to where the child lives and that that is more important than whether it actually sits within a county boundary".²⁰⁸

302. Cadarnhawyd hyn ymhellach mewn gohebiaeth, lle y dywedodd:

"Ein bwriad yw peidio â newid yr hyn sydd er budd gorau'r plentyn. Os y farn broffesiynol yw y dylai'r plentyn fod o fewn ardal yr awdurdod lleol, yna ni fwriedir i'r cyfeiriadau at "agos" yn narpariaethau'r cynllun digonolrwydd newid hynny.

²⁰⁶ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 68

²⁰⁷ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 70

²⁰⁸ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 77

Yr awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i nodi, comisiynu a darparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar blant a phobl ifanc. (...) Efallai y bydd cyfleoedd i drefnu lleoliadau yn agos at gymunedau plant sydd dros ffin awdurdod lleol ond sy'n agosach at gymuned gartref plentyn na lleoliad arall ar ben arall ardal awdurdod lleol. Mae ein dull gweithredu pragmataidd yn caniatáu ar gyfer hyn ac yn hwyluso mwy o weithio mewn partneriaeth i greu darpariaeth newydd yn rhanbarthol.”²⁰⁹

Cynlluniau digonolrwydd

303. Mewn perthynas â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi cynllun digonolrwydd blynyddol ar gyfer llety i blant sy'n derbyn gofal, gofynnwyd i'r Gweinidog nodi'r rhesymau pam y gallai Llywodraeth Cymru wrthod cynllun digonolrwydd a pham nad yw'r Bil yn dweud beth fydd yn digwydd os gwrthodir ail ddrafft o gynllun digonolrwydd.

304. Wrth ymateb i hyn, dywedodd fod yn rhaid i'r cynllun digonolrwydd fanylu ar y camau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd yn y flwyddyn honno i gyflawni ei ddyletswydd digonolrwydd a rhaid iddo gynnwys gwybodaeth benodol, gan gynnwys amcangyfrif o nifer y plant y bydd yr awdurdod lleol yn gofalu amdanynt na fydd modd iddo eu lleoli mewn darpariaeth nid-er-elw; asesiad o'r llety sydd ar gael yn ogystal ag i ba raddau y mae'r llety hwnnw o fewn ardal yr awdurdod lleol neu'n agos ati. Rhaid darparu gwybodaeth ragnodedig arall hefyd.

305. Aeth ymlaen i ddweud, os bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl craffu ar y cynlluniau, yn ystyried nad yw'r wybodaeth ofynnol wedi'i darparu neu fod y cynnydd tuag at ddarpariaeth nid-er-elw yn anfoddhaol, y gallai Gweinidogion Cymru wrthod cymeradwyo'r cynllun. Os felly, rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod lleol, rhoi rhesymau a phennu cyfnod ar gyfer cyflwyno cynllun arall.

306. Cadarnhaodd fod y Bil yn darparu bod yr un broses yn berthnasol pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo drafft pellach, ac “felly mae'n amlwg y caiff Gweinidogion Cymru barhau i gadw cymeradwyaeth ar gyfer fersiynau olynol o gynllun digonolrwydd awdurdod lleol yn ôl”.²¹⁰

²⁰⁹ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

²¹⁰ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

Trefniadau adrodd gorfodol

307. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pam yr oedd Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â gwneud darpariaeth yn y Bil mewn perthynas â threfniadau adrodd gorfodol gan unigolion penodol am achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Dywedodd fod y Llywodraeth wedi dod i'r penderfyniad hwn ar ôl trafod ac ymgynghori'n uniongyrchol gyda'i rhanddeiliaid a phartneriaid diogelu a'i bod yn credu mai'r dull presennol, sy'n gorfodi sefydliadau i adrodd yn hytrach nag unigolion, yw'r dull cywir i Gymru. Ychwanegodd nad oedd unrhyw beth tebyg i'r mandad hwn ar sefydliadau yng Nghymru yn unman arall yn y DU.²¹¹

308. Gan ychwanegu at hyn, dywedodd Albert Heaney wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos iawn gyda'r ymchwiliad annibynnol i gam-drin plant yn rhywiol yn ystod ei waith, gan edrych bob amser y gwersi i'w dysgu, cymryd y mater o ddifrif, a chydabod yr effaith ar ddiodefwrwr a bywydau teuluoedd. Dywedodd y bydd y Llywodraeth bob amser yn parhau i geisio cryfhau ei threfniadau diogelu.²¹²

309. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan lywodraeth flaenorol y DU yn y maes hwn a fethodd pan gafodd y Senedd ei haddoedi. Dywedodd:

*"We don't yet know if the new UK Government will want to resurrect that piece of legislation. If they do, it might be an opportune time for us to have the conversation with them around that."*²¹³

Ein barn ni

Rhaid i ddarparwyr fod yn ddarparwyr nid-er-elw

Modelau busnes a ganiateir

310. Mae'r mwyafrif ohonom yn gwrthwynebu'r egwyddor bod cwmnïau ecwiti preifat mawr yn gallu gwneud elw o ddarparu gofal i'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Rydym yn cydnabod bod trefniadau o'r math hwn yn bodoli yng Nghymru i raddau, ac mae'r mwyafrif ohonom yn cefnogi'r nod o ddod â hyn i ben.

²¹¹ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraffau 21-29

²¹² Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 36

²¹³ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 79

311. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod mentrau eraill, llai sydd ar waith ar hyn o bryd yn darparu gofal lleol o ansawdd da, gan gyflogi pobl leol. Os caiff y Bil hwn ei basio, credwn y dylid annog a chefnogi darparwyr o'r fath i newid i fodel gweithredu nid-er-elw gwahanol.

312. Yn fwy cyffredinol, credwn ei bod yn sylfaenol bwysig bod llety o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael ei ddarparu lle mae ei angen; gan gadw'r plentyn hwnnw'n agos at ei deulu a'i ffrindiau, a'i gysylltiadau cymunedol ehangach, a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r plentyn hwnnw.

313. I'r perwyl hwn, mae'r mwyafrif ohonom yn cefnogi'r modelau busnes a gynigir yn y Bil i'r graddau eu bod yn ceisio rhoi terfyn ar dynnu elw preifat allan o ofal plant sy'n derbyn gofal.

314. Nodwn, fodd bynnag, dystiolaeth gan nifer o randdeiliaid, yn enwedig y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chonsortiw m Comisiynu Cymru ar gyfer Plant, ynghylch ymchwilio ymhellach i fodelau eraill a fyddai'n hyrwyddo egwyddorion menter gymdeithasol.

315. Rydym yn cydnabod bod trafodaethau ar y gweill rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaid am hyn. Credwn fod gwerth mewn parhau â'r sgysiau hynny a thrafod, gyda phartneriaid, fodelau eraill a fyddai'n ddeniadol i ddarparwyr presennol gan gadw'r ethos nid-er-elw ar yr un pryd.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda phartneriaid i ymchwilio i fodelau busnes na ddarperir ar eu cyfer yn y Bil ar hyn o bryd, a fyddai'n hyrwyddo egwyddorion menter gymdeithasol ond yn parhau i fod yn fodelau nid-er-elw.

316. Wrth gefnogi'r modelau busnes a gynigir yn y Bil, rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i ddysgu o brofiadau mewn mannau eraill, a sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei geirio'n ddigon penodol i atal cwmnïau preifat rhag osgoi'r rheolau drwy ddulliau cyfreithiol neu weinyddol cymhleth.

317. Credwn y byddai'n ddoeth i'r Bil gynnwys pwerau gwneud rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i gymryd camau i gau unrhyw fylchau sy'n galluogi cwmnïau i dynnu elw preifat allan, pe bai bylchau o'r fath yn dod i'r amlwg yn y dyfodol. Dylai pwerau o'r fath ofyn am ystyriaeth lawn a chydysyniad y Senedd cyn iddynt gael eu cymeradwyo.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil i gynnwys pwerau gwneud rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i gymryd camau i gau unrhyw

fylchau sy'n galluogi cwmnïau i dynnu elw preifat allan o ofal plant sy'n derbyn gofal, pe bai bylchau o'r fath yn dod i'r amlwg yn y dyfodol. Dylai rheoliadau o'r fath fod yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol.

Cymorth i ddarparwyr i drosglwyddo i'r model nid-er-elw

318. Rydym yn cydnabod, i'r rhai sy'n dymuno trosglwyddo i fodel nid-er-elw, na fydd hon o reidrwydd yn broses hawdd neu syml. Mae'n debygol y bydd yn golygu dirwyn eu busnes presennol i ben a sefydlu endid newydd, nid-er-elw, gyda'r holl waith a chostau sy'n gysylltiedig â hynny.

319. Roedd hyn yn destun pryder gwirioneddol i randdeiliaid mewn cyfnod o ansicrwydd mawr i lawer pan fyddant yn wynebu penderfyniadau pwysig am ddyfodol eu busnesau. Byddai cynnig clir a manwl o ganllawiau a chymorth gan Lywodraeth Cymru, yn nodi pa gymorth y gallent ddisgwyl ei gael a phryd y byddai hwnnw ar gael, yn rhoi sicrwydd iddynt. Dylai hyn fod yn rhan o gynllun cyfathrebu ac ymgysylltu dwysach gyda darparwyr preifat ac annibynnol, wedi'i gynllunio i roi mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch y broses drosiannol.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru baratoi a chyhoeddi cynnig manwl ynghylch y canllawiau a'r cymorth a fydd ar gael i ddarparwyr preifat ac annibynnol sy'n dymuno trosglwyddo i fodel nid-er-elw. Dylid gwneud hyn ar fyrder, a dylid llunio cynllun cyfathrebu i gyd-fynd â nhw.

Costau ac arbedion posibl

320. Mae cost darparu gofal i blant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu'n aruthrol dros y degawd diwethaf, ac mae'r rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn dangos sefyllfa sy'n anghynaliadwy ar gyfer cyllid cyhoeddus.

321. Bu llawer o drafodaeth ynghylch costau amcangyfrifedig Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r Bil, a'i dehongliad o adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Roedd darparwyr preifat, yn arbennig, yn dadlau'n gryf nad oedd 'elw' yn cyfateb i ansawdd gwael, a bod costau darparu gofal preswyl a gofal maeth awdurdodau lleol wedi'u tanamcangyfrif.

322. Mae'n amlwg y bydd polisi 'dileu elw' Llywodraeth Cymru yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol, yn enwedig yn y tymor byr i'r tymor canolig, wrth i'r cyfrifoldeb am ddarparu gofal digonol a chynaliadwy i blant sy'n derbyn gofal symud i ddwylo awdurdodau lleol, ac nad yw graddau hynny'n hysbys ar hyn o bryd. Mae hyn, wrth gwrs, ar adeg pan fo'r adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol eisoes dan bwysau aruthrol.

323. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo £68 miliwn yn uniongyrchol i'r polisi hwn, ynghyd â chyllid ychwanegol o nifer o ffrydiau eraill, ond roedd galw mawr, yn enwedig gan awdurdodau lleol a chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, i Lywodraeth Cymru wneud ymrwymiad clir i'r cyllid a fyddai ar gael yn y dyfodol i gefnogi awdurdodau lleol y tu hwnt i'r cyfnod trosiannol.

324. Mae'r Gweinidog wedi dweud ei bod yn cydnabod y pwysau ariannol y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu, ond nad oes cyllideb y cytunwyd arni y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon. Nid ydym yn credu bod hon yn sefyllfa foddhaol,

325. O dan y polisi hwn, bydd awdurdodau lleol yn rhagdybio bod lefel sylweddol o risg o ganlyniad i ansicrwydd yn y dyfodol ynghylch nifer y darparwyr a fydd yn cytuno i drosglwyddo, effaith y polisi ar y gweithlu, amhariad posibl ar leoliadau ac effeithiau negyddol ar y canlyniadau i blant, a'r potensial i'r buddsoddiad sydd ei angen fod yn fwy na'r disgwyl. Rhaid rhoi darlun clir i awdurdodau lleol o'r cymorth ariannol y gallant ddisgwyl ei gael gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol ar gyfer cyflawni eu cyfraniad at yr ymrwymiad allweddol hwn yn y maniffesto.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru wneud ymrwymiad clir i lefel y cyllid a'r cymorth a fydd ar gael i awdurdodau lleol yn y dyfodol y tu hwnt i'r cyfnod trosiannol i gefnogi'r agenda 'dileu elw'. Fel isafswm, dylai hwn amlinellu'r cyllid ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a fydd yn gyfnod hollbwysig i awdurdodau lleol o ran datblygu eu darpariaeth eu hunain.

326. Yn fwy cyffredinol, mae'r Gweinidog wedi dweud ei bod yn disgwyl y bydd awdurdodau lleol yn dechrau gweld arbedion o fewn cyfnod o ddeng mlynedd. Yn amlwg, o ystyried arwyddocâd y polisi, yr ymrwymiad ariannol dan sylw a lefel yr ansicrwydd yn y dyfodol, bydd angen i Lywodraeth Cymru roi trefniadau monitro a gwerthuso ariannol cadarn ar waith.

327. Rydym yn ymwybodol y bydd rôl i Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw o ran monitro a gwerthuso gweithrediad y bennod hon o'r Bil. Ymhellach, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi, dros y misoedd nesaf, i werthusiad ac adolygiad mwy ffurfiol o'r polisi²¹⁴. Dylai'r Gweinidog roi mwy o fanylion am y ddwy elfen hyn, gan gynnwys manylion am sut y bydd canlyniadau'r cyllid a ddarperir yn y maes hwn yn cael eu monitro a'u gwerthuso.

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu atom, o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, gyda manylion am y canlynol:

²¹⁴ Memorandwm Esboniadol, tudalen 148

- y gwaith a wnaed gan Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw o ran monitro a gwerthuso gweithrediad y polisi 'dileu elw' hyd yn hyn;
- y gwerthusiad mwy ffurfiol o'r Bil a gynigir gan y Gweinidog, gan gynnwys pwy fydd yn ymwneud â'r adolygiad, ei gylch gorchwyl a pha mor aml y bydd yn adrodd.

Y cyfnod trosiannol a sicrhau bod digon o leoliadau ar gael i ateb y galw

328. Y cyfnod trosiannol a sicrhau bod digon o leoliadau ar gael oedd dau o'r prif bryderon i randdeiliaid o ran y polisi 'dileu elw', yn enwedig o ystyried yr heriau hirdymor, sy'n bodoli eisoes o ran sicrhau digon o leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol Cymru mewn gofal maeth a gofal preswyl fel ei gilydd.

329. Er gwaethaf polisiau a chyllid sy'n ceisio gwrthdroi'r duedd, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu'n sylweddol dros y deng mlynedd diwethaf, ac mae eu hanghenion yn cynyddu o ran cymhlethdod.

330. Fel pwyllgor, mae gennym bryderon gwirioneddol ynghylch gweithredu Rhan 1 o'r Bil, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Ni ellir diystyru maint yr her sy'n wynebu awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr eu hunain.

331. Mae risgiau enfawr i ddigonolrwydd ac addasrwydd lleoedd preswyl a maeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig yn y tymor byr i'r tymor canolig, wrth i nifer anhysbys o ddarparwyr adael y farchnad ac wrth i awdurdodau lleol a'r trydydd sector weithio i feithrin gallu. Gallai hyn, yn ei dro, gynyddu'r heriau sydd eisoes yn sylweddol o ran dod o hyd i lety addas, sefydlog a diogel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig y rhai a chanddynt anghenion mwy cymhleth. Yr hyn sy'n peri'r pryder mwyaf yn hyn oll yw'r potensial ar gyfer canlyniadau negyddol i blant a phobl ifanc os na chaiff y cyfnod trosiannol ei reoli'n effeithiol.

332. Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau cyfnod trosiannol trefnus sy'n lleihau, cymaint â phosibl, unrhyw darfu ar blant a phobl ifanc sydd mewn lleoliadau er elw diogel a sefydlog ar hyn o bryd. Drwy gydol y broses hon, mae'n rhaid i rhoi'r flaenoriaeth bennaf i anghenion plant a phobl ifanc, gan ganolbwyntio ar sicrhau digonolrwydd a sefydlogrwydd lleoliadau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion yr unigolyn, darparu amgylchedd diogel a chefnogol sydd wedi'i gynllunio i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer plant a phobl ifanc, a sicrhau cysylltiadau agos â theulu, ffrindiau, a gwasanaethau addysg a chymorth.

333. Roeddem yn bryderus o glywed bod y sefyllfa ar draws awdurdodau lleol o ran y ddarpariaeth bresennol mor amrywiol. Bydd trefniadau gweithio rhanbarthol parhaus, helaethach yn bwysig yn yr ymdrech i sicrhau digonolrwydd yn y dyfodol.

334. Rydym hefyd yn pryderu y gall diffyg darpariaeth ddigonol arwain at gynnydd mewn lleoliadau y tu allan i'r ardal neu mewn llety anghofrestredig, yn enwedig ar gyfer y rhai ag anghenion mwy cymhleth neu'r rhai y mae angen cartrefi arbenigol arnynt.

Darparwyr yn gadael y maes yn ddi-drefn

335. Mae lefel yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r Bil i'w deimlo gryfaf yn y potensial i nifer anhysbys o ddarparwyr adael y farchnad mewn ffordd ddi-drefn. Gallai hyn arwain at oblygiadau enfawr o ran digonolrwydd yn y dyfodol, gan greu prinder sydyn a dybryd o leoliadau os bydd nifer uwch na'r disgwyl o ddarparwyr yn gadael y farchnad yn gyflym.

336. Dywedodd y bobl ifanc y buom yn siarad â nhw fod sefydlogrwydd a chysondeb lleoliadau yn bwysig iawn iddynt.

337. Mae'n hanfodol bod darparwyr presennol yn cael cynnig cyngor a chymorth i drosglwyddo i un o'r modelau busnes newydd. Rydym wedi amlinellu ein barn ar hyn ym mharagraffau 318-319 ac Argymhelliad 4.

338. Bydd hefyd angen ystyried effaith y Bil ar y gweithlu gofal cymdeithasol, a ddisgrifir yn gyson fel gweithlu sydd "mewn argyfwng". Clywsom dystiolaeth y byddai'r Bil yn gwaethygu'r pwysau presennol ar y gweithlu, gyda staff yn dewis gadael y sector yn gyfan gwbl. Gallai hyn, yn ei dro, arwain at lawer o leoliadau preswyl a maethu yn dod i ben yn ddisymwth, gan gollu blynyddoedd o brofiad a sgiliau. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi gynllun cadarn ar waith i gefnogi a chadw'r gweithlu gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod trosiannol.

339. Nodwn fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi codi pryderon yn gyson am yr heriau sy'n wynebu'r gweithlu gwasanaethau plant. Mae wedi gwneud hyn yn benodol yng nghyd-destun cymorth i blant sydd wedi bod mewn gofal yn ei adroddiad: **Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.** Mae'r dystiolaeth a glywsom yn awgrymu bod y problemau hyn yn parhau ac rydym yn tynnu sylw'r Gweinidog at argymhellion y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc mewn perthynas â'r mater hwn.

340. Mewn perthynas â darparu lleoliadau diogel, nodwn gadarnhad y Gweinidog fod darpariaeth ddiogel yn rhan o raglen dileu elw Llywodraeth Cymru, a bod gwaith ar y gweill i sicrhau y darperir llety addas, rhanbarthol.

Sut i gefnogi'r sector nid-er-elw

341. O ran cefnogaeth i'r sector nid-er-elw, rydym yn tynnu sylw'r Gweinidog at y dystiolaeth a glywsom mewn perthynas â chreu cofrestr gofal cymdeithasol ar gyfer gofalwyr maeth er mwyn sicrhau bod ganddynt yr un statws â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal preswyl.

342. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi derbyn yn rhannol argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y mater hwn. Ar y sail hon, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr argymhelliad a wnaed inni gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sef “y dylid diwygio Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) i'w gwneud yn orfodol i ofalwyr maeth gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn darparu lleoliadau maeth i blant sy'n derbyn gofal, a thrwy hynny gyflymu'r cynnydd tuag at sefydlu cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth”.

343. Rydym hefyd yn tynnu sylw'r Gweinidog at y dystiolaeth a gawsom am yr angen i gyfathrebu'n glir â theuluoedd maethu ynghylch y cyfnod trosiannol a'r hyn y bydd yn ei olygu iddynt.

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog ystyried argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n seiliedig ar ei waith craffu helaeth ar y maes polisi hwn, sef “y dylid diwygio Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) i'w gwneud yn orfodol i ofalwyr maeth gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn darparu lleoliadau maeth i blant sy'n derbyn gofal, a thrwy hynny gyflymu'r cynnydd tuag at sefydlu cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth”, ac ymateb i'r argymhelliad hwnnw.

Amserlenni ar gyfer y trefniadau trosiannol

344. Fel y'i drafftwyd, nid yw'r Bil yn cynnwys amseriadau penodol ar gyfer y cyfnod trosiannol, er ein bod yn nodi dystiolaeth y Gweinidog bod Llywodraeth Cymru yn uchelgeisiol iawn o ran y rhaglen hon, ac yn gweld y cyfnod trosiannol yn symud yn gymharol gyflym o fis Ebrill 2026 ymlaen.

345. Cawsom lawer o dystiolaeth gan randdeiliaid yn nodi eu pryderon manwl ynghylch yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn amserlenni afrealistig ar gyfer y cyfnod trosiannol a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru, a sut y gallai hyn

waethygu'r problemau digonolrwydd presennol yn sgil colli'r ddarpariaeth bresennol yn sydyn. Mae hyn yn rhywbeth yr oedd awdurdodau lleol a'r trydydd sector, yn arbennig, yn wirioneddol bryderus yn ei gylch. Anogwn y Gweinidog i roi ystyriaeth lawn i'r pryderon hyn.

346. Rydym hefyd yn tynnu ei sylw at alwadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i "nodi'n glir ddyddiad gorffen ar gyfer y trefniadau trosiannol, ar ôl ymgynghori'n llawn ac mewn modd adeiladol yn gyntaf gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn sicrhau nad yw diffyg lleoliadau nid-er-elw yn gwthio plant i lety anghofrestredig nad yw'n ddiogel".

347. Nid oes amheuaeth bod angen amser i drosglwyddo i fodel nid-er-elw newydd, a bod yn rhaid ei reoli'n briodol er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar blant a phobl ifanc, a galluogi'r farchnad i addasu a'r sector nid-er-elw i ehangu.

348. Rydym yn cytuno bod darparu ar gyfer cyfnod trosiannol yn ddull synhwyrol, gan sicrhau nad oes 'ymyl dibyn' yn y broses. Yn yr un modd, teimlwn ei bod yn bwysig bod gan bawb dan sylw syniad clir o'r terfynau amser y maent yn gweithio tuag atynt, gan fod hynny'n darparu canolbwynt. Mae hefyd yn bwysig osgoi sefyllfa hirdymor o 'adael i bethau lithro' ble mae nifer fach o ddarparwyr 'er elw' yn parhau i ddarparu a monopoleiddio'r hyn a oedd yn farchnad fwy o faint yn flaenorol.

349. Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro'r broses drosiannol yn fanwl, gan roi sylw arbennig i lefel y galw am leoliadau, natur y galw hwnnw a pha mor gyflym y caiff gwasanaethau presennol eu disodli gan ddarpariaeth nid-er-elw. Cawsom ein cysuro gan dystiolaeth y Gweinidog y byddai'r ffactorau hyn yn dylanwadu ar unrhyw benderfyniad i ddod â'r cyfnod pontio i ben, ac y gwneir hyn mewn modd ac ar amser sy'n gydnaws â hawliau Confensiwn CCUHP.

350. Bydd yn hanfodol i'r Bil gael ei adolygu'n ofalus, a rhoi sylw manwl i fonitro cynnydd tuag at y nod cyffredinol o ddileu elw preifat. I'r perwyl hwn, credwn y dylai'r Gweinidog ymrwymo i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gynnydd y broses drosiannol, ac y dylid gwneud hyn bob chwe mis o ddyddiad dadl Cyfnod 1.

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog adolygu'r dystiolaeth gan randdeiliaid sy'n nodi eu pryderon sylweddol ynghylch amserlenni'r broses drosiannol a gynigir gan Lywodraeth Cymru, a'u potensial i waethygu'r problemau presennol mewn perthynas â darpariaeth ddigonol, er mwyn sicrhau ei hun bod modd cyflawni'r polisi o fewn yr amserlenni a gynigir, heb gael effaith andwyol ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog baratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cynnydd o ran trosglwyddo i'r model nid-er-elw. Dylai hyn gynnwys diweddariad, fesul awdurdod lleol, ar nifer y lleoliadau sy'n gadael y farchnad a nifer y lleoliadau newydd a grëwyd, a dylai fyfyrion ar sefydlogrwydd y lleoliadau presennol. Dylai hefyd gynnwys manylion yr ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc y mae'r Bil yn effeithio'n uniongyrchol arnynt a'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig gweithredol o eiriolaeth. Dylid gwneud hyn bob chwe mis, gan ddechrau o ddyddiad dadl Cyfnod 1.

Eithriadau er mwyn caniatáu darpariaeth nid er elw

Proses ar gyfer caniatáu lleoliadau ychwanegol

351. Rydym yn cydnabod pryderon rhai rhanddeiliaid ynghylch yr egwyddor o gael cymeradwyaeth Weinidogol ar gyfer lleoliadau atodol, a'u hawgrymiadau ar gyfer awdurdodau priodol eraill a allai fod mewn gwell sefyllfa i roi'r gymeradwyaeth honno. At hynny, nodwn eu pryderon y gallai'r angen am gymeradwyaeth Weinidogol achosi oedi o ran lleoli plentyn mewn argyfwng.

352. Credwn fod y gofyniad am gymeradwyaeth Weinidogol yn ddull pwysig o sicrhau lefel o wirio a chydbwysedd o ran penderfyniad awdurdod lleol i leoli plentyn gyda darparwr er elw, er mai dros dro neu mewn achosion brys y mae hynny. Mae'r egwyddor o gymeradwyaeth Weinidogol ar gyfer rhai penderfyniadau sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol plant wedi'i sefydlu, er bod hyn mewn amgylchiadau penodol iawn sy'n codi'n anaml. Yn achos y Bil hwn, nodwn na ellir rhagweld pa mor aml y byddai angen defnyddio'r broses o gymeradwyaeth Weinidogol ac felly pa mor feichus y gallai hyn fod, yn enwedig mewn achosion lle mae amser yn hollbwysig.

353. Yn achos lleoliadau atodol, credwn y bydd cymeradwyaeth Weinidogol yn cyflwyno lefel bwysig o drylwyrredd i'r broses o wneud penderfyniadau, ac yn atal lleoliadau atodol rhag cael eu 'normaleiddio' yn ystod cyfnod arbennig o heriol, yn enwedig ar gyfer plant ag anghenion mwy cymhleth sydd angen lleoliadau arbenigol ar fyr rybudd.

354. Ymhellach, rydym yn tynnu sylw rhanddeiliaid at gadarnhad y Gweinidog na fyddai'r Bil yn atal awdurdodau lleol rhag lleoli plentyn mewn lleoliad atodol cyn i gymeradwyaeth Weinidogol gael ei rhoi, ac y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn gallu gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru i gymeradwyo lleoliadau, os oes angen. Gobeithiwn y bydd hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ynghylch

hynny, er ein bod yn nodi'r pryderon y gallai hyn olygu bod plentyn yn gorfod symud i leoliad ychwanegol pe na bai caniatâd ôl-weithredol yn cael ei roi.

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod unrhyw ganllawiau neu God Ymarfer a gyhoeddir mewn perthynas ag adran 13 yn cadarnhau nad yw'r Bil yn atal awdurdodau lleol rhag lleoli plentyn mewn lleoliad atodol cyn cael cymeradwyaeth Weinidogol, a bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gallu gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru i gymeradwyo lleoliadau, os oes angen. Dylai ganllawiau o'r fath bwysleisio na ddylai defnyddio lleoliadau atodol ddod yn sefyllfa ddiodyn, yn enwedig yn ystod cyfnodau heriol.

355. Mewn perthynas â'r meini prawf y bydd y Gweinidog yn eu defnyddio wrth asesu cais am leoliad atodol, mae'n hanfodol bod y rhain yn glir fel y gellir deall ar ba sail y mae penderfyniad i gymeradwyo defnyddio lleoliad atodol wedi'i wneud. Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog bod adran 81B (a fewnosodwyd gan adran 13 o'r Bil) yn nodi'r gofynion perthnasol a bod yn rhaid i'r Gweinidog, ymhlith pethau eraill, fod yn fodlon nad oes lleoliad arall addas ar gael sy'n diwallu anghenion y plentyn a bod y lleoliad yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau.

356. Yn fwy cyffredinol, credwn y bydd yn bwysig monitro'r defnydd o'r pwerau i gymeradwyo lleoliadau atodol a galwn ar y Gweinidog i adrodd ar hyn, yn flynyddol.

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar leoliadau atodol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan y Bil. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys data dienw ar faterion sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ystod oedran y plentyn; awdurdod lleol; y math o leoliad y gofynnir amdano (maethu er elw, er elw, preswyl, y tu allan i'r sir, y tu allan i Gymru, anghofrestredig); a oedd y plentyn eisoes yn y lleoliad, ystod cost). Rhaid i eithriad fod yn berthnasol i unrhyw adroddiad a gynhyrchir yn unol â'r argymhelliad hwn, i'r perwyl na ddylai'r adroddiad gynnwys unrhyw ddata a fyddai, o'u darllen ar y cyd ag unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i'r cyhoedd, yn galluogi unrhyw unigolyn i gael ei adnabod. Dylai'r Gweinidog gynnwys darpariaeth ar gyfer hyn ar wyneb y Bil.

Llety anghofrestredig a gorchmynion amddifadu o ryddid

357. Roedd gennym rai pryderon ynghylch y potensial i'r Bil 'gyfreithloni' a normaleiddio lleoliadau anghofrestredig yng Nghymru oherwydd, fel y'i drafftiiwyd, nid yw'n gwahardd defnyddio unrhyw leoliad anghofrestredig ar gyfer plentyn o unrhyw oedran. Nodwn fod paragraff 55 o'r Nodiadau Esboniadol yn

cyfeirio at lleoliad sy'n golygu lletya plentyn mewn llety anghofrestredig dros dro neu mewn achosion brys. Gwnaed pwyntiau tebyg gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei lythyr diweddar atom.

358. Ar ôl codi hyn gyda'r Gweinidog, rydym yn croesawu ei chadarnhad nad bwriad y Bil yw galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi lleoliad 'anghofrestredig'. Rydym yn croesawu ymhellach ei hymrwymiad i ddiwygio'r Nodiadau Esboniadol i egluro'r sefyllfa y bydd "lleoliad" priodol o dan adran o'r Bil yn cynnwys llety "heb ei reoleiddio", yn hytrach na llety "anghofrestredig", fel y darperir ar ei gyfer ar hyn o bryd ym mharagraff 55 o'r Nodiadau Esboniadol.

359. Er bod hyn i'w groesawu, mae'n hollbwysig bod hyn yn ei nodi mor glir â phosibl yn y Nodiadau Esboniadol diwygiedig.

Argymhelliad 12. Wrth gywiro paragraff 55 o'r Nodiadau Esboniadol i ddileu'r term lleoliad 'anghofrestredig', dylai'r Gweinidog ei gwneud yn glir bod lleoliadau nad ydynt wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru yn anghyfreithlon ac na ddylid eu defnyddio fel 'lleoliadau atodol' nac o dan unrhyw amgylchiadau eraill.

Yr effaith ar blant yr effeithir arnynt gan y Bil

360. Mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc y gallai'r Bil hwn effeithio arnynt yn cael eu cynnwys a'u cefnogi'n llawn yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt drwy gydol y broses, cynnig cyngor a chymorth priodol iddynt, a chael eu cynnwys yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

361. Roeddem yn siomedig o glywed gan randdeiliaid am y diffyg gwybodaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc am y Bil, a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu adnoddau hygyrch gyda'r nod o hysbysu plant a phobl ifanc am y Bil a sut i wneud eu barn arno yn hysbys.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynhyrchu adnoddau hygyrch gyda'r nod o hysbysu plant a phobl ifanc am y Bil a sut i fynegi eu barn arno.

362. Mewn perthynas â darparu gwasanaethau eiriolaeth, rydym yn cytuno â'r rhanddeiliaid bod hwn yn fater pwysig, yn enwedig yng ngoleuni'r cyfrifoldeb rhianta corfforaethol i wneud penderfyniadau ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal yn yr un modd ag y byddai unrhyw 'riant da' yn ei wneud ar gyfer ei blentyn ei hun. Ni allwn ganiatáu i blant a phobl ifanc 'ddarllen rhwng y llinellau' ynghylch a yw'r Bil yn golygu y gallai fod yn rhaid iddynt fyw yn rhywle arall.

363. Nid oes dim yn y Bil a fydd yn golygu bod ‘cynnig gweithredol’ o eiriolaeth i blant a phobl ifanc yn ystod y broses hon. Rydym yn cydnabod bod dull Llywodraeth Cymru o ymdrin ag eiriolaeth yn seiliedig ar arfer gorau a bod hwn yn faes y mae’n ei drafod â darparwyr gwasanaethau eiriolaeth. Fodd bynnag, rydym yn teimlo’n gryf bod angen ymrwymiad mwy cadarn ar blant a phobl ifanc, ac y dylai’r Bil gynnwys cynnig gweithredol penodol o eiriolaeth i blant a phobl ifanc y gallai’r Bil effeithio ar eu trefniadau gofal.

364. Ysgrifennodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg atom ynghylch eiriolaeth yn fwy cyffredinol, gan ofyn yn benodol inni ystyried argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio fel bod darparu eiriolaeth ymweliad preswyl ym mhob cartref gofal plant yn ofynnol ar gyfer cofrestru fel darparwr cartrefi gofal plant yng Nghymru. Tynnwn sylw’r Gweinidog at ei argymhelliad.

Argymhelliad 14. Dylai’r Gweinidog ddiwygio’r Bil i gynnwys darpariaeth ar gyfer cynnig gweithredol o eiriolaeth i blant a phobl ifanc y gallai’r Bil effeithio ar eu trefniadau gofal.

Materion eraill yn ymwneud â phlant

Llety “o fewn ardal yr awdurdod neu’n agos iddi”

365. Mewn perthynas â lleoliadau y tu allan i’r ardal, nodwn dystiolaeth y Gweinidog mai bwriad Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yw galluogi awdurdodau lleol i gael rhywfaint o hyblygrwydd i weithio mewn partneriaeth i drefnu lleoliadau yn agos at gymuned plentyn ar draws ffin awdurdod lleol ond yn nes at gymuned cartref plentyn na lleoliad amgen ym mhen arall ardal yr awdurdod lleol.

366. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pryderon rhanddeiliaid ynghylch y posibilrwydd y gallai adran 10 o’r Bil arwain at fwy o blant yn cael eu lleoli y tu allan i’w hardal gartref fel sefyllfa ddiodyn. Ysgrifennodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg atom ar y pwynt hwn, gan ddweud “i’r rhan fwyaf o blant, yn cynyddu’r risg y bydd plant yn mynd ar goll, yn cael eu troseddoli neu’n cael eu hecsbloetio’n rhywiol, heb sôn am y ffaith bod lleoliadau y tu allan i’r ardal yn ei gwneud hi’n anoddach iddynt gynnal perthynas â’u teulu biolegol neu ffrindiau neu osgoi’r angen i symud ysgolion”.

367. Rydym yn rhannu eu barn, a barn rhanddeiliaid eraill a roddodd dystiolaeth inni ar y pwynt hwn, sef y dylid osgoi lleoliadau y tu allan i’r ardal lle bynnag y bo modd. Rydym hefyd yn cytuno bod risg wirioneddol y bydd awdurdodau lleol yn

dehongli'r geiriad hwn yn ehangach nag y mae Llywodraeth Cymru yn ei fwriadu, mewn amgylchiadau lle ceir prinder lleoliadau.

368. Yn hynny o beth, credwn y dylai'r Gweinidog ystyried tynhau geiriad adran 10 i'w gwneud yn glir bod 'agos i' yn golygu awdurdod lleol ffiniol neu gyfagos. Ymhellach, dylid defnyddio'r ddarpariaeth hon mewn amgylchiadau eithriadol ac nid fel y sefyllfa ddiodyn os nad oes darpariaeth arall ar gael. Credwn y byddai hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gyflawni ei bwriad polisi, yn ogystal â darparu amddiffyniad bod plant yn cael eu cadw mor agos â phosibl i ardal eu cartref, lle mae'n ddiogel i wneud hynny.

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog ddiwygio adran 10 o'r Bil i'w gwneud yn glir:

- mai ystyr lleoli plentyn "yn agos i" ardal yr awdurdod lleol yw awdurdod lleol ffiniol neu gyfagos, ac
- y dylid ond defnyddio'r ddarpariaeth hon mewn amgylchiadau eithriadol.

Cynlluniau digonolrwydd

369. Mewn perthynas â'r ddyletswydd yn adran 11 i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi cynlluniau digonolrwydd blynyddol, rydym yn tynnu sylw'r Gweinidog at y dystiolaeth gan ADSS Cymru a Chonsortiw, Comisiynu Cymru ar gyfer Plant sy'n galw am lawer mwy o fanylion mewn perthynas â'r cynlluniau digonolrwydd arfaethedig a sut y maent yn cyd-fynd â gwaith cynllunio a chomisiynu lleoliadau rhanbarthol presennol.

Trefniadau adrodd gorfodol

370. Mewn perthynas â threfniadau adrodd gorfodol gan unigolion penodol am achosion o gam-drin plant yn rhywiol, nodwn dystiolaeth y Gweinidog fod dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn gorfodi sefydliadau yn hytrach nag unigolion i adrodd a bod y penderfyniad hwn wedi'i wneud ar ôl trafod ac ymgynghori'n uniongyrchol â rhanddeiliaid a phartneriaid. Fodd bynnag rydym hefyd yn nodi bod crynodeb Llywodraeth Cymru o'r ymatebion i'r ymgynghoriad²¹⁵ ar y mater hwn yn dweud, o blith y 91 o ymatebwyr a roddodd ateb i'r cwestiwn "roedd 57 yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r egwyddor o osod dyletswydd

²¹⁵ 'Cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant, Gofal Iechyd Parhaus, hysbysu gorfodol a rheoleiddio ac arolygu', Ymgynghoriad - [crynodeb](#) o ymatebion, Llywodraeth Cymru

uniongyrchol ar unigolion mewn cyrff perthnasol i hysbysu am blant sy'n wynebu risg."

371. Rydym yn tynnu sylw'r Gweinidog at ein gohebiaeth ddiweddaraf â'r Comisiynydd Plant ynghylch y pwynt hwn, lle mae'n dweud bod codi ymwybyddiaeth yn ffactor allweddol ar gyfer dyletswydd ar lefel sefydliad i fod yn llwyddiannus, ac yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am y camau y mae'n eu cymryd i godi ymwybyddiaeth er mwyn rhoi sicrwydd bod ei dull gweithredu'n ddigonol i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel.

372. Rydym yn gwahodd y Gweinidog i nodi'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru yn benodol yn hyn o beth. Dylai'r Gweinidog wneud hyn mewn da bryd i ganiatáu i'r Aelodau ystyried ei hymateb a chyflwyno gwelliannau i'r Bil os nad ydynt yn credu bod y camau hyn yn ddigonol.

Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o drefniadau adrodd gorfodol gan sefydliadau ar achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Dylai wneud hyn mewn da bryd i ganiatáu i'r Aelodau ystyried ei hymateb a chyflwyno gwelliannau i'r Bil os nad ydynt yn credu bod y camau hyn yn ddigonol.

5. Rhan 1: Pennod 2: Diwygiadau amrywiol mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol a swyddogaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol (adrannau 14-22)

Trosolwg

373. Mae adrannau 14 i 17 o'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â rheoleiddio darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol.

374. Mae adrannau 18 i 19 yn gwneud darpariaeth ynghylch cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol ac addaswydd i ymarfer.

375. Mae adrannau 20 i 22 yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

376. Darparodd nifer fach o randdeiliaid dystiolaeth ar y Bennod hon o'r Bil.

377. Cododd Homecare Association bryderon ynghylch y baich y byddai'r gofyniad yn adran 14 yn ei roi ar ddarparwyr, yn enwedig busnesau bach.

378. Mae adran 14 yn diwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i newid y ddyletswydd bresennol ar Arolygiaeth Gofal Cymru i gyflwyno a chyhoeddi datganiadau blynyddol ar gyfer darparwyr gofal, ac yn lle hynny yn gosod y ddyletswydd ar y darparwyr gwasanaethau eu hunain. Mae hefyd yn ei gwneud yn drosedd i fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol o fewn terfyn amser penodedig.

379. Mewn perthynas â chyhoeddi datganiadau blynyddol, dywedodd Homecare Association wrthym ei bod yn parhau i bryderu ynghylch ymarferoldeb y gofynion, gan gynnwys a allai darparwyr â bwriadau da gael dirwyon os ydynt, er enghraifft, yn cael problemau technegol gyda'u gwefannau. Dywedodd fod angen proses

deg ar gyfer mynd ar drywydd achosion ymddangosiadol o dorri'r rheolau ac y dylai fod hawl i egluro ac apelio.²¹⁶

380. Yn yr un modd, dywedodd Llamau wrthym fod risg bosibl i ddarparwyr llai gyflwyno data anghywir a bod ganddynt gapasiti cyfyngedig a swyddogaethau canolog. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo y gallai hwn fod yn ddatblygiad cadarnhaol os caiff ei reoli'n dda, gan ddweud, drwy gael data'n uniongyrchol gan ddarparwyr, bod modd eu dal yn gyfrifol ac yn atebol a gwella cywirdeb a dibynadwyedd y wybodaeth.²¹⁷

381. Dywedodd Margaret Rooney, o Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), wrthym fod hon yn agwedd ar y Bil yr oedd AGC yn ei chroesawu'n fawr, gan y byddai'n golygu mai'r darparwr, sef perchennog y data, fyddai'n gyfrifol am yr agwedd diogelu data ar y datganiadau blynyddol.²¹⁸

382. Gan gyfeirio at bryderon rhanddeiliaid eraill ynghylch y baich yn sgil y gofyniad ac, yn benodol, creu'r drosedd am fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser, dywedodd wrthym:

"we always take a proportionate approach to how we would enforce something. Our aim is to support providers through a change and to encourage improvement.

So, any use of a criminal power, which might be, in this case, a fixed-penalty notice, would be an absolute last resort, but at the same time, it is useful to have something like that to be used in those circumstances, hopefully very rarely—very rarely—where a provider might persistently either not submit an annual return or publish an annual return."²¹⁹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

383. Noda'r Memorandwm Esboniadol y bydd y darpariaethau yn adran 14 yn lleihau'r baich ar Arolygiaeth Gofal Cymru yn sylweddol, gan na fydd angen iddi wirio'r datganiadau am achosion posibl o dorri rheolau diogelu data. Mae'n amcangyfrif y bydd AGC yn arbed costau sy'n cyfateb i tua £8,300 y flwyddyn.

²¹⁶ HSCWB24

²¹⁷ HSCWB15

²¹⁸ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 265

²¹⁹ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 266

384. Noda'r Memorandwm Esboniadol y gallai'r newid arwain at oblygiadau o ran amser neu gost i ddarparwyr wrth sefydlu a chynnal gwefannau os nad oes ganddynt eu gwefannau eu hunain eisoes. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod digon o amser cyn i'r gofyniad ddod i rym i ddarparwyr sefydlu gwefan. Mae'n amcangyfrif nad oes gan un rhan o dair o'r darparwyr presennol wefan ar hyn o bryd, a dywed fod y gost gyfanredol ar gyfer sefydlu gwefannau rhwng £144,730 a £247,100.

385. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod 150 o ddarparwyr wedi methu â chyflwyno eu datganiad blynyddol erbyn y terfyn amser gofynnol, gan dorri'r gofyniad yn y Rheoliadau.

Ein barn ni

386. Rydym wedi ystyried y dystiolaeth gyfyngedig sydd ger ein bron ar Ran 1, Pennod 2 o'r Bil.

387. Nodwn bryderon nifer bach o randdeiliaid ynghylch ymarferoldeb adran 14 yn benodol. Rydym yn tynnu eu sylw at dystiolaeth Arolygiaeth Gofal Cymru a nododd mai ei nod yw ymateb yn gymesur i drefniadau gorfodi, a chefnogi darparwyr i newid a'u hannog i wella.

6. Rhan 2: Gofal Iechyd (adrannau 23-26)

Trosolwg

388. Mae adrannau 23-26 o'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â gofal iechyd:

- Mae adran 23 yn rhoi trosolwg o Ran 2.
- Mae adran 24 yn gwneud darpariaeth i ganiatáu taliadau uniongyrchol am ofal iechyd. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch a ellir gwneud taliadau uniongyrchol, pryd a sut, a'r wybodaeth, y cyngor neu'r cymorth a ddarperir mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol.
- Mae adran 25 yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n gwneud nifer o fân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol am ofal iechyd.
- Mae adran 26 yn ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd gan awdurdodau lleol.

Cefndir

389. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i "wella'r rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus a thaliadau uniongyrchol".

390. Pecyn cyflawn o ofal parhaus (i ddiwallu'r holl anghenion iechyd a gofal a aseswyd) a drefnir ac a ariennir yn gyfan gwbl gan y GIG drwy fyrddau iechyd lleol (BILI), lle mae angen sylfaenol oedolyn wedi'i asesu fel un sy'n seiliedig ar iechyd, yw Gofal Iechyd Parhaus (GIP). Nid yw'n bosibl gwneud taliadau uniongyrchol am GIP ar hyn o bryd.

391. Ar gyfer gofal cymdeithasol, ceir deddfwriaeth sy'n galluogi awdurdodau lleol i wneud taliadau uniongyrchol i unigolion i'w galluogi i gael gafael ar wasanaethau i ddiwallu eu hanghenion cymwys am ofal neu gymorth. Mae taliadau uniongyrchol am ofal cymdeithasol yn caniatáu i bobl dderbyn taliadau arian parod gan awdurdod lleol i brynu eu gwasanaethau gofal a chymorth eu hunain (i ddiwallu anghenion cymwys), er enghraifft gallant gyflogi Cynorthwy-ydd Personol neu weithiwr gofal o'u dewis.

392. Bydd y Bil yn gwneud darpariaeth i alluogi byrddau iechyd lleol i wneud taliadau uniongyrchol i bobl am Ofal Iechyd Parhaus (GIP) y GIG. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu pennu manylion ac amodau ynghylch pryd y gallai'r taliadau uniongyrchol fod ar gael o dan reoliadau. Caiff rheoliadau hefyd bennu'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol.

393. Yn Lloegr, mae cyllidebau iechyd personol, sy'n cyfateb i daliadau uniongyrchol, wedi cael eu caniatáu ar gyfer GIP i oedolion a phlant ers 2014.

394. Bwriad Llywodraeth Cymru yw rhoi'r polisi yn y Rhan hon o'r Bil ar waith yn ystod gwanwyn 2026.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

Gwybodaeth, cyngor a chymorth

395. Yn ei adroddiad yn 2022, canfu Archwilio Cymru fod y systemau i reoli a rhoi cymorth i bobl ddefnyddio taliadau uniongyrchol yn amrywio'n fawr ledled Cymru, a bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn derbyn safonau gwasanaeth gwahanol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad yw pobl yng Nghymru yn cael eu cefnogi'n gyson i fanteisio ar daliadau uniongyrchol; ac mae mwy i awdurdodau lleol ei wneud i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o daliadau uniongyrchol ymhlith defnyddwyr gwasanaethau.

396. Codwyd materion yn ymwneud â chyngor a chymorth ynghylch taliadau uniongyrchol gyda ni gan randdeiliaid. Dywedwyd wrthym fod angen gwybodaeth a chymorth am y newidiadau a fydd yn cael eu gwneud o ganlyniad i'r Bil, a hefyd i alluogi pobl i reoli taliadau uniongyrchol, yn benodol, y baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chyflogi staff.

397. Dywedodd Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan, yn eu profiad nhw, y gall taliadau uniongyrchol mewn gofal cymdeithasol newid bywydau llawer o bobl. Fodd bynnag,

“becoming an employer, understanding the role of being an employer, taking on that personal responsibility, evaluating risk and ensuring that all parties are safe is daunting, and I don't

think we can underestimate the importance and the necessity for really high-quality support to people.”²²⁰

398. Dywedodd Cecilia Kenny wrthym y gall pobl fod yn ofnus ynghylch ymgymryd â rhywbeth nad ydynt yn ei ddeall oherwydd nad ydynt wedi cael digon o wybodaeth i wneud dewisiadau gwybodus am yr opsiwn cywir iddyn nhw. Dywedodd na fydd newid o un cynllun i'r llall yn hawdd i bawb, oni bai bod y cyfathrebu a'r manylion yn glir iawn.

399. Awgrymodd Anabledd Dysgu Cymru fod angen arbenigedd ym mhob ardal awdurdod lleol a bwrdd iechyd lle y gall pobl fynd i gael cyngor a chymorth o ansawdd da iawn cyn iddynt gymryd y cam hwnnw, a hefyd yn ystod y broses newid. Yn ei farn ef, dylai fod gan bobl hawl i gael cymorth os ydynt yn dewis defnyddio taliadau uniongyrchol.²²¹

400. Dywedodd Jason Bennett, ADSS Cymru, wrthym fod dulliau o weithio gyda theuluoedd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n seiliedig ar gryfder yn bwysig iawn:

“We don't leave people alone with a pot of money; we put a support service in around them, which is a direct payment support service that operates really well. People have that support on tap to access at any time that they need it.”²²²

401. Cyfeiriodd Gofalwyr Cymru ac Anabledd Dysgu Cymru ill dau at rôl gwasanaethau eiriolaeth o ran cefnogi defnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd drwy'r broses GIP, ac wrth ddarparu gwasanaeth cyfryngu yn ôl yr angen:

“We know, unfortunately, that many people find it quite difficult to access advocacy services, but, of course, it can make a world of difference to people, and it really helps people to engage with the myriad of organisations, the official processes.”

402. Clywsom dystiolaeth hefyd am bwysigrwydd cydgynhyrchu, o ran unrhyw waith mireinio i'r Bil ond hefyd o ran llunio canllawiau, gwybodaeth a chyngor i ofalwyr ac i ddefnyddwyr gwasanaethau.²²³

²²⁰ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 376

²²¹ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 194

²²² Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 380

²²³ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024

403. Dywedodd y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor wrthym, er ei bod yn croesawu cynnig y Gweinidog i ddarparu cymorth ar sail ‘Canolfan’, ei bod yn credu bod angen rhagor o fanylion a chymorth mwy rhagweithiol, wedi’i dargedu.²²⁴

Paratoi byrddau iechyd ar gyfer cyfrifoldebau newydd

404. O ran y paratoadau gan fyrddau iechyd ar gyfer eu cyfrifoldebau newydd o dan y Bil, clywsom y gallai byrddau iechyd gael gwybodaeth a chyngor nid yn unig gan awdurdodau lleol, ond gan ddarparwyr arbenigol eraill sy’n rhoi cymorth ar daliadau uniongyrchol ledled y wlad, ac y byddai gwneud hynny’n allweddol.²²⁵

405. Dywedodd ADSS Cymru na fyddai am weld byrddau iechyd yn sefydlu timau a gwasanaethau taliadau uniongyrchol newydd, gan fod y seilwaith hwnnw eisoes yn ei le mewn llywodraeth leol. Dywedodd y byddai manteisio ar y seilwaith presennol hwnnw’n darparu parhad gofal i’r unigolyn, gan gadw’r cyfnod pontio mor ddi-dor â phosibl, a chynnal ysbryd o weithio integredig.²²⁶

406. Dywedodd Mark Cooper o Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan ei fod wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â’i fwrdd iechyd lleol am y ddwy flynedd ddiwethaf i baratoi ar gyfer y newidiadau a ddaw yn sgil y Bil. Roedd y cyfle hwnnw i weithio mewn partneriaeth â’r bwrdd iechyd, meddai, wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran helpu i ddeall ein gilydd ac i ddod o hyd i atebion i rai o’r problemau.

407. Roedd y byrddau iechyd eu hunain yn cydnabod yr heriau sy’n eu hwynebu gan ddweud na ellir diystyru’r bwlch mewn gwybodaeth a sgiliau. Dywedodd Jennifer Winslade o BIP Aneurin Bevan y byddai’r broses yn gromlin ddysgu ac y byddai angen cymorth ychwanegol ar fyrddau iechyd o ran hyfforddiant, sefydlu system a phroses. Ar gyfer hyn, dywedodd y gallent droi at eu cydweithwyr dros y ffin yn Lloegr, a hefyd at awdurdodau lleol i rannu eu profiad, ac roeddent wedi dangos parodrwydd i wneud hynny, meddai.²²⁷

408. At hynny, dywedodd y byrddau iechyd wrthym fod y bobl berthnasol yn eu sefydliadau wedi bod yn gweithio ers peth amser gyda chydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer gweithredu’r Bil.²²⁸

²²⁴ HSCWB21

²²⁵ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024

²²⁶ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024

²²⁷ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, pragraff 187

²²⁸ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, pragraff 202

Rheoli'r trosglwyddo rhwng gofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus y GIG

409. Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at bwysigrwydd rheoli'r trosglwyddo rhwng gofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus y GIG.

410. Yn eu tystiolaeth, roedd byrddau iechyd yn cydnabod y gall statws cymhwysra pobl newid, ond dywedwyd ei bod yn llawer mwy cyffredin i bobl ddod yn gymwys, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. Lle nad yw pobl bellach yn cael eu hystyried yn gymwys i gael GIP a bod angen pecyn gofal gwahanol arnynt, dywedwyd gall y broses hon fod yn drwsgl.²²⁹

411. Dywedodd Gofalwyr Cymru fod angen gwneud yn siŵr bod y trawsnewidiadau hynny mor ddi-dor â phosibl, oherwydd nid oes angen y lefel ychwanegol honno o straen a baich ar ofalwyr di-dâl ac, wrth gwrs, ar deuluoedd a phobl sydd â'r angen iechyd hwnnw.

412. Roedd CLILC yn pryderu "y bydd y system bresennol yn parhau, a bod maes iechyd a Chyngorau'n defnyddio dwy system a phroses wahanol." Dywedodd y byddai'n bwysig nodi sut y rheolir y trawsnewid rhwng y ddwy system, gan hefyd sicrhau nad oes unrhyw unigolyn yn cael ei adael heb gyllid a chymorth yn ystod y cyfnod trawsnewid.²³⁰

413. Awgrymodd Gofalwyr Cymru y gallai fod rôl i Llais o ran helpu pobl i ddeall y prosesau perthnasol a hefyd darparu gwasanaeth cyfryngu a chymorth yn y trafodaethau rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd.²³¹

'Hawl i ddychwelyd'

414. Clywsom gan nifer o bobl anabl a rhanddeiliaid fod pobl yn debygol o ofni mentro newid i daliadau uniongyrchol am GIP gan ei fod yn rhywbeth nad ydynt yn gwybod dim amdano. Awgrymodd rhai y gallai unigolion fod yn amharod i dderbyn asesiad GIP a manteisio ar y cynnig o ofal iechyd parhaus oni bai bod rhwyd ddiogelwch ar ffurf 'hawl i ddychwelyd' i daliadau uniongyrchol awdurdodau lleol os ydynt yn teimlo bod angen iddynt wneud hynny.

415. Dywedodd Chris Hall, ar ran Nathan Lee Davies, wrthym:

"if a person in Nathan's circumstances on direct payments (...) was classified as eligible for [CHC], he runs the risk of not being

²²⁹ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, pragraff 228

²³⁰ HSCWB31

²³¹ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 194

able to go back to (...) the status quo of having direct payments with the local authority. So, he could be told he's eligible. Then he says, 'But I don't actually want to now that I've seen what it entails. (...) I want to go back to receiving my direct payments from the local authority'. And at that point, the local authority will say, 'Well, you can get your care somewhere else and, therefore, we don't have to provide it.'"²³²

416. Aeth ymlaen i ddweud:

*"I think that Nathan, and many people who are disabled, will say, 'It's better the devil I know.' Rather than jumping into a swimming pool and saying, 'I'll see if I can swim', they're saying, 'I'll stay on the edge of the pool because at least I'm not drowning.'"*²³³

417. Yn yr un modd, teimlai BASW Cymru y dylai fod gan y rhai sy'n dewis taliadau uniongyrchol am Ofal Iechyd Parhaus y GIG yr hawl i ddychwelyd i gael cymorth gan awdurdodau lleol.²³⁴

418. Fodd bynnag, cwestiynodd Jason Bennett o grŵp penaethiaid gwasanaethau oedolion Cymru gyfan, Cyngor Bro Morgannwg ac ADSS Cymru, a fyddai hawl i ddychwelyd yn bosibl. Eglurodd, pe bai anghenion rhywun yn dod yn 'anghenion iechyd',

"section 47 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 will prevent a local authority from providing that support. So, if that person's needs have deteriorated and become even more complex, we wouldn't be able to guarantee a return.

*(...) if you're eligible for CHC, by definition, you become non-eligible for local government services."*²³⁵

419. Ni ddylai hynny, meddai, atal yr awdurdodau perthnasol rhag gweithio gyda'i gilydd i ddeall beth sydd wedi mynd o'i le, pam mae'r unigolyn yn teimlo nad yw'r trefniadau'n gweithio iddo, ac i archwilio llwybrau amgen i ddarparu gofal.²³⁶

²³² Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 10

²³³ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 69

²³⁴ HSCWB22

²³⁵ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 298

²³⁶ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 298

Llywodraethu a dirprwyo

420. Tynnodd byrddau iechyd a llywodraeth leol ill dau sylw at yr angen am ragor o drefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau bod byrddau iechyd yn dirprwyo gofal yn ddiogel i Gynorthwyyr Personol.

421. Rhybuddiodd ADSS Cymru y gallai ansawdd gofal ddiodef pe na bai'r gofal sy'n cael ei ddarparu yn cael ei reoleiddio, neu os na ellid sicrhau ei fod yn cyrraedd y safon ofynnol:

"(...) one of the challenges of moving to Direct Payments through CHC is how to ensure that health boards have clear governance structures in place for delegation of appropriate tasks to PAs. This is important because the health-related needs and tasks they do may depend on the local health board's direction and control, not the individual's. This is an area that needs more clarity."²³⁷

422. Cododd eraill bryderon tebyg ynghylch y posibilrwydd y byddai ansawdd y gofal yn gwaethygu i'r rhai sy'n derbyn GIP wrth iddynt gomisiynu eu gofal eu hunain gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol heb drefniadau rheoleiddio'r GIG, ac y byddai hynny'n arwain at ganlyniadau andwyol i'r unigolion.

423. Yn ei ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, dywed Fforwm Gofal Cymru ei fod yn pryderu am system dwy haen mewn darpariaeth gofal gyda gweithlu sydd wedi'i reoleiddio'n drwm ac wedi'i gofrestru mewn asiantaethau gofal cartref a chartrefi gofal a gweithlu cyfocrog o gynorthwyyr personol heb eu cofrestru a heb eu rheoleiddio yn ymgymryd â rolau tebyg iawn. Roedd yn credu y dylai fod yn rhaid i bawb sy'n darparu gofal cymdeithasol gael cofrestriad sylfaenol.

424. Nododd CLILC nad yw Cynorthwyyr Personol ar hyn o bryd yn destun yr un gofynion cofrestru a rheoleiddio ag eraill sy'n rhan o'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac efallai y bydd angen adolygu hyn os oes angen cyflawni tasgau iechyd cymhleth, yn enwedig os yw'r bwrdd iechyd lleol (yn hytrach na'r unigolyn) yn cyfarwyddo ac yn rheoli'r tasgau y mae Cynorthwyydd Personol yn eu cwblhau.²³⁸

425. Roedd Jennifer Winslade o BIP Aneurin Bevan yn cytuno:

²³⁷ HSCWB30

²³⁸ Ymateb CLILC i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

“you do need a framework for governance and, in particular, clinical governance [to] ensure that providers are fit for purpose and remain fit for purpose so that individuals aren’t placed at risk of harm.”²³⁹

426. Awgrymodd fod gwaith y gellid ei wneud yn genedlaethol ynghylch sicrhau bod pawb yn gwbl glir ynglŷn â'r hyn sy'n ddiogel i'w ddirprwyo i Gynorthwydd Personol. Nododd:

“England have a quality assurance framework that I think we could build on in terms of what we want in Wales for our citizens.”²⁴⁰

427. Yn fwy cyffredinol, dywedodd Gaynor Williams, Rhaglen Gydweithredol GIG Cymru, wrthym nad oedd fframwaith perfformiad ar gyfer GIP yng Nghymru ar hyn o bryd, felly nad oes unrhyw ffordd ffurfiol o wybod sut mae pethau'n mynd ledled Cymru ar hyn o bryd. Aeth ymlaen i ddweud y bydd datblygu metrigau ar gyfer taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP yn hanfodol er mwyn gallu cofnodi a mesur cynnydd a llwyddiant.²⁴¹

Cymorth ariannol i fyrddau iechyd

428. Mae'r Bil yn cynnig tua thair blynedd o gymorth ariannol cyn i'r byrddau iechyd orfod ysgwyddo'r costau eu hunain. Fe wnaethom ofyn i fyrddau iechyd a oeddent yn meddwl y byddai hynny'n ddigonol.

429. Mewn ymateb i hynny, dywedodd y byrddau iechyd ei bod yn anodd cynllunio ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan alw fel GIP, ac y byddai'n rhaid i gyllidebau fod yn hyblyg yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn.

430. Dywedodd Gaynor Williams fod y sefyllfa o ran adnoddau yn wirioneddol heriol ar hyn o bryd, ac mai profiad Lloegr, yn ystod y camau gweithredu cychwynnol, oedd ei fod wedi costio 20 y cant yn ychwanegol am bob pecyn gofal a ddarparwyd drwy daliadau uniongyrchol, er bod y gost honno wedi lleihau dros gyfnod o dair blynedd i gyfateb â phecyn gofal a ddarperir gan y GIG.

²³⁹ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, pragraff 194

²⁴⁰ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, pragraff 197

²⁴¹ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, pragraff 261

Natur fregus y gweithlu

431. Roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu y gallai'r Bil waethygu'r argyfwng gweithlu gofal presennol, gan dynnu sylw at wahaniaethau mewn cyflog ac amodau rhwng rolau gwahanol ond tebyg, megis gweithwyr cymorth gofal iechyd, cynorthwywyr personol a gweithwyr gofal. Dywedwyd bod perygl y gallai hyn arwain at ddadleoli'r farchnad lafur a mwy o ansefydlogrwydd yn y gweithlu, gyda gweithwyr gofal cymdeithasol yn symud i weithio fel cynorthwywyr personol, gan leihau'r gronfa o bobl sy'n barod i fod yn weithwyr gofal cofrestredig.²⁴²

432. Dywedodd Jason Bennett o ADSS Cymru wrthym:

*"The same worker in the NHS as a healthcare support worker will be on a significantly higher salary than a domiciliary care worker or a personal assistant. So, when we look at expanding things like continuing healthcare, we have to bear that in mind."*²⁴³

433. Yn ôl Homecare Association:

*"Having more demand for Personal Assistants in an area and less demand for homecare services may just see the people who would have worked in a homecare provider taking work as a PA - i.e. displacement of the workforce and a weakening of local homecare offerings and not expansion. This has happened in England, for example, in Somerset, where regulated providers have lost over 2000 care workers to become PAs."*²⁴⁴

434. Dywedodd y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor na fydd y symudiad tuag at fwy o hyblygrwydd gyda thaliadau uniongyrchol yn newid cadarnhaol oni bai ei fod yn cael ei ategu gan weithlu gofal cymdeithasol ag adnoddau cynaliadwy sydd ar gael yn rhwydd i ddarparu'r cymorth sydd ei angen.²⁴⁵ Ymhellach, dywedodd nad yw taliadau uniongyrchol o unrhyw fudd mewn meysydd lle nad oes staff gofal ar gael sy'n meddu ar y sgiliau a'r hyfforddiant gofynnol.²⁴⁶

²⁴² Homecare Association, tystiolaeth i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

²⁴³ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 458

²⁴⁴ HSCWB24

²⁴⁵ HSCWB21

²⁴⁶ HSCWB21

435. Amlygwyd prinder staff gofal cymdeithasol fel rhwystr i weithredu'r Bil yn llwyddiannus. Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn wrthym "bydd diffyg mynediad at ofal cartref addas yn ei gwneud yn anodd i'r Bil gyrraedd ei nodau yn ymarferol".²⁴⁷

Digonolrwydd ac amrywiad yn y cyfraddau cyflog a bennir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd

436. Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at yr amrywiad mewn cyfraddau cyflog a bennir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Galwodd rhai am sicrhau bod y taliad fod yr un fath ledled Cymru, gan sicrhau mynediad cyfartal at gymorth, a dywedodd eraill ei bod yn hollbwysig bod y cyfraddau'n ddigon uchel i brynu gwasanaethau o ansawdd da a thalu gweithwyr yn deg.²⁴⁸

437. Dywedodd y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor wrthym:

*"We are (...) aware of discrepancies in the approach in implementing CHC between different local health boards (LHBs) in Wales. (...) It is vital that the level of payment is the same across Wales, so that people living with MND and their carers have equal access to support."*²⁴⁹

438. Dywedodd Gofalwyr Cymru wrthym fod y gyfradd fesul awr a gynigir drwy daliadau uniongyrchol yn amrywio ledled Cymru, a bod rhai gofalwyr di-dâl yn poeni pan oedd yn ymddangos nad oedd y gyfradd yn ddigonol i gaffael staff. Gallai'r broblem hon fod yn fwy difrifol mewn ardaloedd gwledig, meddent, oherwydd materion fel costau teithio.

439. Roedd un gofalwr di-dâl wedi dweud wrthynt fod y gyfradd fesul awr a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol gryn dipyn yn is na'r gyfradd fesul awr sy'n ofynnol gan asiantaethau lleol, gan olygu bod y gofalwr yn wynebu gorfod ychwanegu at y gyfradd fesul awr honno o'i boced ei hun.²⁵⁰ Roeddent yn credu y dylai'r cyfraddau cyflog, a'r ffordd y cânt eu pennu, fod yn destun proses graffu:

"I think local authorities should have to set out why they have set that pay rate for that area, and if service users and carers don't believe that pay rate is sufficient, there should be a

²⁴⁷ HSCWB32

²⁴⁸ HSCWB21, HSCWB24

²⁴⁹ HSCWB21

²⁵⁰ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 139

mechanism to review that and challenge it so it can be updated if it isn't accurately reflecting the local workforce."²⁵¹

440. I'r gwrthwyneb, dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn:

"Un o'r ffactorau sy'n effeithio ar y cyflenwad gofal cartref yw gallu byrddau iechyd i gynnig cyfraddau cyflog uwch i weithwyr gofal. Gallai hyn olygu y byddai'r risg bod rhywun yn methu dod o hyd i ddarparwr gofal cartref yn cael ei lleihau, oherwydd byddai cyllid y GIG yn galluogi iddynt gynnig mwy o gyflog na rhywun sy'n cael taliad uniongyrchol gan awdurdod lleol ar gyfer gofal cymdeithasol.

*Os felly, byddai hyn yn llesteirio'r datganiad ym mharagraff 3.56 y Memorandwm Esboniadol y "dylai'r dull hefyd gefnogi'r egwyddor o weithio mewn partneriaeth ac integreiddio, gan ganiatáu cyswllt gwell rhwng darparu taliadau uniongyrchol awdurdodau lleol a thaliadau uniongyrchol a wneir gan y GIG yng Nghymru."*²⁵²

441. Dywedodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol fod angen parhad a chysondeb ledled Cymru (ac ar draws gofal cymdeithasol ac iechyd) o ran cyfraddau cyflog, ac:

*"it is true that in some places there will be a commissioned care provider that will have a different rate from the health board than they will from a local authority. That happens in nursing homes as well as in domiciliary care, because they're on a different framework. What I suppose we would hope with direct payments, if we were to do it together, is we have an agreed rate for a PA. That would be our appeal, I suppose, if we do it together."*²⁵³

Defnyddio taliadau uniongyrchol fel y dewis olaf yn absenoldeb gwasanaethau

442. Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym eu bod yn poeni y gallai taliadau uniongyrchol gael eu defnyddio fel y 'dewis olaf' yn absenoldeb gwasanaethau.

²⁵¹ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 140

²⁵² HSCWB32

²⁵³ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 411

Dywedodd Anabledd Dysgu Cymru ei fod yn pryderu, mewn cyfnod o bwysau ariannol ar y GIG, y gallai pobl ddewis derbyn taliadau uniongyrchol oherwydd na allant gael y gofal sydd ei angen arnynt:

“We are concerned that people with a learning disability might feel pressured to take on health budgets because the care they get otherwise is not adequate. They then might find that they struggle with the administrative burden that comes with health budgets.”²⁵⁴

443. Dywedodd Gofalwyr Cymru na ddylai'r symudiad gael ei weld fel ffordd o drosglwyddo'r cyfrifoldeb i unigolion ddod o hyd i'w gweithwyr gofal eu hunain. Roedd hyn eisoes wedi bod yn digwydd, meddent, lle roedd rhywun wedi cael ei asesu fel unigolyn ag angen cymwys, ble nad oes gweithwyr gofal ar gael i ddiwallu'r angen hwnnw a'i fod felly'n cael cynnig taliadau uniongyrchol a bod disgwyl i ddefnyddwyr gwasanaethau ddod o hyd i rywun i ddarparu gofal, nad yw'n bodoli mewn gwirionedd.

444. Gwnaeth y Comisiynydd Pobl Hŷn bwynt tebyg, gan nodi bod awdurdodau lleol weithiau'n cynnig taliadau uniongyrchol i bobl hŷn fel y dewis olaf, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle mae problemau penodol o ran argaeledd gofal cartref.

445. Cyfaddefodd ADSS Cymru:

“in some areas it [direct payments] has been the only way somebody in a rural area could get the support they needed, because there wasn't a homecare provider available”²⁵⁵.

Cynorthwywyr personol

446. Yn 2022, adroddodd Archwilio Cymru fod Cynorthwywyr Personol yn hanfodol i bobl sy'n gwneud y gorau o daliadau uniongyrchol, ond bod defnyddwyr gwasanaethau'n aml yn ei chael hi'n anodd eu recriwtio.²⁵⁶ Daeth hyn drosodd yn glir yn y dystiolaeth a glywsom, yn enwedig gan bobl anabl eu hunain, a ddisgrifiodd yr anawsterau wrth recriwtio a chadw Cynorthwywyr Personol fel drws troi.²⁵⁷

²⁵⁴ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 118

²⁵⁵ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 459

²⁵⁶ [Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion](#), Ebrill 2022, Archwilio Cymru,

²⁵⁷ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 41

447. Dywedodd Shahd Zorob ei bod wedi cael problemau tebyg, ac na all recriwtio pobl ar y cyflog presennol ar hyn o bryd. Eglurodd yr anawsterau:

“the pay is not good enough. It doesn’t attract anyone. You can go to Aldi or the other shops and earn more. In this job you’re doing a lot more. And then people don’t treat it as if it’s a real job. People think it’s quite a simple job, they don’t take it seriously.”²⁵⁸

448. Dywedodd cynrychiolwyr y byrddau iechyd fod Cynorthwywyr Personol yn brin fel aur ac nad oeddent yn argyhoeddedig bod y gweithlu ar gael i ateb y galw, yn enwedig ar gyfer y don nesaf o fyddai’n derbyn taliadau uniongyrchol.

449. Dywedodd y rhanddeiliaid wrthym fod angen cydnabod a gwerthfawrogi rôl Cynorthwydd Personol er mwyn denu a chadw staff. Roedd CLILC yn credu ei bod yn bwysig bod rôl Cynorthwydd Personol yn cael ei gweld fel swydd werth chweil²⁵⁹. Roedd Anabledd Dysgu Cymru yn cytuno, gan ddweud:

“Working as a PA is an incredibly dedicated role, which requires a lot of responsibility and an investment, and takes a lot out of you as a person (...).

unless we start really valuing that role, we are just going to keep seeing people leaving the care system in droves, because we just don’t value it, I don’t think, and society doesn’t value it enough either.”²⁶⁰

450. Roedd awdurdodau lleol a byrddau iechyd ill dau yn cydnabod y pwysau ar y gweithlu cynorthwywyr personol, a’r angen dybryd i wella recriwtio a chadw. Dywedwyd wrthym am rai o’r mentrau a oedd ar waith ganddynt i geisio mynd i’r afael â hyn. Dywedodd Mark Cooper o Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan:

“We’re working with approximately 600 PAs across Flintshire, and we’ve worked really hard to improve the offer, to make that professional, to create an induction certificate and a framework for improvement and a range of other incentives. We’ve tried really hard to work in partnership with those PAs, so

²⁵⁸ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 39

²⁵⁹ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 453

²⁶⁰ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 151

*that they feel part of the broader social care system, that they do feel valued and involved in something.*²⁶¹

451. Roedd Jennifer Winslade o BIP Aneurin Bevan yn gweld cyfle gwirioneddol i feddwl am sut i greu gyrfaoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol:

*“and how we do that collaboratively, in a way that enables people to enter either domiciliary care, a care home or a healthcare setting, but to have a career in health and social care that we can facilitate, so we’re not in competition for each other, we’re working together to create the workforce of the future, based around the future needs of the population. (...)”*²⁶²

452. Awgrymodd Anabledd Cymru y gellid creu canolfan byw’n annibynnol genedlaethol, a allai

*“help to establish a bigger and better care force, because the whole pool would be together, and people would tap into that pool, and everyone would be able to offer their own expertise. Because a lot of the time, it’s only when talking to peers that you find out the correct information.”*²⁶³

Cymhwysra ar gyfer GIP ac anghydfodau ynghylch cyllid

453. Roedd CLILC ac ADSS Cymru ill dau yn bryderus y gallai’r heriau presennol o ran y ffordd y mae GIP yn gweithredu ar hyn o bryd danseilio manteision posibl y ddeddfwriaeth. Maent wedi dweud o’r blaen fod awdurdodau lleol yn gorfod cyllido pecynnau gofal mwy cymhleth yn gynyddol gan y gwrthodir GIP i bobl, a hynny ar gam.²⁶⁴

454. Yn eu tystiolaeth i’r Pwyllgor Cyllid yn ystod y gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, dywedwyd fod teimlad cryf ar draws y gwasanaethau cymdeithasol y bu’n ofynnol i fwy a mwy o bethau gael eu hariannu gan y gwasanaethau cymdeithasol dros amser, gan na fydd y byrddau iechyd yn fodlon eu hariannu o dan ofal iechyd parhaus.²⁶⁵

²⁶¹ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 446

²⁶² Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, paragraff 244

²⁶³ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 150

²⁶⁴ Tystiolaeth i’r Pwyllgor Cyllid

²⁶⁵ Tystiolaeth CLILC i’r Pwyllgor Cyllid

455. Mewn ymateb ar y cyd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil, dywedodd CLILC ac ADSS Cymru ei bod yn hanfodol bod y newid deddfwriaethol hwn yn cael ei ategu gan newid sylweddol mewn ymarfer a gweithrediad GIP:

“The experience has been that the bar for access for CHC has been increased, despite the legal thresholds not changing. Local authorities firmly believe that the interpretation of health needs and gatekeeping practice needs to change, so that existing policies are implemented effectively. This needs urgent attention.”²⁶⁶

456. Dywedodd CLILC nad yw'r ffordd y mae GIP yn cael ei roi ar waith ar hyn o bryd yn gyson ledled Cymru gan fod gwahanol drothwyon yn cael eu gosod gan fyrddau iechyd lleol, ac, yn amhriodol, bod y costau ar gyfer darparu gwasanaethau yn cael eu hysgwyddo gan gynghorau.

457. Dywedodd ADSS Cymru fod timau nyrsio ardal wedi wynebu pwysau ers amser maith a bod galw mawr am eu gwasanaethau a bod oedi o ran cynnal asesiadau GIP yn gyffredin, yn ogystal â dirprwyo gweithgareddau i staff gofal a fyddai wedi cael eu cyflawni'n uniongyrchol gan nyrsys rhyw ddegawd yn ôl. Yn yr un modd, gall cartrefi nyrsio ei chael hi'n anodd denu a chadw nyrsys cymwys, sy'n golygu bod darparwyr gofal yn derbyn pobl ag anghenion cynyddol gymhleth i leoliadau “preswyl” yn hytrach na “gofal nyrsio”.

458. Dywedodd ADSS fod ymarferwyr bellach yn gyfarwydd iawn â chymhlethdod a'u bod rhai pethau a fyddai wedi cael eu hystyried yn anghenion cymhleth yn flaenorol (ac felly'n gymwys ar gyfer GIP), bellach yn cael eu hystyried yn anghenion arferol. Gall hyn arwain at ragfarn anymwybodol ymysg Timau Amlddisgyblaethol sydd bellach yn tueddu i ystyried bod mwy o dasgau'n gyfrifoldeb i'r maes gofal cymdeithasol yn hytrach na'r maes iechyd. Dywedodd ADSS fod angen gweithio gyda'r timau amlddisgyblaethol er mwyn osgoi'r llithro hwn.

459. Dywedodd Andrew Morgan, arweinydd CLILC, wrthym

“It's not right on the individuals and it's not right in terms of the public services where sometimes we're in dispute, sometimes for many months, trying to work out who is responsible for what element of the packages. Quite often, local authorities will step

²⁶⁶ Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

in, sometimes maybe overstep our legal responsibilities, to make sure that that person is provided with support, and, quite often, we don't get reimbursed for it, even after it may well be determined that this is a continuing healthcare package for the health board rather than the local authority."²⁶⁷

460. Roedd CLILC ac ADSS o'r farn bod angen fframwaith gweithredu cenedlaethol a fyddai'n galluogi'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn ei chyfanwydd i roi eglurder ynghylch sut y caiff y fframwaith a chanllawiau ledled Cymru eu cymhwyso. Roeddent hefyd yn credu bod angen proses fwy effeithiol i ddatrys anghydfodau a herio diffyg cydymffurfiaeth.

461. Cyflwynwyd y pwyntiau hyn i gynrychiolwyr y byrddau iechyd lleol. Dywedodd Gaynor Williams, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gofal Cymhleth, GIG Cymru wrthym:

*"in terms of the threshold being set too high, is there's no evidence at all that I've seen that that is happening."*²⁶⁸

462. Dywedodd fod penderfyniadau ynghylch cymhwystra yn cael eu gwneud yn dilyn asesiad cynhwysfawr gan dîm amlddisgyblaethol, amlasiantaeth. Mae'r tîm hwnnw'n gwneud argymhelliad i'r bwrdd iechyd a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gall y bwrdd iechyd wrthod yr argymhelliad:

*"I can honestly say, in the past five years, I've heard of one case where the health board went and declined that recommendation."*²⁶⁹

463. Awgrymodd Anabledd Dysgu Cymru y byddai cyllidebau cyfun yn opsiwn da:

*"people end up stuck in the middle, sometimes not receiving any service while social services and health boards fight it out about who's supposed to pay for it. (...) And it does often feel like it's very budget driven and one public body trying to move people on to someone else's budget."*²⁷⁰

²⁶⁷ Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2024, paragraff 481

²⁶⁸ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, paragraff 224

²⁶⁹ Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2024, paragraff 224

²⁷⁰ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 169

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

464. Teimlai Anabledd Cymru ac Anabledd Dysgu Cymru y dylai'r Bil gynnwys cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Yn ôl Anabledd Dysgu Cymru mae pobl ag anableddau a sefydliadau pobl ag anableddau wedi bod yn galw am ei gynnwys ar wyneb deddfwriaeth Gymreig berthnasol ers blynnyddoedd.

465. Dywedodd Kat Watkins o Anabledd Cymru wrthym:

*"it absolutely needs to be part of the Bill, because there are so many articles within it for independent living and the right to healthcare and things like that that it has to be integrated. And as it currently isn't, and there is no mention of it throughout the Bill, that's not really great in my eyes."*²⁷¹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

Gwybodaeth, cyngor a chymorth

466. Dywedodd **ymgyngoriad 2022 Llywodraeth Cymru** fod Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygio Deddf GIG (Cymru) 2006 i gynnwys (ymysg pwerau eraill) "pŵer i fyrdau iechyd lleol roi cymorth i bersonau neu gyrff mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol". Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i gynnwys fel pŵer ar wyneb y Bil. Mae'r Bil fel y'i drafftwyd yn dweud (yn adran 10C) y caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol.

467. Fe wnaethom gyflwyno i'r Gweinidog y dystiolaeth a glywsom am yr angen am gymorth i bobl anabl ddod i ddeall y system, a'r awgrym y byddai'r Bil yn cael ei gryfhau pe bai'n rhoi hawl glir i bobl gael cymorth, ac yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth annibynnol.

468. Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cod ymarfer ac y byddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio hynny fel arfer gorau, ac yn cymhwyso'r egwyddorion i daliadau uniongyrchol ar gyfer GIP.²⁷²

²⁷¹ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, paragraff 184

²⁷² Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 135

469. At hynny, dywedodd Anthony Jordan, Pennaeth Rhaglen a Gweithredu Deddfwriaethol yng Nghyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru, fod cydweithwyr polisi sy'n arwain ar daliadau uniongyrchol ar gyfer GIP yn ymgysylltu'n weithredol â byrddau iechyd lleol a sefydliadau sydd â phrofiad o ddarparu cymorth ac eiriolaeth i bobl anabl er mwyn sefydlu hynny, gyda'r gobaiith y byddai'r trefniadau prif ganolfan a lloerennau y bwriadwyd eu rhoi ar waith i gefnogi'r gwaith gweithredu yn arwain at roi ystyriaeth briodol i eiriolaeth a chymorth i'r unigolyn o fewn y strwythur hwnnw.²⁷³

470. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi mwy o fanylion am y 'trefniadau prif ganolfan a lloerennau' hyn, gan nodi bod Llywodraeth Cymru yn cynnig datblygu canolfan ganolog ar gyfer rhai swyddogaethau gweinyddol allweddol, er mwyn creu cronfa o staff arbenigol a all ymdrin â rheoli'r elfennau taliadau uniongyrchol. Tybiwyd y bydd angen staff parhaol o 5.5 o weithwyr amser llawn ar y ganolfan ganolog. Dywed "yn ddelfrydol, byddai gwasanaethau cymorth i'r rhai sy'n cael taliadau uniongyrchol GIP ar gyfer elfennau fel cymorth ar faterion cyflogaeth, recriwtio ac ati hefyd yn cael eu darparu'n lleol, gan gynnig cyfleoedd i fanteisio ar wasanaethau presennol sy'n helpu'r rhai sy'n cael taliadau uniongyrchol gofal cymdeithasol".²⁷⁴

471. Yn ogystal â hynny, cadarnhaodd y Gweinidog y bydd y ganolfan yn caniatáu ar gyfer dull 'Cymru gyfan' safonol, a fydd yn cynnwys "cyflwyno strategaeth gyfathrebu genedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd".²⁷⁵

472. Dywedodd Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, wrthym fod y cysyniad o ganolfan gefnogol wedi'i ddatblygu ar ôl dysgu o brofiadau dros y ffin yn Lloegr.²⁷⁶

473. Yn fwy cyffredinol, ac wrth ymateb i bryderon y gallai rhai pobl deimlo'n bryderus ynghylch ysgwyddo baich taliadau uniongyrchol, dywedodd Anthony Jordan:

"just to underline and reiterate that direct payments are very much being offered as an option that people can choose to take if they feel confident that, with the appropriate support, they can actually benefit from them. They won't be suitable or

²⁷³ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 137

²⁷⁴ Memorandwm Esboniadol:

²⁷⁵ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

²⁷⁶ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 166

*of interest to everyone and there is no way in which people can be compelled to take a direct payment if it doesn't meet their needs, and I think that is an important point.*²⁷⁷

Paratoi byrddau iechyd ar gyfer cyfrifoldebau newydd

474. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog nodi'r gwaith a oedd ar y gweill i baratoi byrddau iechyd ar gyfer eu cyfrifoldebau newydd.

475. Dywedodd Anthony Jordan wrthym fod sgysiau adeiladol ar y gweill a bod Llywodraeth Cymru yn falch iawn gyda pha mor awyddus yw awdurdodau lleol i gefnogi'r broses hon. Aeth ymlaen i ddweud:

*"One of the considerations that we have is potentially giving local authorities and/or organisations that are involved in advocating for direct payments an actual formal role in the implementation process, or in support for the CHC direct payments hub. So, I think we are in a good place; we're making satisfactory progress towards implementation of the commitment."*²⁷⁸

Rheoli'r trosglwyddo rhwng gofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus y GIG

476. Fe wnaethom gyflwyno i'r Gweinidog y dystiolaeth a glywsom am hawl i unigolion ddychwelyd i gael taliadau uniongyrchol gan awdurdodau lleol os oeddent wedi trosglwyddo i'r system GIP ond yn teimlo nad oedd yn gweithio iddynt, neu nad oeddent yn gallu ymdopi. Dywedodd Anthony Jordan wrthym:

"there is unlikely to be any difference in terms of the management requirements between direct payments under social care and direct payments under CHC. One of our aims is that it will be a seamless transition, so it will feel the same. So, I don't think it should be the case that there will be a difference in the requirements upon the individual to manage, because they should be getting the support they need in order to do that.

If their condition changes such that they can no longer manage it in the previous way, then what we would expect

²⁷⁷ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 111

²⁷⁸ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 154

*LHBs to do, by extension of what we'd expect local authorities to do, is to work with that person in order to find a way that they can still keep on receiving the direct payment.*²⁷⁹

477. Aeth ymlaen i gadarnhau na fyddai 'hawl i ddychwelyd' yn bosibl o dan y trefniadau deddfwriaethol presennol:

"once a person has stepped over the threshold of their need being a primary healthcare need, then that is the responsibility of the NHS to meet that need, and the legislative position is quite clear. Conversely, the legislative position for local authorities under the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 is that they cannot provide for needs that are principally needs that should be met under another enactment.

*So, local authorities wouldn't be able to, as it were, repatriate the responsibility back, because that person no longer has primarily social care needs, they have primarily health needs,*²⁸⁰

Llywodraethu a dirprwyo

478. Fe wnaethom holi'r Gweinidog am y dystiolaeth a glywsom gan gynrychiolwyr byrddau iechyd ynghylch y ffaith nad oes fframwaith perfformiad ar gyfer GIP ar hyn o bryd.

479. Mewn ymateb i hynny, dywedodd y bydd ei swyddogion yn "ailedrych ar y maes hwn, gan gynnwys gweithio gyda'r is-grŵp Gwerth a Chynaliadwyedd i sefydlu'r ffordd orau ymlaen i greu dull integredig o gasglu data ledled Cymru". Aeth ymlaen i ddweud y bydd Llywodraeth Cymru yn "gweithio gyda'n partneriaid i gwmpasu a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer fframwaith perfformiad newydd dros fisoedd yr hydref a'r gaeaf".²⁸¹

Costau a chymorth ariannol i fyrddau iechyd

480. Fe wnaethom dynnu sylw'r Gweinidog at y pryderon a godwyd gan fyrddau iechyd am y costau cynyddol y maent yn debygol o'u hwynebu o ganlyniad i'r Bil, ar adeg pan fo'r GIG o dan bwysau ariannol sylweddol.

²⁷⁹ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 124

²⁸⁰ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 125

²⁸¹ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 6 Medi 2024

481. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn rhagweld y gallai tua 110 o bobl, sef tuag 1 y cant o'r garfan gofal iechyd parhaus sy'n gwrthod asesiad GIP ar hyn o bryd ac sy'n parhau i gael gofal cymdeithasol, ddewis trosglwyddo i GIP pan fydd taliadau uniongyrchol ar gael. Byddai'r newid hwnnw, meddai, yn costio tua £4.2 miliwn y flwyddyn i fyrddau iechyd lleol rhwng 2025 a 2028.

482. Yn ogystal â derbynyddion newydd GIP sy'n dewis taliadau uniongyrchol, dywedodd wrthym yr amcangyfrifir y bydd y cynnig yn arwain at gynnydd o rhwng £20.5 miliwn a £24.2 miliwn mewn costau i fyrddau iechyd lleol, ar draws y saith bwrdd iechyd, dros y 10 mlynedd o 2025 i 2035. O'i ystyried yng nghydestun cyfanswm gwariant blynyddol Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru, sef tua £448 miliwn, disgrifiodd hwn fel ffigur cymharol fach, er ei bod yn disgwyl y byddai'r ffigurau ar gyfer 2023-24 gryn dipyn yn uwch.²⁸²

483. At hynny, dywedodd Albert Heaney fod trafodaethau Llywodraeth Cymru â Lloegr wedi dangos bod pecynnau GIP a ddarperir drwy daliadau uniongyrchol yn costio rhwng 11 y cant ac 16 y cant yn llai na'r pecynnau traddodiadol a ddarperir. Dywedodd, wrth edrych i'r dyfodol, y dylai fod modd cyflawni arbedion effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd ariannol hefyd, a chreu canlyniadau gwell ar yr un pryd.²⁸³

484. Cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd dim o'r gwaith modelu wedi'i seilio ar arbedion disgwylidig oherwydd cyflogau is i gynorthwyr personol a'r gweithlu gofal cymdeithasol". Dywedodd fod y gwaith modelu ariannol wedi ei seilio ar ffigur cyfartalog o £50,000 y flwyddyn ar gyfer pecyn GIP a gafwyd gan yr uned comisiynu gofal cenedlaethol.²⁸⁴

485. Nid ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu cyllid ychwanegol i fyrddau iechyd yn y dyfodol i dalu costau taliadau uniongyrchol am GIP, gan ddweud mai mater i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd oedd hwnnw, ond y byddai'n cael ei ystyried fel rhan o'r broses o bennu cyllideb ar gyfer y GIG.²⁸⁵

Natur fregus y gweithlu

486. Wrth ymateb i bryderon rhanddeiliaid ynghylch natur fregus y gweithlu a phrinder staff, dywedodd y Gweinidog nad oedd y materion hyn yn hysbys i

²⁸² Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 189

²⁸³ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 190

²⁸⁴ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 192

²⁸⁵ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 194

Llywodraeth Cymru, a oedd wedi bod yn gweithio o ddifrif i wella recriwtio a chadw'r gweithlu gofal cymdeithasol:

"We know that we've got many, many hundreds of vacancies across Wales throughout social care. So, we have established, through Social Care Wales, something called WeCare Wales, which is a body that is promoting the recruitment, training, career development, pay progression and all of those areas in the social care workforce.

*And we are seeing some results from that, where we're seeing more people now coming into the sector. But it still remains a huge challenge."*²⁸⁶

487. Wrth ymateb i bryderon am y potensial i ddadleoli'r farchnad lafur yn sgil y Bil, dywedodd y Gweinidog nad yw Llywodraeth Cymru yn gweld y bydd hynny'n broblem enfawr.²⁸⁷ Gan ychwanegu at hynny, dywedodd Anthony Jordan wrthym:

"we think that we're talking about small numbers in the first instance. We've calculated that probably about 110 people across Wales will be looking to move from their current direct payment arrangements with the local authority to direct payments under CHC.

*Obviously, some of them will have more than one PA, but we would anticipate that they bring them across, and then we think it will be a slow burn in terms of new people coming into the CHC system or people transitioning across."*²⁸⁸

488. Dywedodd fod hyn yn rhywbeth y bydd Llywodraeth Cymru yn cadw llygad arno gyda darparwyr a chyda Byrddau Iechyd Lleol, fel comisiynwyr y gwasanaethau hyn, wrth gynllunio ar gyfer gweithredu'r Bil, y tybiwyd y byddai ar waith erbyn 2026.²⁸⁹

Cynorthwyr personol

489. Yn benodol mewn perthynas â'r prinder Cynorthwyr Personol yr adroddwyd amdanynt, dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru

²⁸⁶ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 96

²⁸⁷ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 141

²⁸⁸ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 102

²⁸⁹ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 102

yn disgwyl i'r mwyafrif helaeth o Gynorthwywyr Personol ddod o'r gronfa bresennol:

*"what we anticipate happening is that a number of people who are currently in receipt of social care direct payments will transfer to the continuing healthcare direct payments, and will probably take their PA with them to provide the CHC direct payment."*²⁹⁰

490. Dywedodd hefyd fod y Bil yn rhoi cyfleoedd i bobl sy'n darparu gofal di-dâl i ffrind neu aelod o'r teulu ar hyn o bryd gael tâl am wneud hynny.²⁹¹

491. Yn y tymor hwy, cadarnhaodd Anthony Jordan fod yr angen am weithlu Cynorthwywyr Personol ychwanegol yn cael ei ystyried fel rhan o waith ehangach Llywodraeth Cymru i wella'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac fel rhan o ymgyrch recriwtio Gofalwn Cymru.²⁹²

492. Fe wnaethom herio'r Gweinidog ymhellach ynghylch pryderon y rhanddeiliaid am argaeledd y gweithlu a'r cyfraddau cyflog a gynigir i Gynorthwywyr Personol. Wrth ymateb i hyn, dywedodd, er bod Llywodraeth Cymru yn effro i'r pryderon hynny, eu bod y tu hwnt i gwmpas y Bil. Aeth ymlaen i ddweud:

*"But I think what we have to do is to give consideration to that with other teams across Welsh Government and stakeholder groups, and organisations like Care Inspectorate Wales and Social Care Wales, to see if we can bring some regularity into the system."*²⁹³

Cymhwysra ar gyfer GIP ac anghydfodau ynghylch cyllid

493. Fe wnaethom godi pryderon CLILC ac ADSS gyda'r Gweinidog bod y trothwyon cymhwysra ar gyfer cael mynediad at Ofal Iechyd Parhaus wedi parhau i gynyddu dros amser, gan olygu bod llai a llai o bobl yn cael mynediad ato.

494. Wrth ymateb i hynny, cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i "adolygu'r Fframwaith [GIP] presennol (yn weithredol o 1 Ebrill 2022) o

²⁹⁰ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 137

²⁹¹ Cofnod y Trafodion, 6 Mehefin 2024, paragraff 139

²⁹² Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraffau 97-98

²⁹³ Cofnod y Trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 105

fewn pum mlynedd i'w weithredu". Dywedodd y rhagwelir y bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn 2026/27, ac ar yr adeg honno byddai cyfle i ystyried ymgorffori canllawiau ychwanegol neu eglurhad ynghylch cymhwysra i gael GIP, pe bai'r broses adolygu'n ystyried bod hyn yn angenrheidiol.²⁹⁴

495. Aeth ymlaen i ddweud:

"byddai'n amserol ystyried amserlen ddeddfwriaethol y Bil ochr yn ochr â'r adolygiad o'r Fframwaith ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus. Byddai hyn yn galluogi gwybodaeth berthnasol ynghylch y taliadau uniongyrchol sydd newydd eu sefydlu ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus i gael ei chynnwys yn nogfen y Fframwaith diwygiedig.

O ystyried amserlen bresennol y Bil, y gobaith yw y gallai'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol tua diwedd gwanwyn 2025. Yna, bydd Rheoliadau a Chanllawiau yn cael eu llunio yn ystod 2025-26 a'r nod yw y byddai rhai taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus yn dechrau yn ystod 2026. Felly, byddai'r amserlen hon yn cyd-fynd yn daclus â'r adolygiad o'r Fframwaith ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus."

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

496. Fe wnaethom holi'r Gweinidog ynghylch yr awgrym gan randdeiliaid y dylid diwygio'r Bil i gynnwys cyfeiriad penodol at Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

497. Ymatebodd drwy ddweud bod "awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes yn ddarostyngedig i ddyletswydd i roi sylw dyladwy i Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau) (CCUHPA)":

"Ymdrinnir â hyn yn benodol ym mharagraff 65 o Ran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Cod Ymarfer Rhan 2: Swyddogaethau Cyffredinol. Ni fyddai ychwanegu dyletswydd sylw dyladwy bellach at Ddeddf 2014 yn ychwanegu unrhyw beth pellach."²⁹⁵

²⁹⁴ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 6 Medi 2024

²⁹⁵ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

Adolygiad ar ôl gweithredu'r Bil

498. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at adolygiad ar ôl gweithredu prif rannau'r Bil. Mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol ar gyfer GIP, noda:

“Er mwyn asesu effeithiolrwydd y cynnig hwn, byddwn yn comisiynu gwerthusiad annibynnol. Bydd y gwerthusiad hwn yn ymdrin â gweithredu'r cynnig a'i effaith. (...) Bydd y gwerthusiad o'r broses hefyd yn cynnwys cyfweiliadau â'r rhai sy'n ymwneud â gweithredu'r cynnig i archwilio unrhyw rwystrau neu faterion a allai gael effaith ar effeithiolrwydd y gweithredu terfynol. [...] Bydd y gwerthusiad o'r effaith yn mynd rhagddo wedyn i brofi'r canlyniadau a'r effeithiau hynny â derbynwyr arfaethedig y cynnig

(...) Gofynnir hefyd am setiau data'r Byrddau Iechyd Lleol eu hunain i roi darlun o'r nifer sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol ar gyfer GIP ledled Cymru, a bydd hyn yn cael ei fonitro dros amser i weld a yw'r opsiwn yn dal yn hygyrch ac a fydd y galw am yr opsiwn yn cynyddu, fel y gwelwyd yn Lloegr.”²⁹⁶

Ein barn ni

499. Mae'r paragraffau a ganlyn yn amlinellu ein barn ar y dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed ar y Bil. Mae'n werth nodi bod llawer o'r dystiolaeth honno'n ymwneud â phryderon ynghylch gweithredu'r Bil a'r maes polisi ehangach, yn hytrach na'r Bil ei hun. Fodd bynnag, mae'r rhain yn faterion pwysig a hoffem dynnu sylw'r Gweinidog atynt.

Gwybodaeth, cyngor a chymorth

500. Mae'n hanfodol bod unigolion sy'n ystyried trosglwyddo i daliadau uniongyrchol am ofal iechyd parhaus yn gallu cael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da. Clywsom dystiolaeth nad yw rhai pobl yn cael digon o gymorth gyda thaliadau uniongyrchol ar hyn o bryd.

501. I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu cynnig y Gweinidog i ddatblygu canolfan ganolog ar gyfer rhai swyddogaethau gweinyddol allweddol a fyddai'n darparu cymorth arbenigol i'r rhai sy'n cael taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP. Rydym yn

²⁹⁶ Memorandwm Esboniadol, tudalennau 148-149

cefnogi'r cynnig i ddarparu gwasanaethau cymorth penodol yn lleol, megis cymorth cyflogaeth a recriwtio, a fyddai'n defnyddio gwasanaethau presennol sy'n cefnogi'r rhai sy'n derbyn taliadau gofal cymdeithasol uniongyrchol. At hynny, rydym yn cefnogi'r dull 'safonedig, Cymru gyfan' a gynigiwyd gan y Gweinidog, gan gynnwys cyflwyno strategaeth gyfathrebu genedlaethol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

502. Yn hyn oll, bydd cydgynhyrchu yn elfen hollbwysig wrth ddatblygu canllawiau, gwybodaeth a chyngor i ddefnyddwyr gwasanaethau a'r rhai sy'n eu cefnogi.

503. O ystyried pwysigrwydd y ganolfan ganolog i roi'r polisi ar waith, credwn y dylai'r Gweinidog roi diweddariad o bryd i'w gilydd ar y cynnydd o ran ei datblygiad. Dylai hyn gynnwys manylion ei statws gweithredol presennol, niferoedd y staff, costau gweithredu a nifer y bobl sy'n cael cyngor a chymorth.

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad ar y cynnydd o ran datblygu'r ganolfan ganolog i gefnogi'r gwaith o weithredu taliadau uniongyrchol am ofal iechyd parhaus. Dylai hyn gynnwys manylion ei statws gweithredol presennol, niferoedd y staff, costau gweithredu a nifer y bobl sy'n cael cyngor a chymorth. Dylid ei gynhyrchu o fewn chwe mis i ddadl Cyfnod 1, ac yn flynyddol wedi hynny.

504. At hynny, rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y dylai fod gan unigolion sy'n ceisio hawlio taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP yr hawl i gael cymorth, a chredwn y dylid cryfhau'r Bil i wneud darpariaeth benodol ar gyfer hyn.

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil i wneud darpariaeth ar gyfer 'hawl i wybodaeth, cyngor a chymorth' i unigolion sy'n awyddus i hawlio taliadau uniongyrchol am ofal iechyd parhaus. Dylai unrhyw ganllawiau a gyhoeddir o dan y ddarpariaeth hon gynnwys gwybodaeth am drosglwyddo rhwng gofal cymdeithasol a Gofal Iechyd Parhaus, a dylent hyrwyddo parhad gofal cyn belled ag y bo modd.

505. Yn fwy cyffredinol, rydym yn cydnabod na fydd taliadau uniongyrchol yn addas i bawb, a chawsom ein cysuro gan y dystiolaeth a gawsom gan y Gweinidog y byddant yn cael eu cynnig fel opsiwn i bobl ei ddewis, ond nad oes unrhyw ffordd y gellir gorfodi pobl i dderbyn taliad uniongyrchol os nad yw hynny'n addas ar gyfer eu hanghenion.

506. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus ynghylch y dystiolaeth a glywsom gan rhanddeiliaid, gan gynnwys ADSS Cymru, mai taliadau uniongyrchol yw'r unig opsiwn sydd ar gael mewn ardaloedd gwledig weithiau, yn absenoldeb unrhyw

ddewisiadau amgen. Credwn fod hwn yn fater y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio iddo wrth baratoi ar gyfer gweithredu'r Bil.

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth bellach i bryderon rhanddeiliaid mai taliadau uniongyrchol yw'r unig opsiwn sydd ar gael weithiau, mewn ardaloedd gwledig yn benodol, yn absenoldeb gwasanaethau eraill. Dylai weithio gyda phartneriaid i ystyried sut y gellir rheoli unrhyw gyfyngiadau ar wasanaethau yn yr ardaloedd hyn a'r ffordd orau o gefnogi'r unigolion y mae'r cyfyngiadau'n effeithio arnynt.

Paratoi byrddau iechyd ar gyfer cyfrifoldebau newydd

507. Wrth baratoi i ymgymryd â'u cyfrifoldebau newydd, rhaid i fyrddau iechyd fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd dysgu a gynigir drwy brofiadau o drefniadau tebyg yn Lloegr, yn ogystal â phrofiadau awdurdodau lleol sy'n profi taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal cymdeithasol. Ni ddylai fod angen ailddyfeisio'r olwyn.

508. Cawsom ein cysuro o glywed bod awdurdodau lleol wedi dangos parodrwydd clir i ddarparu cymorth i fyrddau iechyd, a'u bod wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd ers peth amser bellach i baratoi ar gyfer y newidiadau a ddaw yn sgil y Bil.

509. Yn ogystal â'r diweddariad ar y cynnydd o ran datblygu'r ganolfan gyngor ganolog, credwn y dylai'r Gweinidog hefyd roi diweddariad o bryd i'w gilydd yn amlinellu ei hasesiad o'r cynnydd sy'n cael ei wneud i baratoi byrddau iechyd ar gyfer eu cyfrifoldebau newydd yn y maes hwn.

Argymhelliad 20. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad o bryd i'w gilydd yn amlinellu ei hasesiad o'r cynnydd sy'n cael ei wneud i baratoi byrddau iechyd ar gyfer eu cyfrifoldebau newydd yn y maes hwn. Dylid gwneud hyn bob chwe mis, a dylai ddechrau ar ôl i ddadl Cyfnod 1 gael ei chwblhau. Fel rhan o hyn, dylai'r Gweinidog sicrhau bod byrddau iechyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddysgu o'u profiadau a'u harferion gorau.

Rheoli'r trosglwyddo rhwng gofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus y GIC

510. O ran rheoli symudiadau rhwng gofal cymdeithasol a GIP, dylai'r ffocws fod ar ddarparu parhad gofal i'r unigolyn a throsglwyddo'n ddi-dor sy'n sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael heb gyllid a chymorth yn ystod y cyfnod trosiannol. Dylai fod trefniadau clir rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn nodi sut y gwneir hyn.

511. O ran yr ‘hawl i ddychwelyd’ i daliadau uniongyrchol am ofal cymdeithasol, roedd hwn yn destun pryder gwirioneddol i rai o’r rhanddeiliaid y bu inni siarad â nhw. Roeddent yn ansicr ynghylch y system newydd a ph’un a fyddai’n addas ar eu cyfer, ac yn ofni newid eu trefniadau presennol heb y rhwyd ddiogelwch o allu dychwelyd i’w trefniadau blaenorol.

512. Nodwn dystiolaeth y Gweinidog, a ddywedodd ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw wahaniaeth o ran y gofynion rheoli rhwng taliadau uniongyrchol o dan ofal cymdeithasol a thaliadau uniongyrch o dan GIP. At hynny, ni fyddai hawl i ddychwelyd yn bosibl o dan y trefniadau deddfwriaethol presennol. Serch hynny, mae’n bwysig bod y Gweinidog yn deall y pryderon gwirioneddol yn y maes hwn er mwyn iddi allu sicrhau bod unrhyw gamau priodol yn cael eu cymryd.

513. Er ein bod yn gresynu nad yw ‘hawl i ddychwelyd’ yn gyfreithiol bosibl, rydym yn gobeithio y byddai ‘hawl i wybodaeth, cyngor a chymorth’ yn helpu rhywfaint i liniaru’r ofn ynghylch yr anhysbys i’r rhai sy’n ystyried derbyn taliadau uniongyrchol am GIP. Mae argymhelliad 18 uchod yn cyfeirio at hyn, ac yn galw am sicrhau bod unrhyw ganllawiau’n cynnwys gwybodaeth am drosglwyddo rhwng gofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus y GIG, ac i hyrwyddo parhad gofal ar gyfer unigolion sy’n symud rhwng y ddwy system.

Llywodraethu a dirprwyo

514. Rydym yn cefnogi’r dystiolaeth gan randdeiliaid ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod gan fyrdau iechyd strwythurau llywodraethu clir ar waith i ddirprwyo tasgau priodol yn ddiogel i Gynorthwywyr Personol. Er nad yw’n fater i’r Bil ei hun, credwn fod hwn yn faes y byddai’n fuddiol i Lywodraeth Cymru roi mwy o eglurder yn ei gylch.

515. Nodwn fod y fframwaith perfformiad ar gyfer GIP yng Nghymru yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a bod y Gweinidog yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y fframwaith diwygiedig hwnnw dros y misoedd nesaf. Rhaid i’r fframwaith hwnnw gynnwys canllawiau ar ddirprwyo tasgau priodol yn ddiogel, a metrigau penodol ar gyfer taliadau uniongyrchol. Credwn y dylai’r Gweinidog roi diweddariadau inni am y cynnydd yn y maes hwn.

Argymhelliad 21. Dylai’r Gweinidog ysgrifennu atom ymhen chwe mis gyda diweddariad ar y cynnydd o ran datblygu’r fframwaith perfformiad a’r cynllun gweithredu newydd ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys canllawiau ar ddirprwyo tasgau priodol yn ddiogel a manylion y

metrigau a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer taliadau uniongyrchol er mwyn gallu mesur cynnydd a llwyddiant.

Costau a chymorth ariannol i fyrddau iechyd

516. Credwn y bydd yn bwysig i'r Gweinidog fonitro'r gwariant gan fyrddau iechyd ar y polisi hwn, yn enwedig o ystyried yr heriau ariannol sy'n wynebu byrddau iechyd, a'r potensial i sicrhau arbedion effeithlonrwydd ariannol yn y tymor hwy.

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog:

- fonitro'r gwariant gan fyrddau iechyd dros dair blynedd gychwynnol y polisi, ac adrodd yn ôl ar ddiwedd y cyfnod hwn ar sefyllfa ariannol byrddau iechyd o ran eu gallu i barhau i ariannu a darparu taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus, a
- pharhau i fonitro ac adolygu gwariant gan fyrddau iechyd ar y polisi hwn yn y dyfodol.

Y gweithlu a chynorthwyr personol

517. Mae natur fregus y gweithlu gofal cymdeithasol yn dra hysbys, ac mae ffrydiau gwaith amrywiol ar y gweill i geisio mynd i'r afael â hyn. Cawsom dystiolaeth sylweddol y bydd prinder staff ym maes gofal cymdeithasol yn rhwystro i weithredu'r Bil yn llwyddiannus. Clywsom hefyd gan lawer o randdeiliaid am y gwahaniaeth mewn cyfraddau cyflog rhwng rolau tebyg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r cyfraddau a delir i Gynorthwyr Personol ar draws awdurdodau lleol. Yn hynny o beth, bydd angen monitro'n ofalus effaith y Bil ar y gweithlu gofal cymdeithasol ehangach, gan gynnwys ei effaith mewn ardaloedd gwledig lle mae'n hysbys bod problemau difrifol iawn yn ymwneud â digonolrwydd.

518. Yn fwy penodol, ac mewn perthynas â recriwtio a chadw Cynorthwyr Personol, mae hon yn broblem ymarferol, real iawn i lawer o bobl. Mae'r Gweinidog wedi dweud ei bod yn disgwyl i'r mwyafrif helaeth o Gynorthwyr Personol ddod o'r gronfa bresennol, ond gwyddom am yr anawsterau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y maes hwn. Yn y tymor hwy, rydym yn deall bod mentrau ar waith i geisio gwella cyfraddau recriwtio a chadw Cynorthwyr Personol, sy'n cynnwys gwaith ar y cyfraddau cyflog sydd ar gael iddynt.

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog weithio gyda chydweithwyr perthnasol yn y Cabinet a phartneriaid ehangach i hyrwyddo rôl y Cynorthwyr Personol, i

gynyddu nifer y ceisiadau ac i wella cyfraddau cadw staff yn y tymor hwy. Bydd hyfforddiant priodol yn rhan bwysig o'r gwaith hwn.

Cymhwystra ar gyfer GIP ac anghydfodau ynghylch cyllid

519. Mewn perthynas â chymhwystra ar gyfer GIP ac anghydfodau ynghylch cyllid, nodwn ymrwymiad y Gweinidog i adolygu'r fframwaith GIP presennol yn 2026/27, ac y bydd hyn yn gyfle i ymgorffori canllawiau ychwanegol ynghylch cymhwystra ar gyfer GIP.

520. Bydd yn bwysig cynnwys awdurdodau lleol yn y gwaith hwn, o ystyried y tensiynau presennol ynghylch cymhwystra. Bydd angen i unrhyw adolygiad fynd i'r afael â'r problemau presennol a nodwyd ganddynt.

Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad i'r Pwyllgor, ar ôl cwblhau'r adolygiad o'r fframwaith Gofal Iechyd Parhaus, gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau a chanllawiau cymhwystra ychwanegol a ddarparwyd o ganlyniad i'r adolygiad.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

521. Codwyd pwysigrwydd cynnwys cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn y Bil gyda ni gan elusennau anabled. Roeddent yn teimlo y byddai cyfeiriad o'r fath ar wyneb y Bil yn gwneud datganiad cryf, yn debyg i'r dull a ddefnyddiwyd gyda Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

522. Rydym yn nodi datganiad y Gweinidog bod awdurdodau lleol eisoes yn destun dyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn, a'i barn na fyddai cynnwys cyfeiriad pellach at hyn yn y Bil yn ychwanegu dim byd pellach.

Argymhelliad 25. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn nodwedd amlwg o'r canllawiau a gyhoeddir ar Ran 2 o'r Bil.

Adolygiad ar ôl gweithredu'r Bil

523. Rydym yn croesawu'r camau a gynigir gan y Gweinidog o ran yr adolygiad ar ôl gweithredu'r Bil. Credwn fod unrhyw werthusiad yn ystyried yr ymwybyddiaeth, ymhlith defnyddwyr gofal cymdeithasol, am yr opsiwn newydd o daliadau uniongyrchol ar gyfer GIP. Gofynnwn i'r Gweinidog ddarparu'r setiau data gan Fyrddau Iechyd Lleol sydd wedi'u bwriadu i roi darlun o'r niferoedd sy'n eu

defnyddio ledled Cymru. Gofynnwn hefyd i'r Gweinidog ddarparu manylion yr amserlenni ar gyfer yr adolygiad ar ôl gweithredu'r Bil.

Argymhelliad 26. Dylai'r Gweinidog:

- sicrhau bod yr adolygiad ar ôl gweithredu'r Bil yn ystyried yr ymwybyddiaeth, ymhlith defnyddwyr gofal cymdeithasol, o'r opsiwn newydd o daliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus;
- cytuno i ryddhau setiau data'r Byrddau Iechyd Lleol sydd wedi'u bwriadu i roi darlun o'r nifer sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus ledled Cymru, a
- darparu manylion yr amserlenni ar gyfer yr adolygiad ar ôl gweithredu'r Bil.